



## Adroddiad y Pennaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid

Pwyllgor Cydraddoldeb - 27 Awst 2014

### CYNLLUN IAITH GYMRAEG

#### ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL DRAFFT 2013-14

<b>Diben:</b>	Cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg 2013-14.
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Cynllun Iaith Gymraeg Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016
<b>Rheswm dros y penderfyniad:</b>	Mae'n ofynnol i'r cyngor gyflawni adolygiad blynyddol o'r broses rhoi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith a chyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'i gyhoeddi.
<b>Ymgynghoriad:</b>	Cyfreithiol, Cyllid; Mynediad i Wasanaethau; Pwyllgor Cydraddoldebau
<b>Argymhelliad (Argymhellion):</b>	Argymhellir i'r Pwyllgor Cydraddoldeb: <ul style="list-style-type: none"><li>• Ystyried Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg 2013-14..</li></ul>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Euros Owen/Phil Couch
<b>Swyddog Cyllid:</b>	Carl Billingsley
<b>Swyddog Cyfreithiol:</b>	Tracey Meredith
<b>Swyddog Mynediad i Wasanaethau:</b>	Sherill Hopkins

#### 1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg bod adroddiad ar y broses o roi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith yn cael ei gyflawni bob blwyddyn ac mae'n cynnwys monitro chwe dangosydd perfformiad yr Iaith Gymraeg.
- 1.2 Fel mewn sawl rhan o Gymru, mae proffil yr iaith yn Ninas a Sir Abertawe wedi newid dros y degawd diwethaf. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 11.4% (26,332) o boblogaeth Dinas a Sir Abertawe yn siarad Cymraeg (gyda 19.3% yn meddu ar fwy nag un sgil ieithyddol). Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 1.6% ers Cyfrifiad 2001 a oedd ychydig yn llai na chyfartaledd Cymru (1.9%). Gan fod Abertawe yn ganolfan economaidd a manwerthu ar gyfer de-orllewin Cymru, mae'n bwysig nodi bod oddeutu traean o'r holl siaradwyr Cymraeg yn byw yn y rhanbarth.

#### 2.0 Adroddiad Monitro ar gyfer 2013/14

- 2.1 Atodir yr adroddiad drafft fel Atodiad A ac mae'n cynnwys y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2014.
- 2.2 Mae'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg bod yr adroddiad monitro'n cynnwys y meysydd canlynol:

### 2.2.1 **Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg**

- § Mae'r cynllun gweithredu'n rhoi'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf gydag adroddiad ar bob targed fel y mae'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac eglurhad pan na fydd targed wedi'i gyflawni. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Rhan 6 ac Atodiad 1 yr adroddiad monitro.
- § Ceir cynnydd o hyd ar draws y rhan fwyaf o gamau gweithredu. Mae meysydd allweddol a ddatblygwyd dros y flwyddyn yn cynnwys, fel enghraifft:
- Ymateb i'r Ymchwiliad drafft i Safonau'r Iaith Gymraeg
  - Dadansoddiad pellach o sgiliau iaith Gymraeg o'r arolwg proffil staff
  - Rhoi cynllun gweithredu blwyddyn gyntaf cyflwyno Mwy na Geiriau (Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau yn y Gymraeg mewn lechyd, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol) ar waith.

### 2.2.2 **Gwasanaethau Rheng Flaen**

Ymdrinnir â sgiliau ieithyddol mewn derbynfeydd a chanolfannau cyswllt yn adran 7:

- Cyflawnwyd darpariaeth Gymraeg yn y Ganolfan Gyswllt yn bennaf drwy recriwtio aelod o staff dwyieithog ym mis Hydref 2011.
- Mae peth gwaith eleni wedi canolbwyntio ar Ganolfan Alwadau'r Amgylchedd a derbyniadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion.

### 2.2.3 **Rheoli a gweinyddu'r Cynllun**

Mae adran 8 yr adroddiad yn ymdrin â:

- Contractau - mae gofynion o ran yr iaith Gymraeg mewn contractau yn cynnwys enghraifft o'r nifer o staff sy'n siarad Cymraeg a gyflogir gan rhai darparwyr gofal cartref wedi'u comisiynu gan y gwasanaethau cymdeithasol
- Trefniadau llywodraethu a chraffu mewnol ar gyfer y cynllun, gan gynnwys gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb:
  - roedd cyfarfodydd yn ystod 2013 yn canolbwyntio ar ymweliadau a chyflwyniadau adrannol i roi'r diweddaraf ar gynnydd yn yr amcanion cydraddoldeb gwasanaethau o ran y Cynllun Iaith Gymraeg.
  - ystyriodd y pwyllgor Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg 2012-13 hefyd.
- Cynlluniau busnes a lle y maent yn cysylltu â'r cynllun drwy'r cynllun gweithredu, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rhoi Mwy na Geiriau ar waith yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cwynion – cafwyd 5 mewn perthynas â'r Gymraeg
- Cynnwys y wefan ac amlinelliad o'r trefniadau ar gyfer fersiwn newydd gwefan y cyngor.

#### 2.2.4 Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae Adran 9 ac Atodiad 6 o'r adroddiad yn ymwneud â:

- Dadansoddiad pellach o'r arolwg a gynhaliwyd ar ddiwedd 2013 sy'n dangos, er enghraifft, y canlynol:
  - yn y Gwasanaethau Corfforaethol, roedd 10.6% o'r rhai a ymatebodd yn siarad Cymraeg
  - Cyfarwyddiaeth Pobl: yn yr adran Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol roedd bron 4% a 7.6% yn eu tro o'r rhai a ymatebodd yn siarad Cymraeg
  - Cyfarwyddiaeth Lleuedd: roedd 10% o'r rhai a ymatebodd yn siarad Cymraeg
- Buddsoddiad mewn hyfforddiant iaith Gymraeg - mae'r adran hon yn cynnwys manylion cwrs cychwynnol undydd "Cwrs Graenus" (cwrs gwella) a dreialwyd gyda staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Darpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith gyda gwybodaeth am ein cyrsiau e-Ddysgu.

#### 2.2.5 Prif-ffrydio'r iaith Gymraeg

Mae adran 10 yn ymwneud â:

- Threfniadau i asesu effaith polisiâu ar yr iaith Gymraeg drwy ein proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd wedi'i hadolygu i gynnwys cwestiwn ychwanegol ac arweiniad sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ac amlinelliad o roi protocol Cydraddoldeb a Chynnwys ar waith mewn adroddiadau.
- Gwybodaeth am gamau gweithredu i hyrwyddo defnydd ehangach o'r Gymraeg gan gynnwys gwaith ar yr ymchwiliad Safonau a'r CLG gyda Menter Iaith Abertawe (Atodiad 3 o'r Adroddiad Monitro).

#### 2.2.6 Dadansoddi Perfformiad

Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'n perfformiad a amlinellwyd yn Adran 11 o'r adroddiad monitro:

i) esboniad byr o'r cynnydd o ran y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2013/14:

- Gwaith gyda meysydd gwasanaeth i fodloni gofynion DFIG1 o ran monitro sampl o gontractau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun: *Peth gwaith cychwynnol wedi'i gyflawni yn y Gwasanaethau Cymdeithasol - bydd angen mwy o waith dilynol yn y maes hwn yn 2014/15.*
- Gweithio gyda derbynfeydd mewn meysydd gwasanaeth penodol i asesu gofynion o ran DFIG2: *Cyflawnwyd gwaith gyda rhai meysydd gwasanaeth yn Adran 7 a bydd angen mwy o waith dilynol yn 2014/15.*
- Cwblhau a chyhoeddi'r Fframwaith Sgiliau Ieithyddol ar ôl dadansoddi'r proffil staff ymhellach i gynnwys mesurau i fynd i'r afael â DFIG1 3 (hyfforddiant) a DFIG4 (hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith): *Rhannau o'r Fframwaith Sgiliau Ieithyddol arfaethedig sy'n ymdrin â'r broses ddynodi y cytunwyd arnynt mewn egwyddor a'u cymhwyso mewn achosion penodol. Caiff gweddill y fframwaith ei adolygu pan fydd y safonau'n hysbys. Bydd angen mwy o waith dilynol yn 2014/15 o ran y meysydd sy'n ymwneud â rhoi'r broses ddynodi ar waith.*

- Dadansoddiad pellach o broffil y gweithlu a'r archwiliad sgiliau iaith i fynd i'r afael â CIG15 o ran sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu gan ddefnyddio'r data sydd ar gael i nodi diffygion posib mewn darpariaeth: *Cyflawnwyd gwaith fel a nodwyd yn adran 9 ac Atodiad 6 - bydd angen mwy o waith dilynol yn y maes hwn yn 2014/15.*
- Cefnogi rhoi'r cynllun Mwy na Geiriau ar waith yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys Cynnig Actif fel model i'w ddefnyddio mewn meysydd gwasanaeth eraill o bosib: *Cefnogwyd blwyddyn gyntaf rhoi'r cynllun ar waith - gweler Atodiad 4 am adroddiad y cynllun gweithredu - bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2014/15.*
- Rhoi adolygiad o'r iaith Gymraeg ar waith yn y broses AEC: *Mae proses adolygedig yr AEC wedi'i threialu a'i chwblhau (Atodiad 5).*
- Mwy o waith ar y cynllun gweithredu o ran canlyniadau a nodi meysydd arfer da: *Bydd angen mwy o waith dilynol yn y maes hwn yn 2014/15*
- Gwaith ar y safonau pan gânt eu cyhoeddi gan Weinidog Llywodraeth Cymru: *Adroddiad yr Ymchwiliad Safonau wedi'i gwblhau ac ar gyfer 2014/15, bydd angen cyflawni gwaith i fodloni'r safonau pan benderfynir arno.*
- Amlinellu gwaith i fonitro ansawdd gwasanaethau Gymraeg: *Wedi'u nodi ym mharagraff c) yr adroddiad.*

ii). Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon yn parhau fel y nodwyd uchod ac yn ogystal:

- gwella'r gefnogaeth iaith Gymraeg sydd ar gael ar Staffnet.
- yr angen i ddatblygu pecyn o gefnogaeth ffurfiol ac anffurfiol er mwyn i staff sy'n siarad Gymraeg gyflwyno gwasanaethau'n ddwyieithog.

iii). Risg a her allweddol yw lleihau adnoddau a chyfyngiadau ariannol a wyneb ir gan yr holl awdurdodau lleol nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.

b). mae enghreifftiau o arfer perthnasol yn cynnwys:

- Diwylliant a Thwristiaeth:
  - partneriaeth gwasanaeth 5 x 60 gyda'r Urdd
  - Arddangosfa Fforwm Iaith Abertawe a gynhaliwyd yn y Llyfrgell Ganolog ym mis Mawrth
  - Dathliad canmlwyddiant Seren Gomer yn y Llyfrgell
- Tai a Diogelu'r Cyhoedd:
  - hyrwyddo digwyddiadau cyfnewid Cymraeg Gartref yn y Ganolfan Ddinesig gyda dau aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.
  - monitro ceisiadau am wasanaeth iaith Gymraeg wyneb yn wyneb a thros y ffôn bob chwarter
- Addysg:
  - Mae perfformiad yn y Gymraeg Ail Iaith yn gwella ar draws pob cyfnod allweddol
- Gwasanaethau Cymdeithasol:
  - rhoi blwyddyn gyntaf Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau ar waith sydd wedi cynnwys, er enghraifft, data dadansoddiad o'r iaith Gymraeg yn y gymuned a chyfarfod cynnwys gyda staff.

c). monitro ansawdd gwasanaethau Cymraeg a/neu arolygon defnyddwyr gwasanaeth - mae'r adran hon yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn 2013/14.

### **3.0 Goblygiadau Cydraddoldeb a Chynnwys**

- 3.1. Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio'n unol â Chynllun Gweithredu'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer ein Cynllun Iaith Gymraeg i fonitro perfformiad a chyflwyno tystiolaeth o gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg cytunedig i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
- 3.2. Caiff unrhyw faterion a amlygir yng Nghynllun Gweithredu'r cynllun neu yn yr adroddiad eu datblygu drwy fentrau penodol a gyflawnir gan adrannau unigol ac yn destun eu sgrinio AEC eu hunain. O ganlyniad, nid oes angen adroddiad AEC pellach.

### **4.0 Goblygiadau Ariannol**

- 4.1 Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol o gymeradwyo'r adroddiad hwn.

### **5.0 Goblygiadau Cyfreithiol**

- 5.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg cyrff unigol gan safonau cenedlaethol. Nes bod safonau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi y bydd y system o Gynlluniau Iaith Gymraeg ac adroddiadau blynyddol, a sefydlwyd o ganlyniad i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn parhau i gael ei gweithredu. Bydd rhaid i Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg 2012-2013 gael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn unol â'r gofynion hyn.

#### **Atodiadau:**

**Atodiad A:** Adroddiad Monitro Blynyddol drafft y Cynllun Iaith Gymraeg 2013-14

**Atodiad A**

**Dinas a Sir Abertawe**

**Cynllun Iaith Gymraeg**

**Adroddiad Monitro  
Blynyddol Drafft**

**2013-2014**

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	3
2.	Cefndir .....	3
3.	Trosolwg o 2013-2014 .....	4
4.	Addysg Gymraeg .....	5
5.	Wyneb Cyhoeddus y Cyngor .....	5
6.	Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg .....	6
7.	Gwasnaethau Rheng Flaen.....	6
	<b>a). Derbynfeydd / Canolfannau Cyswllt.....</b>	<b>6</b>
	<b>b). Gwasanaethau eraill.....</b>	<b>7</b>
8.	Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun .....	8
	<b>a). Contractau / Caffael.....</b>	<b>8</b>
	<b>b). Llywodraethu a Chraffu Mewnol .....</b>	<b>9</b>
	<b>c). Trefniadau Adrannau.....</b>	<b>10</b>
	<b>d). Cwynion .....</b>	<b>11</b>
	<b>e). Cynnwys Cymraeg y wefan .....</b>	<b>11</b>
9.	Sgiliau Iaith Gymraeg.....	12
	<b>a). Sgiliau staff .....</b>	<b>12</b>
	<b>b). Hyfforddiant ar gyfer y Gymraeg .....</b>	<b>13</b>
	<b>c). Hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith.....</b>	<b>14</b>
10.	Prif ffrydio'r iaith Gymraeg .....	14
	<b>a). Effaith polisiau .....</b>	<b>14</b>
	<b>b). Enghreifftiau o brif ffrydio .....</b>	<b>15</b>
	<b>c). Gwybodaeth arall am weithgareddau prif ffrydio .....</b>	<b>17</b>
11.	Dadansoddi Perfformiad .....	17
	<b>a). Nodi risgiau a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.....</b>	<b>17</b>
	<b>b). Enghreifftiau o arfer da perthnasol.....</b>	<b>18</b>
	<b>c). Tystiolaeth o ymdrechion i fonitro ansawdd gwasanaethau Cymraeg     a/neu arolygon defnyddwyr gwasanaeth.....</b>	<b>19</b>
	ATODIADAU .....	20



# 1. Cyflwyniad

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi datgan bod hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn flaenoriaeth.

Mae'r cyngor wedi gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ers 1997 o dan ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cadarnhawyd y trydydd Cynllun cyfredol hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2011.

Yn unol â thelerau Mesur y Gymraeg 2011, bydd y Cynllun hwn yn dal i gael ei weithredu nes cyflwyno Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg i gyrff cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ac mae'n datgan sut mae'r awdurdod yn ymdrin â gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg ac yn eu darparu.

Mae pob pwynt yng Nghynllun Gweithredu'r cynllun yn cael eu diweddarau fel rhan o'r broses fonitro flynyddol - gan ychwanegu unrhyw fentrau newydd neu ddiwygiedig a hefyd adlewyrchu'r newidiadau yn strwythur yr awdurdod.

Yn ogystal â manylion penodol y Cynllun, mae'r awdurdod yn parhau i gyfeirio at y defnydd o'r Gymraeg fel nodwedd ychwanegol ar sail gyfartal â'r nodweddion gwarchoddedig (fel y manylir arnynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010) wrth ystyried materion cydraddoldeb.

Darperir cyngor ac arweiniad ar weithredu'r cynllun drwy'r Tîm Mynediad i Wasanaethau (rhan o'r maes gwasanaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid), y mae Swyddog yr Iaith Gymraeg dynodedig yn rhan ohono.

Caiff yr adroddiad cymeradwy ei gyhoeddi ar wefan gyhoeddus y cyngor a bydd ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg neu Saesneg yn [[www.abertawe.gov.uk/cymraeg](http://www.abertawe.gov.uk/cymraeg)]. Bydd fformatau eraill ar gael yn ôl y galw.

## 2. Cefndir

Dinas a Sir Abertawe yw'r ail awdurdod unedol mwyaf yng Nghymru (o ran poblogaeth) gyda phoblogaeth o 239,000 (Cyfrifiad 2011).

Mae ffigurau cychwynnol Cyfrifiad 2011 yn dangos bod gan 19.3% o'r boblogaeth 3 oed a hŷn (44,659 o unigolion) rywfaint o sgiliau iaith Gymraeg. Mae hwn yn ostyngiad o 3.2% o ffigurau 2001 (22.5%; 48,582).

Ar ffigwr o 11.4%, mae Abertawe'n 13<sup>eg</sup> yn y rhestr o ganran siaradwyr Cymraeg yr awdurdodau unedol (o'i gymharu â 12<sup>fed</sup> ar 13% yn 2001) - ond 8<sup>fed</sup> o ran niferoedd ar 26,332 (o'i gymharu â 7<sup>fed</sup>; 28,938 yn 2001).

Mae'r newid yn cael ei adlewyrchu ar draws Cymru (nifer y siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd wedi gostwng 20,352; 1.9% rhwng 2001 a 2011).

Ceir ffigurau cyfrifiad cymharol ar gyfer 2001 a 2011 yn ôl dosbarthiadau etholiadol yn Atodiad 2. Mae'r rhain yn dangos bod y gostyngiad yn nifer a chyfrannedd siaradwyr Cymraeg yn amrywio o gymuned i gymuned a gwelir cynnydd mewn rhai ohonynt. Mae Atodiad 2 hefyd yn cynnwys ffigurau cyfrifiad 2011 ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg fesul Grŵp Oed ar draws ardal yr awdurdod.

Dylid cymharu'r ffigur 26,332 uchod ag amcangyfrifon Arolwg Poblogaeth Blynyddol *StatsWales* ar gyfer 2012-13 sy'n rhoi ffigur o 35,700 (sef 16.0% o'r boblogaeth) o ran y trigolion sy'n siarad Cymraeg yn Abertawe.

Yn ogystal â'n trigolion:

- Mae tua 28,000 o bobl yn cymudo i weithio yn Abertawe - llawer ohonynt o ardaloedd lle mae cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg.
- Mae Abertawe'n gyrchfan i dwristiaid o bedwar ban byd, ond yn enwedig o rannau eraill o Gymru.
- Y ddinas yw prif ganolfan ranbarthol de-orllewin Cymru ac mae ei chyfleusterau'n denu pobl o gefnwlad fawr i'w atyniadau ei hun ac i ddigwyddiadau mawr
- Mae llwyddiant parhaus Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn yr Uwch-gynghrair ac wrth gystadlu yng Nghynghrair Europa UEFA wedi darparu mwy o gyfle i hyrwyddo'r ardal a'i threftadaeth ar draws y byd - gan gyflwyno llawer o bobl i'r iaith Gymraeg am y tro cyntaf drwy hysbysebu a hyrwyddiadau eraill.

### 3. Trosolwg o 2013-2014

Roedd y prif ffocws arfaethedig yn ystod y cyfnod adrodd yn ymwneud â hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg arfaethedig a pharatoi'r awdurdod ar gyfer trosglwyddo mor ddi-dor â phosib o'r Cynllun i'r Safonau. Roedd cyhoeddiad drafft y Safonau mewn Perthynas â'r Gymraeg i ymgynghori arno gan Weinidog Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr a'r Ymchwiliad i Safonau dilynol a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg tan ganol mis Ebrill yn rhoi cyfle i gael barn pob adran yn yr awdurdod ar effeithiau posib eu rhoi ar waith. Rhoddodd gyfle hefyd i hyrwyddo'r Cynllun presennol ymhellach, ynghyd â'r meysydd a gynhwysir gan y Safonau arfaethedig. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld yr adroddiad a'r argymhellion i ddod.

Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu i lunio'n hymateb i gamau gweithredu'r awdurdod lleol a nodwyd yn **Mwy na Geiriau** - Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Iaith Gymraeg ym meysydd lechyd, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Er bod ailstrwythuro a symudiadau staff wedi cael effaith, fel ym meysydd gwaith eraill yr awdurdod, cafwyd rhywfaint o gynnydd yn y maes hwn y ceir manylion amdano yn nes ymlaen yn y ddogfen.

Mae gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb (sy'n cynnwys aelodau etholedig) wedi cynnwys ymweliadau â meysydd gwasanaeth sy'n wynebu cwsmeriaid i arsylwi ar arferion gweithio ac i weld sut y bodlonir gofynion ehangach yr Iaith Gymraeg a chydraddoldeb. Yn dilyn yr ymweliadau hyn, cafwyd cyflwyniadau a sesiynau Cwestiwn ac Ateb gydag adrannau.

Mae'r aelod Hyrwyddwr etholedig dros Iaith (gan gynnwys yr Iaith Gymraeg) wedi adolygu a chyflwyno sylwadau ar nifer o fentrau arfaethedig y cyngor a'u heffeithiau posib ar ddefnyddio neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Mae data o'r arolwg staff a gynhaliwyd yn y cyfnod adrodd blaenorol bellach wedi'i lwytho ar system AD yr awdurdod. Ceir dadansoddiad o'r data yn atodiad 4. Bydd y data yn helpu i nodi meysydd gwasanaeth a thimau lle y mae'n bosib y bydd angen ymarfer i wella'r ddarpariaeth Gymraeg.

Cynhaliwyd cynllun peilot sef "Cwrs Gloywi" gyda 9 aelod o staff o Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn eu plith roedd cymysgedd o ddysgwyr Cymraeg ac

eraill nad oeddent wedi defnyddio'u sgiliau iaith Cymraeg ers blynyddoedd. Roedd y gwerthusiad cyffredinol gan y cyfranogwyr yn ffafriol iawn, a byddwn yn ceisio ehangu'r cynnig hwn i feysydd eraill yn ogystal ag archwilio dulliau o feithrin ac annog y defnydd o'r Gymraeg ym mywyd pob dydd yr awdurdod. Mae gwaith yn parhau ar y cwrs Cwrdd a Chyfarch sylfaenol.

## 4. Addysg Gymraeg

Ymdrinnir â hyn yn benodol yng Nghynllun Addysg Gymraeg y cyngor, ond dylid nodi bod y galw am addysg Gymraeg yn parhau i dyfu ar draws y ddinas. Mae 11 ysgol Gymraeg bellach sy'n bwydo dwy ysgol uwchradd - Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe.

Mae Menter Iaith Abertawe wedi parhau i gyflwyno rhai agweddau ar weithgareddau cymdeithasol a hamdden yn y Gymraeg sy'n cefnogi gwaith mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg (ac yn y gymuned ehangach) drwy bartneriaeth a chytundeb lefel gwasanaeth gyda Dinas a Sir Abertawe.

## 5. Gwedd Gyhoeddus y Cyngor

Yn ei holl ymwneud â'r cyhoedd, cyfeirir at y cyngor drwy ei deitl dwyieithog llawn - **Dinas a Sir Abertawe - City and County of Swansea** - a gwelir hyn ar holl eiddo, gwisg, cerbydau'r cyngor, etc.

Bydd yr holl arwyddion y mae'r cyhoedd yn eu gweld sy'n cael eu gosod, eu newid neu eu hadnewyddu yn ddwyieithog. Defnyddir yr egwyddor hon hefyd yng nghydestun arwyddion mewn mannau eraill - gan ddarparu set o ddyluniadau safonol i'w defnyddio mewn ardaloedd cyhoeddus a'r rhai nad ydynt yn gyhoeddus.

Anfonir gwybodaeth at unigolion (neu sefydliadau) yn ddwyieithog ac eithrio pan fo'u dewis iaith yn hysbys. Ceir manylion nifer bach o eithriadau eraill yn y Cynllun. Caiff cynhyrchu unrhyw eitemau y tu allan i'r canllawiau hyn eu trafod a'u cyfiawnhau drwy ymgynghori â Swyddog yr Iaith Gymraeg cyn eu cynhyrchu neu unrhyw weithredu.

Er bod rhannau o'n Fframwaith Sgiliau Ieithyddol, fel y nodwyd yn flaenorol, yn weithredol, rydym yn disgwyl y cynigion terfynol ar gyfer Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, cyn cadarnhau darpariaethau'r fframwaith a symud ymlaen at eu mabwysiadu'n ffurfiol.

Diffinnir bod cyfarchiad dwyieithog o fewn Safon Gwasanaeth Cwsmeriaid y cyngor yn arferol ar gyfer galwadau ffôn/testun ac wrth groesawu ymwelwyr.

Mae gwasanaethau Cymraeg ar gael ar draws holl feysydd yr awdurdod. Caiff staff sy'n siarad Cymraeg, hyd yn oed os nad ydynt mewn swyddi rheng flaen, eu hannog i wisgo bathodynau a llinynnau gwddf *Iaith Gwaith*.

Os nad oes siaradwr Cymraeg rheng flaen ar gael yn syth, mae gan bob maes gwasanaeth ei strategaeth ei hun i drin ceisiadau am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn olaf, mae opsiwn arall ar gael i holl staff yr awdurdod drwy ein haelodaeth o bartneriaeth Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS) - sy'n rhoi mynediad ar unwaith i ddehongliad dros y ffôn.

## 6. Cydymffurfio â Chynllun y Gymraeg

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg Dinas a Sir Abertawe gan yr awdurdod ar 3 Chwefror 2011, a'i gadarnhau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2011. Er mai tan 2014 yr oedd y cynllun i weithredu yn y lle cyntaf, bellach, bydd yn parhau nes bod y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol.

### a). Adroddiad ar y Cynllun Gweithredu

Ceir fersiwn wedi'i diweddarau o Gynllun Gweithredu'r Cynllun yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn ac mae'n cynnwys statws pob pwynt gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad. Lle bo'n briodol, ychwanegwyd camau gweithredu penodol neu eu diwygio i adlewyrchu newidiadau a ddeilliodd o bwysau neu ddylanwadau allanol neu eraill ac a gytunwyd gyda'r adrannau perthnasol hynny.

Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys pwyntiau y cytunwyd arnynt yn yr awdurdod sy'n cydymffurfio â gweithrediad y cynllun ac yn ei ehangu. Ceir cynnydd o hyd er mwyn cyflawni canlyniadau'r cynllun gweithredu.

Er bod unrhyw enghraifft o fetu â chydymffurfio â'n cynllun yn destun gofid, mae cwynion yn gallu rhoi cyfle i ni ystyried ac egluro gweithdrefnau hyd yn oed os na chadarnheir y cwynion hynny.

Mae Menter Iaith Abertawe'n gweithredu fel cyfaill beirniadol wrth fwrw golwg dros ddarpariaeth iaith Gymraeg yr awdurdod. Mae'r Fenter hefyd yn gweithredu fel pwynt cyswllt â nifer o grwpiau yn y gymuned Gymraeg ei hiaith. Mae'r gefnogaeth a roddir i Fenter Iaith Abertawe drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth yn cynnwys ei gwaith yn cefnogi cyflwyno gwasanaethau penodol mewn rhai meysydd e.e. hamdden a gwasanaethau llyfrgell. Mae atodiad 3 yn amlinellu'r meysydd gwaith allweddol a gyflawnir gan Fenter Iaith Abertawe gyda Dinas a Sir Abertawe

## 7. Gwasanaethau Rheng Flaen

### a). Derbynfeydd/Canolfannau Cyswllt

**- data a gwybodaeth o ran sgiliau iaith a'r ddarpariaeth mewn derbynfeydd a chanolfannau cyswllt**

***Dangosydd Perfformiad 2 Iaith Gymraeg:*** *Gwasanaeth wyneb yn wyneb - Nifer a chanran y swyddi yn y brif dderbynfya, y ganolfan gyswllt neu'r siop dan yr unto sydd wedi'u dynodi yn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a'r ganran a lenwir gan bobl ddwyieithog.*

Mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn y manau cyswllt yn rhan annatod o ddarparu gwasanaeth da a chroesewir sgiliau'r Gymraeg fel sgil defnyddiol mewn unrhyw swydd yn yr awdurdod ac mae'n ddymunol yn achos y rhai sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

Y Ganolfan Gyswllt yw prif bwynt cyswllt y cyngor ac mae'n ymdrin â hyd at 80% o ymholiadau cwsmeriaid ar y cyswllt cyntaf. Cyflogir 14 yn y Ganolfan gydag un yn siarad Cymraeg. Mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn yr is-adran budd-daliadau ar gael i gefnogi hyn yn ôl y galw.

Mae'r manau cyswllt neu dderbynfeydd eraill yn y cyngor yn cynnwys:

- Canolfan Alwadau'r Amgylchedd
- Tîm Derbyn y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Swyddfeydd tai lleol
- Prif switsfwrdd y cyngor

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu mesur gwrthrychol i'w ddefnyddio wrth recriwtio i nodi prinder sgiliau'r Gymraeg mewn timau. Mewn achosion o'r fath, byddai gofyn am sgiliau'r Gymraeg er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ystyried fel 'dull cymesur o gyflawni nod cyfiawn'.

Mae'r egwyddor "sgiliau tîm" hon o'n Fframwaith Sgiliau Ieithyddol yn golygu y bydd recriwtio yn targedu'r rhai sy'n meddu ar y sgiliau Cymraeg perthnasol os yw'r lefel bresennol o siaradwyr Cymraeg mewn tîm yn annigonol i gyflwyno gwasanaeth drwy'r Gymraeg. Nes i hynny gael ei weithredu'n llawn, mae trefniadau ar waith i ystyried yr egwyddor hon pan ddaw swydd reng flaen yn wag - yn fewnol yn y lle cyntaf ac yna, os na cheir ymgeisydd addas, yn allanol.

Fel rhan o'r ymagwedd hon, gwnaed gwaith i asesu'r gofynion yn y meysydd canlynol:

i). Canolfan Alwadau'r Amgylchedd:

Cynhaliwyd asesiad o sgiliau ac anghenion iaith a oedd wedi arwain, yn unol â'r Fframwaith Sgiliau Ieithyddol, at recriwtio siaradwr Cymraeg.

ii). Tîm Derbyn y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau i Oedolion):

Fel rhan o'r gwaith i roi Mwy na Geiriau ar waith cynhaliwyd archwiliad amlinellol o sgiliau ieithyddol gyda'r tîm:

- Mae gan un aelod o staff rai sgiliau Cymraeg ac mae wedi cytuno i ymgymryd â mwy o hyfforddiant
- Nodwyd bod hyfforddiant sgiliau mewn derbynfeydd i staff yn angen
- Caiff anghenion iaith eu hystyried wrth recriwtio yn y dyfodol

Gan fod lefelau isel o recriwtio'n cyfyngu ar effeithiolrwydd yr ymagwedd hon (er, fel y nodwyd uchod, y cafwyd peth llwyddiant wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg), mae cwrs i wella sgiliau iaith Gymraeg a hyder staff mewn derbynfeydd yn cael ei ddatblygu.

Mae staff yr awdurdod sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig swyddi sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd, yn cael bathodynau a llinynnau gwddf adnabod iaith Gwaith, gyda phosteri a hysbysiadau desg yn cael eu darparu mewn derbynfeydd. Er enghraifft, yn yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth, darperir bathodynau iaith Gwaith a dalwyr ID i siaradwyr Cymraeg mewn derbynfeydd. Mae poster i hysbysiadau desg sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg hefyd yn cael eu harddangos.

Ar hyn o bryd, mae gan bob adran ei strategaeth ei hun i ddiwallu anghenion cwsmeriaid os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith drwy ymateb graddedig yn seiliedig ar argaeledd. Ategir y strategaethau hyn drwy argaeledd cyfieithiad ffôn ar unwaith drwy Wasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS)/thebigword pan na all prosesau mewnol ymateb yn ddigonol.

## **b). Gwasanaethau Eraill**

Er nad oes system integredig unigol ar gael i bob maes gwasanaeth sy'n manylu iaith ddewisol defnyddiwr gwasanaeth, bydd y mwyafrif helaeth o gwsmeriaid yn cysylltu

am y tro cyntaf â'r awdurdod drwy'r Ganolfan Gyswllt. Mewn achosion o'r fath, cofnodir yr iaith ddewisol a'i throsglwyddo i'r maes gwasanaeth perthnasol i ymdrin â'r mater.

Mae gan feysydd gwasanaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd ddulliau unigol o gofnodi dewis iaith er mwyn sicrhau parhad wrth ddarparu gwasanaethau. Mae dewis iaith yn cael ei gynnwys pan mae gwybodaeth am gwsmeriaid yn cael ei throsglwyddo rhwng adrannau.

Yn y gwasanaethau hynny lle cynhelir cyfweiliad neu asesiad cychwynnol gyda defnyddwyr, mae dewis iaith yn rhan annatod o'r broses ac fe'i hystyrir yn ystod holl gyfnod y gwasanaeth a ddarperir.

## 8. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

Y prif bwynt cyswllt yn y cyngor am faterion sy'n ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg yw Swyddog Iaith Gymraeg dynodedig yr awdurdod ([cymraeg@abertawe.gov.uk](mailto:cymraeg@abertawe.gov.uk)) sy'n rhan o'r tîm Mynediad i Wasanaethau.

Mae cylch gwaith y tîm hefyd yn cynnwys cyngori staff ar faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ehangach, Ymgynghori a Chynnwys, y Strategaeth Pobl Hŷn ac agwedd ar gynhwysiad digidol. Yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw, roedd y tîm hefyd yn goruchwyllo agweddau ar y berthynas â'r trydydd sector - ac felly'n darparu cyd-destun ehangach i'r iaith Gymraeg yng ngwaith yr awdurdod.

Bydd y tîm yn parhau i ymwneud yn agos â'r agweddau arall hyn ar waith yr awdurdod yn y dyfodol, ynghyd ag eraill megis gwrthdodi a chydlyniant cymunedol. Bydd hyn, ynghyd â'r bwriad i gynnwys y tîm yn y Gwasanaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid, yn hwyluso eto'r broses o brif ffrydio gofynion yr iaith Gymraeg yn ddyfnach mewn rhannau eraill o waith y cyngor.

Er bod unrhyw gwestiwn neu ymholiad ynglŷn â gweithrediad y cynllun yn cael ei gyfeirio yma, mae'r swyddog a'r tîm yn ymwneud â darparu cyngor ac arweiniad a lledaenu gwybodaeth am y materion hyn ar draws y Cyngor cyfan.

### a). Contractau/Caffael

**- adroddiad ar y gofynion o ran y Gymraeg mewn contractau ac esboniad o unrhyw drefniadau i adolygu neu gryfhau'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg**

***Dangosydd Perfformiad 1 Iaith Gymraeg:*** Gwasanaethau ar gontract - canran y sampl o gontractau a fonitryd sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith

Fel y nodwyd y llynedd, mae'r geiriad safonol mewn contractau cyflwyno gwasanaethau gyda'r gofyniad dealedig bod contractwyr yn dilyn ein Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i ddisodli gan y canlynol:

### **Cymraeg**

- 1) *Rhaid i'r gwasanaethau a'r hyfforddiant gael eu cyflwyno yn Gymraeg neu'n Saesneg yn ôl gofynion defnyddwyr gwasanaeth ar sail gyfartal. Bydd angen i ddarparwr y gwasanaeth ddangos y bydd y gwasanaeth yn cael ei weithredu mewn modd sy'n hwyluso ac yn hyrwyddo'r gallu hwn o'r dechrau i'r diwedd h.y. marchnata'r hyfforddiant, trafod trefniadau cadw lle, cydlynu cyflwyno'r gwasanaeth a darparu taflenni a deunydd darllen cysylltiedig.*

- 2) *Bydd darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio bob amser â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynllun Iaith Gymraeg y cyngor (ar gael ar wefan gyhoeddus y cyngor <http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=2059>) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, fel pe bai'n rhan o'r cyngor i'r graddau y mae'r cynllun a'r ddeddf yn ymwneud â darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd darparwr y gwasanaeth yn cyflwyno'r gwasanaethau (yn unol â'r fanyleb) drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg (neu ar sail gyfartal).*
- 3) *Bydd darparwr y gwasanaeth yn gyfrifol am hyrwyddo cyflwyno'r gwasanaethau yn Gymraeg neu'n Saesneg i ddefnyddiwr y gwasanaeth a bydd yn defnyddio'r holl gamau rhesymol i gyflawni hyn.*
- 4) *Bydd Darparwr y Gwasanaeth yn gyfrifol am fonitro*
  - *faint o bobl sy'n manteisio ar y gwasanaeth drwy'r Gymraeg a'r Saesneg*
  - *gan adrodd i'r Cyngor yn ôl yr hyn a gytunwyd drwy ddarparu'r wybodaeth ganlynol yn ysgrifenedig:*
- 5) *Nifer y defnyddwyr sy'n gofyn am y gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg*
  - *Canran y cynnydd/gostyngiad ers yr adroddiad blaenorol*
  - *Dyrannu staff i gyflwyno'r gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg*
  - *Unrhyw newidiadau i gyflwyno'r gwasanaeth a wnaed neu a ragfynegir gan ddarparwr y gwasanaeth o ganlyniad i'r uchod ac, os yw'n berthnasol, yr amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith.*
  - *Unrhyw gwynion am anawsterau a nodwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau neu staff darparwr y gwasanaeth wrth gyflwyno'r gwasanaethau drwy gydymffurfio â rhwymedigaethau'r iaith Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad ac unrhyw gyngor neu arweiniad sy'n ofynnol gan ddarparwr y gwasanaeth wrth gyflwyno gwasanaethau o'r math.*

Unwaith y bydd contract wedi'i lofnodi, nid oes gan y tîm caffael unrhyw gyfranogaeth arall. Cyfrifoldeb yr adran contractio fydd gweithrediad a monitro'r contract. Bydd angen cynnal trafodaethau i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ofynion y Cynllun wrth fonitro gweithrediad unrhyw contractau.

Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn nesaf - ond roedd cais cychwynnol gan Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol am wybodaeth ar nifer y staff a gyflogir sy'n siarad Cymraeg yn nodi bod gan 3 darparwr (a ymatebodd o 11 posib) 32 aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg. Gan fod swm yr wybodaeth a ddychwelwyd yn amrywio mewn manylder, ystyrir cyflawni mwy o waith ar safoni. Adroddwyd hefyd y gallai fod y nifer sy'n dweud eu bod yn "siarad Cymraeg" yn amcangyfrif rhy isel, gan y gallai rhai staff ddefnyddio peth Cymraeg sgysiol gyda defnyddwyr gwasanaeth, er nad oeddent wedi cofnodi bod ganddynt y sgiliau yma.

#### **b). Llywodraethu a Chraffu Mewnol**

**- tystiolaeth bod trefniadau llywodraethu a chraffu mewnol cadarn ar waith ar gyfer y cynllun iaith**

Ystyriwyd a chytunwyd ar y Cynllun Iaith Gymraeg gan Dîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) yr awdurdod a'r Cabinet a'i fabwysiadu gan y Cyngor cyn ei roi ar waith. Ystyrir adroddiadau blynyddol gan y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgor Cydraddoldeb a'r Cabinet.



Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb ym mis Mai 2012 dan y weinyddiaeth newydd. Mae'r pwyllgor sy'n cynnwys cynghorwyr, yn cwrdd bob mis, a chwblhaodd ei ail adolygiad ym mis Ebrill 2014. Mae rôl y pwyllgor yn cynnwys:

*Cefnogi'r cyngor i gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg o ran staff, aelodau etholedig, aelodau o'r cyhoedd, ymwelwyr ac eraill sy'n gysylltiedig â Dinas a Sir Abertawe.*

Roedd cyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2013 yn canolbwyntio ar ymweliadau a chyflwyniadau adrannol, er mwyn dysgu mwy am arferion cydraddoldeb 'ar lawr gwlad' o ran yr amcanion cydraddoldeb a bennwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r camau gweithredu adrannol o ran y Cynllun Iaith Gymraeg yn y meysydd canlynol:

- Diwylliant, Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth
- Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Gwasanaethau Cymdeithasol:
- Addysg:
- Adnoddau Dynol a Chyflwyno a Gwybodaeth
- Tlodi ac Atal.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2012-13 cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Ymwelodd y Cynghorydd Hyrwyddwr dros iaith (gan gynnwys y Gymraeg) ac aelod arall o'r pwyllgor â Menter Iaith Abertawe i gwrdd â staff a defnyddwyr a darparu adroddiad i'r pwyllgor.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael yma

<http://democracy.swansea.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=152&Year=0&LLL=-1>

Mae unrhyw fentrau newydd neu ddiwygiedig yn yr awdurdod - boed yn adrannol neu'n ehangach - yn destun proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys yr effaith bosibl ar y Gymraeg a/neu ddefnyddwyr yr iaith. Mae fersiwn ddiweddaraf y broses AEC yn amlygu agweddau'r Gymraeg ar fenter, gan ysgogi gweithredu i gynyddu manteision i'r eithaf a lleihau effeithiau andwyol (gweler Adran 10a ac Atodiad 5)

### **c). Trefniadau Adrannau**

**– gwybodaeth am i ba raddau y mae cynlluniau busnes adrannau yn cysylltu â'r cynllun iaith ac yn cynnwys cyfeiriadau a thargedau perthnasol**

Roedd datblygu'r Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol wedi cynnwys holl adrannau'r awdurdod. Yn benodol, datblygwyd y Cynllun Gweithredu gan yr adrannau perthnasol gyda phob un ohonynt yn cytuno ei fod yn fuddiol ac yn gyraeddadwy.

Mae camau gweithredu unigol y cynllun wedi'u cynnwys fel rhan annatod o gynlluniau busnes adrannau ac felly, adroddir arnynt bob blwyddyn. Cofnodir unrhyw newidiadau, diwygiadau neu ddiweddariadau ac addasir y cynlluniau busnes fel y bo'n briodol.

Mae rhoi Mwy na Geiriau ar waith, (sef Fframwaith Strategol Gwasanaethau Iaith Gymraeg ar gyfer Iechyd, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol) yn cael ei ddatblygu yn adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod.

Mae Grŵp Llywio wedi'i sefydlu i gyfeirio rhoi'r fframwaith ar waith a datblygu cynllun gweithredu lleol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar yr elfennau ymarferol o ddarparu "Cynnig Gweithredol" o wasanaeth Gymraeg ar ddechrau unrhyw gysylltiad â



defnyddiwr gwasanaeth a pharhau i ddefnyddio'r Gymraeg ble bynnag y bo'n bosibl yn yr achosion hynny. Mae canlyniadau blwyddyn gyntaf y gweithredu ar gael yn Atodiad 4, ac mae adroddiadau cynnydd wedi'u gwneud i Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth.

Yn ogystal ag atgoffa adrannau ynghylch gweithredu'r cynllun presennol, rydym wedi arfarnu meysydd gwasanaeth yr amserlen ac effeithiau tebygol y safonau arfaethedig ar arferion gweithio, gyda thudalen Mewnwyd yn cael ei chynnal sy'n cynnwys manylion. Lle y bo'n briodol, maent hefyd wedi cael eu hannog i fabwysiadu'n gynnar y safonau tebygol mewn prosiectau cyfredol.

#### **d). Cwynion**

##### **- crynodeb o'r cwynion dilys a dderbyniwyd a'r gweithredu**

***Dangosydd Perfformiad 6 Iaith Gymraeg:*** *Safon Gwasanaethau - Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithredu'r cynllun iaith a chanran y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y sefydliad*

#### **i). Cwynion Corfforaethol**

Mae'r ffigurau yn yr adran hon yn cynnwys cwynion cychwynnol (lefel 1) a dderbyniwyd gan y Tîm Cwynion Corfforaethol ac a drosglwyddwyd i'r adrannau perthnasol; yn ogystal â chwynion lefel uwch a ddychwelwyd at y tîm am fod yr ymateb cyntaf yn anfoddhaol.

Mae gweithdrefn Cwynion Corfforaethol newydd yn cael ei chyflwyno o fis Ebrill 2013 a fydd yn cofnodi'r holl gwynion lefel 1 ac uwch yn ganolog, gan roi darlun manylach i ni o broblemau gwasanaeth ar draws yr awdurdod.

##### *Tîm Cwynion Corfforaethol*

Yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2013 tan fis Mawrth 2014, cofnododd y Tîm Cwynion Corfforaethol gyfanswm o bum cwyn yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg (o'r 655 a dderbyniwyd yn gyfan gwbl).

Mae hyn yn cymharu â 6 ac 7 a dderbyniwyd yn y cyfnod adrodd diwethaf a blaenorol.

O'r pum cwyn, canfuwyd nad oedd cyfiawnhad dros un ohonynt.

Roedd un o'r lleill yn ymwneud â gwedudalen nad oedd wedi'i dangos yn Gymraeg - roedd yn aros i gael ei chyfieithu a chafodd ei chywiro yn ystod y dydd.

Roedd trydydd yn ymwneud â menter newydd lle nad oedd y tîm a oedd yn rhan ohoni wedi caniatáu digon o amser i gyhoeddu'rwydd am ddigwyddiad gael ei gyfieithu. O ganlyniad, mae'r adran dan sylw wedi cael ei hatgoffa o'i goblygiadau yn y maes hwn, ac mae perfformiad yn cael ei fonitro.

Roedd y ddwy arall yn ymwneud â gwall mewn rhan Gymraeg o boster - hysbyswyd yr adran dan sylw ynghylch agwedd prawf ddarllen gwaith yr Uned Gyfieithu, ac maent yn bwriadu defnyddio'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

#### **ii). Adroddiadau am Achosion o Gasineb ac Aflonyddu 2013-2014**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, rhoddwyd gwybod i'r cyngor am 8 o achosion o gasineb ac aflonyddu. Nid oedd unrhyw un o'r rhain yn nodi eu bod wedi'u hysgogi gan yr iaith Gymraeg

#### **e). Cynnwys y Gymraeg ar y wefan**

## **- tystiolaeth o drefniadau i sicrhau safon y cynnwys Cymraeg ar y wefan gorfforaethol a chynlluniau i gynyddu a gwella'r cynnwys yn y Gymraeg**

Mae staff pob adran yn cynnal cynnwys y wefan fel golygyddion y we - fel arfer yn ychwanegol at eu dyletswyddau arferol. Mae'r grŵp lled fach hwn yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion o ddiddordeb cyffredin. Mae lledaenu arfer da a thrafod a datrys problemau sy'n codi o ran darparu cynnwys yn y Gymraeg yn codi'n aml.

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a ychwanegir at wefan gyhoeddus yr awdurdod yn ddwyieithog. Nid yw hyn yn bosibl ar gyfer rhai mathau penodol o ddata, ac mewn achosion o'r fath, datblygwyd cyfres o hysbysiadau i esbonio hynny. Mae'r rhain, ynghyd â chyfieithiadau safonol, ar gael ar ein mewnwyd.

Oherwydd strwythur ein gwefan, nid yw'n bosibl cael ffigurau ar wahân sy'n nodi'r ymweliadau â fersiynau Cymraeg a Saesneg y tudalennau.

Caiff fersiwn newydd o wefan y cyngor ei chyflwyno'n fuan. Bydd gwybodaeth nad yw'n berthnasol mwyach yn cael ei thynnu o'r wefan. Caiff tudalennau presennol heb gyfieithiad Cymraeg eu cyfieithu - gyda'r tudalennau mwyaf poblogaidd neu ddefnyddiol yn cael eu blaenoriaethu i'w cyfieithu'n gyntaf. Dylai'r broses fod wedi'i chwblhau erbyn yr hydref 2014, a dylai'r holl dudalennau cyffredin fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Achubwyd ar y cyfle i ystyried rhai o'r safonau gwe arfaethedig mwyaf tebygol a chaniatáu darpariaeth ar gyfer eu rhoi ar waith. Wrth ddiweddarau tudalennau megis ffurflenni a holiaduron, gwneir pob ymdrech i symleiddio'r cwestiynau a darparu un fersiwn ddwyieithog os yw'n bosibl.

Bydd y system rheoli cynnwys newydd yn unioni un broblem hirsefydlog - yr anallu i ddangos rhai o farciau deiacritig y Gymraeg (yn benodol *ŵ*, *Ŵ*, *ŷ* ac *Ŷ*). Dylai unrhyw dudalennau newydd lle ceir y rhain ymddangos yn gywir - er lle mae hen gynnwys (gwallus) tudalennau wedi'i drosglwyddo i'r system newydd, efallai bydd y broblem yn parhau yn y tymor byr nes bod yr holl enghreifftiau'n cael eu cywiro.

Mae pob is-adran yn cael cyfarwyddyd i ddefnyddio Uned Gyfieithu'r awdurdod ym mhob achos ac eithrio mân ddiwygiadau syml y gellir eu cyflawni'n ddiogel.

## **9. Sgiliau Iaith Gymraeg**

### **a). Sgiliau Staff**

#### **- gwell gwybodaeth am sgiliau Cymraeg y gweithlu ac adroddiad ar y data**

***Dangosydd Perfformiad 5 Iaith Gymraeg:*** Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - Nifer a chanran y staff yng ngwasanaeth y sefydliad sy'n gallu siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgolion, os yw'n berthnasol)

*i) fesul adran*

*ii) yn ôl graddfa swydd*

*iii) yn ôl gweithle (swyddfa, canolfan a phrif swyddfeydd ardal)*

Mae'r data sylfaen o'r proffil staff a gynhaliwyd yn y cyfnod adrodd diwethaf wedi cael ei lwytho i'r brif system AD. Cyflawnwyd peth dadansoddi cyffredinol ac mae ar gael yn Atodiad 6 yr adroddiad hwn. Mae'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd (tua 20% o'r gweithlu) yn nodi bod:

- siaradwyr Cymraeg ym mhob Cyfarwyddiaeth a maes Pennaeth Gwasanaeth
- mae gan 57 o 242 lleoliad o leiaf un siaradwr Cymraeg.

Caiff mwy o waith ei wneud yn awr i nodi unrhyw ddiffyg mewn lleoliadau lle ceir cysylltiad â'r cyhoedd.

Gan fod aelodau staff bellach yn gallu diweddarau eu manylion eu hunain mewn amser go iawn, bwriedir cynnal ymarfer i wella'r data a gynhwysir, â'r nod o ddiffinio'n well y meysydd lle gall yr awdurdod gynnig darpariaeth Gymraeg ar hyn o bryd, a nodi'r meysydd hynny lle gall fod angen gweithredu i wella hyn.

Mae rhai adrannau o'r awdurdod yn cynnal eu cofrestrau eu hunain o siaradwyr Cymraeg a/neu'n cyfrannu at restr gorfforaethol, gyda'r holl restrau ar gael ar dudalennau Cymraeg mewnwyd y cyngor. Ym mhob achos, mae ymddangos ar y rhestr yn wirfoddol ac yn dibynnu ar hyder a lefelau sgiliau'r unigolion. Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng cofnodi sgiliau Cymraeg (yn dilyn arolwg staff neu fel arall) ac ymddangos ar y gofrestr o siaradwyr Cymraeg.

Mae pedair adran yn cadw eu rhestrau eu hunain o staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd: Tai ac Adfywio Cymunedau (gyda 19 o staff), Gwasanaethau Cyfreithiol (3), Gwasanaethau Cymdeithasol (76) ac Addysg (21). Mae'r ffigur Addysg yn hepgor staff yr Uned Gyfieithu a'r Ganolfan Gymraeg. Mae'r rhestr gorfforaethol yn cynnwys 42 o staff ar draws adrannau eraill - gan roi cyfanswm o 161.

## **b). Hyfforddiant yn y Gymraeg**

**- tystiolaeth o fuddsoddi mewn hyfforddiant yn y Gymraeg ac esboniad o gamau eraill i wella sgiliau'r gweithlu yn ystod cyfnod o gyfyngu ar recriwtio allanol.**

***Dangosydd Perfformiad 3 Iaith Gymraeg: Adnoddau Dynol a Sgiliau (1) - Nifer a chanran y staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi cael hyfforddiant yn y Gymraeg i safon cymhwysedd benodol.***

Mae dadansoddiad cychwynnol o'r arolwg staff yn dangos bod gan nifer o'r staff sgiliau siarad Cymraeg ond diffyg hyder i'w defnyddio yn y gwaith ac y gallent elwa o sesiynau ymarfer llai strwythuredig yn hytrach na chysiau mwy ffurfiol i ddatblygu eu sgiliau. Roedd gwaith gyda mannau cyswllt neu dderbynfeydd (fel y nodwyd yn Adran 7) wedi amlygu'r angen am gwrs hyfforddiant sgiliau derbynfa wedi'i deilwra.

Fodd bynnag, nid yw'r gwaith ar y cwrs ar gyfer staff derbynfeydd a'r ganolfan gyswllt wedi datblygu yn ôl y disgwyl yn sgîl cyfyngiadau o ran staff. Efallai bydd gwaith cyfredol ar y ddarpariaeth cyswllt cwsmeriaid ar draws yr awdurdod yn rhoi gwell cyfle i ddatblygu'r maes gwaith hwn.

Daeth 9 aelod o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r "Cwrs Graenus" undydd. Cafwyd amrywiaeth eang o brofiad yn eu plith, o gyn-fyfyrwyr addysg Gymraeg i gyrsiau sgwrsio cyfyngedig, ond roedd y cwrs yn llwyddiant am ei fod wedi rhoi cyfle iddynt fagu hyder i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg 'gweithio' mewn amgylchedd risg isel.

Roedd yr arolwg staff yn dangos bod 142 o'r staff a atebodd yn dysgu Cymraeg y tu allan i'r awdurdod. Bydd angen ystyried pa fesurau fydd yn bosib i gefnogi'r aelodau o staff hyn, e.e., yn ystod y flwyddyn nesaf, rhoddir ystyriaeth i drefnu *siop siarad* amser cinio.

Roedd yr arolwg staff yn nodi angen am hyrwyddo a gwella mentrau presennol rhai o'r atebion hyn yn awgrymu'r angen am hyrwyddo a gwella'r mentrau cyfredol - e.e. y Canllawiau Cyflym i Staff a chyfieithiadau sy'n deillio o'r cyngor. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'n Huned Gyfieithu ar y ffordd ymlaen fwyaf effeithiol, o ystyried y problemau y soniwyd amdanynt yn ystod yr ymchwiliad a'r adroddiad i'r safonau arfaethedig.

Fel rhan o roi Mwy na Geiriau (MnaG) ar waith, cyflawnwyd y canlynol:

- mae'r Cynnig Gweithredol bellach wedi'i gynnwys yn rhaglen sefydlu'r gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys cyfeirio i astudiaethau achos MnaG.
- roedd cyfres o erthyglau mewn cylchlythyr staff wedi darparu gwybodaeth ac arweiniad am faterion iaith Gymraeg, gan gynnwys y fframwaith Mwy na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol.

Cynllunnir gwaith ar ddiweddarau'r cwrs e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg corfforaethol a'i deilwra i ddiwallu anghenion y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n defnyddio astudiaethau achos ar-lein.

### **c). Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith**

#### **- tystiolaeth o welliant wrth ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith**

**Dangosydd Perfformiad 4 Iaith Gymraeg** : *Adnoddau Dynol a Sgiliau (2) - Nifer a chanran y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.*

Cynhyrchwyd cwrs Ymwybyddiaeth Iaith ar-lein yn fewnol ac mae ar gael drwy Gronfa Ddysgu/is-wefan Abertawe yr awdurdod. Gall unrhyw aelod o staff sy'n gallu cyrchu'r mewnwyd gofrestru i ddilyn y cwrs, sydd hefyd ar gael yn fwy cyffredinol fel 'gwestai' ar y system.

Mae'r cwrs, a hyrwyddwyd yn wreiddiol yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol, bellach ar gael i staff yn yr holl adrannau ond yn enwedig i'r rhai mewn swyddi rheng flaen.

Mae'r cwrs e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cynnwys rhai canllawiau sillafu ac ynganu sylfaenol yn ogystal â throsolwg o'r Gymraeg dros amser. Fe'i lledaenwyd ymhellach a'i fabwysiadu gan gyrff a sefydliadau sydd wedi dod o hyd i'w lefel a chynnwys sy'n addas ar gyfer hyfforddiant cyffredinol i staff.

Mae 24 aelod o staff wedi cofrestru ar y system ac wedi dilyn y cwrs. Serch hynny, nid yw cofrestru'n orfodol ac nid ydym yn gwybod faint sydd wedi dilyn y cwrs fel "gwesteion".

Cyflwynir gwybodaeth am ein Cynllun Iaith Gymraeg i'r holl ddechreuwy'r newydd fel rhan o'u cwrs sefydlu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, wedi'i ategu gan wybodaeth am Fesur y Gymraeg a chyflwyniad y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg sydd ar ddigwydd.

Ymgynghorwyd hefyd â'r holl adrannau ar y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg drafft cyn llunio ymateb yr awdurdod i'r ymgynghoriad.

## **10. Prif ffrydio'r Iaith Gymraeg**

### **a). Effaith polisiâu**

**- gwybodaeth am y trefniadau i asesu effaith polisiâu ar y Gymraeg ac unrhyw gamau gweithredu i adolygu trefniadau er mwyn sicrhau y cynhelir asesiadau priodol.**

Mae'r ymagwedd integredig sydd gan yr awdurdod a'r angen am sgiliau iaith Gymraeg sy'n agwedd ganolog o bolisi cydraddoldeb ac arfer wedi golygu bod hyn wedi'i

wreiddio'n ddyfnach yng ngwaith yr awdurdod na phe bai'n cael ei ystyried fel problem ar ei phen ei hun.

Mae bod yn rhan o broses Asesiadau Effaith Cydraddoldeb y cyngor yn golygu y dylid ystyried materion y Gymraeg a, ble bynnag y bo'n briodol, eu cynnwys yn gynnar mewn unrhyw fenter (prosiect, gweithdrefn, cynnig, strategaeth, etc.). Mae newidiadau i weithdrefnau ynglŷn â chychwyn prosiectau a'u caniatáu wedi golygu bod adroddiadau AEC yn gwbl hanfodol i'r broses. Mae'r Tîm Mynediad i Wasanaethau yn archwilio pob AEC cyn cytuno ac felly mae'r iaith Gymraeg a chydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn rhan annatod o hwn.

Yn ystod y flwyddyn mae'r broses AEC wedi'i hadolygu a'i diweddarau i gynnwys cwestiwn ychwanegol am y Gymraeg yn Adran 4 yr adroddiad (Atodiad 5), gyda'r arweiniad cysylltiedig bellach yn cynnwys y canlynol:

*Ystyried unrhyw effeithiau y gallai'r fenter eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg. Yn benodol, y nod yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod pobl yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall. I gyflawni'n dyletswyddau cyfreithiol, mae angen i ni ganolbwyntio ar ddau brif faes:*

- *Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg*
- *Lleihau unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith.*

Bellach, mae gan adroddiadau i'r Cabinet a'r cyngor adran Goblygiadau Cydraddoldeb a Chynnwys ar gyfer nodi a oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb ai peidio, a sut mae'r broses Asesu Effaith Cydraddoldeb (AEC) wedi'i chymhwyso i destun yr adroddiad sy'n cynnwys y Gymraeg. Mae'r broses yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Tîm Mynediad i Wasanaethau sy'n helpu i sicrhau yr eir i'r afael yn briodol â materion cydraddoldeb (gan gynnwys yr iaith Gymraeg).

Mae lansio Safon Abertawe wedi atgyfnerthu'r neges o'r lefel gorfforaethol am bwysigrwydd gallu ymateb i anghenion iaith Gymraeg dinasyddion Abertawe. Mae hefyd wedi hyrwyddo mesurau ymarferol megis y cyfarchiad dwyieithog y dylid ei roi mewn mannau cyswllt a thros y ffôn, - dylai negeseuon "nid wyf yn y swyddfa" fod yn ddwyieithog, a dylai cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## **b). Enghreifftiau o brif ffrydio**

### **- gwybodaeth am unrhyw gamau i hyrwyddo'r defnydd ehangach o'r Gymraeg**

Roedd gwaith ar baratoi ymateb y cyngor i'r ymchwiliad safonau wedi cefnogi mwy o brif ffrydio a chynyddu ymwybyddiaeth. Roedd y broses fewnol yn cynnwys:

- Tudalen StaffNet sy'n cynnwys manylion proses yr Ymchwiliad i Safonau. Mae'n cynnwys y dogfennau perthnasol, dyddiadau pwysig a'r broses gynlluniedig, ynghyd â'r hyn rydym wedi'i gyflawni a pha effeithiau y mae'r safonau'n debygol o'u cael ar feysydd gweithredu amrywiol. Dosbarthwyd hyn i'r holl reolwyr yn yr awdurdod a'i amlygu drwy gyfathrebu corfforaethol.
- Lluniwyd nodyn briffio am y safonau arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Gweithredol, Penaethiaid Gwasanaethau, Uwch-reolwyr ac Arweinydd y Cyngor
- Fel rhan o'r Ymchwiliad i Safonau, dosbarthwyd y safonau arfaethedig i'r holl adrannau ar draws yr awdurdod i gael eu barn a'u sylwadau ar ymarferoldeb bob un. Ystyriwyd yr ymateb ar y cyd gan y Bwrdd Gweithredol a'r Aelod Cabinet cyn ei ddychwelyd i Gomisiynydd y Gymraeg.

- Achubwyd ar gyfleoedd yn ystod cysylltiadau mwy cyffredinol i gynnwys y safonau arfaethedig mewn trafodaethau - yn rhannol i achub ar y blaen ar faterion cydymffurfio ond hefyd i gyfarwyddo a meysydd eraill y gofynion.

Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg wedi mynychu cyfarfodydd Rhwydiaith (Rhwydwaith Swyddogion yr Iaith Gymraeg). Yn y rhain, y prif bwyntiau trafod oedd problemau ac atebion posib i sicrhau trosglwyddo llyfn o'r Cynllun Iaith Gymraeg i'r Safonau. Aethant hefyd i gyfarfodydd briffio gan Gomisiynydd y Gymraeg a'i staff, gan gynnwys cyfarfod unigol lle'r oedd y Swyddog a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y cyngor (sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg) yn bresennol. Mae'r wybodaeth yn y cyfarfodydd hyn wedi'i chynnwys mewn cyfarfodydd briffio a gwybodaeth arall wedi'i dosbarthu yn y cyngor.

Fel rhan o roi Mwy na Geiriau ar waith, lluniwyd erthyglau am y fframwaith strategol a'r Cynnig Gweithredol yng nghylchlythyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r erthyglau wedi cynnig eitemau i gynorthwyo staff sy'n siaradwyr Cymraeg i ddangos eu bod yn gwneud hynny e.e. trwy wisgo cortynnau gwddf a bathodynau.

Mae bod yn rhan o Fforwm Iaith Gymraeg Abertawe yn golygu bod gwybodaeth am ddatblygiadau yn y cyngor yn cyrraedd trawstoriad o'r gymuned Cymraeg ei hiaith ac yn caniatáu i'r cyngor ymateb i'w profiadau.

Mae Menter Iaith Abertawe, fel aelod o'r Fforwm ac yn annibynnol, yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i gynghori ar argaeledd a safon y ddarpariaeth yn y Gymraeg ac adrodd ar hynny. Mae'r gefnogaeth a roddir i Fenter Iaith Abertawe drwy CLG yn cynnwys ei gwaith yn hyrwyddo'r iaith e.e. drwy weithgareddau diwylliannol megis Tyrfe Tawe a thudalen Facebook i hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg yn Abertawe.

Mae grwpiau ar draws y cyngor megis Gweithgor Corfforaethol y Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Grŵp Cyfathrebu Corfforaethol yn darparu fforwm ar gyfer materion iaith Gymraeg, a hynny'n arwain at ymagwedd gyson a rhannu arfer da.

Mae meysydd gwasanaeth wedi datblygu eu cyhoeddusrwydd ymhellach o ran argaeledd gwasanaeth Cymraeg ac wedi hyrwyddo hyn ymhlith staff a defnyddwyr gwasanaethau.

Tynnir sylw at y gofyniad am adnoddau dwyieithog ar ddechrau'r broses ddylunio gan DesignPrint - darpariaeth ddylunio a chyhoeddi mewnol yr awdurdod. Mae gweithdrefnau mewnol yn cau ffynonellau allanol allan o ran deunyddiau print felly defnyddir y rheolaeth hon gyda'r holl eitemau hynny.

Mae cyfleuster prawf ddarllen yr Uned Gyfieithu'n cael ei ddefnyddio'n gynyddol yn ystod datblygu deunyddiau ac fel gwiriad terfynol cyn cynhyrchu. Mae'r ceisiadau am gyfieithiadau yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno gydag amserlen sy'n hwy ac yn haws ei rheoli a hynny'n galluogi'r Uned i gynllunio'r llwyth gwaith yn well.

Mae gwybodaeth ar adran Gymraeg mewnwyd y cyngor wedi'i datblygu ymhellach yn unol â cheisiadau ac awgrymiadau i wella'r adnoddau sy'n cefnogi rhoi'r cynllun ar waith. Dyma'r meysydd a gynhwysir:



Downloads

Handy Guide - Welsh Council Website [271kb]	Handy Guide - Welsh Telephone Services [283kb]
Handy Guide - Welsh Documents and Publications [292kb]	Handy Guide - Dates and Times [293kb]
Handy Guide - Welsh Standard Forms and Notices [275kb]	Handy Guide - Welsh Forms [278kb]
Handy Guide - Welsh Meeting Members of the Public [280kb]	Handy Guide - Welsh Electronic Information and Communication [269kb]
Handy Guide - Welsh and EIAs [272kb]	Council Welsh Reference Look-up [215kb]
Contracting Out Public Service Contracts - Welsh Language Issues [1.4Mb]	National Anthem [111kb]

### c). Gwybodaeth arall am brif ffrydio gweithgareddau

Yn ogystal â chynnal yr adolygiad a chefnogi meysydd gwasanaeth wrth roi'r cynllun ar waith, mae gwaith y Swyddog Polisiâu a Strategaethau (sy'n cynnwys rôl Swyddog yr Iaith Gymraeg) yn parhau i gynnwys:

- Annog a lledaenu arfer da yn yr awdurdod a'r tu allan iddo.
- Cwrdd yn rheolaidd â Swyddogion y Gymraeg o gyrff cyhoeddus eraill a chynrychiolwyr Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a chydgyssylltu â hwy.
- Yn Fforwm Iaith Gymraeg Abertawe, trafod mentrau ar y cyd gyda grwpiau lleol eraill sy'n cefnogi'r iaith.
- Cynghori ar ymatebion i sylwadau a chwynion gan aelodau o'r cyhoedd a chynorthwyo â hwy.
- Cefnogi datblygu arfer mewnol a chynghori ar hyn i sicrhau cydymffurfio â'r cynllun a datblygu'r safonau.
- Monitro ac arwain datblygiad arfer mewnol i sicrhau cydymffurfio â'r cynllun.

## 11. Dadansoddi Perfformiad

### a). nodi risgiau a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

i) roedd blaenoriaethau'r llynedd yn cynnwys:

- Gweithio gyda meysydd gwasanaethau i fodloni gofynion DPIG1 o ran monitro sampl o gontractau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cynllun  
*Peth gwaith cychwynnol wedi'i wneud yn y Gwasanaethau Cymdeithasol - bydd angen mwy o waith dilynol yn 2014-15.*
- Gweithio gyda derbynfeydd mewn meysydd gwasanaeth penodol i asesu anghenion o ran DPIG2  
*Gwnaed gwaith gyda rhai o'r meysydd gwasanaeth fel y nodwyd yn adran 7, a bydd angen mwy o waith dilynol yn 2014-15.*
- Cwblhau a chyhoeddi'r Fframwaith Sgiliau Ieithyddol ar ôl dadansoddi'r proffil staff ymhellach i gynnwys mesurau i fynd i'r afael â DPIG1 3 (hyfforddiant) a DPIG4 (hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith)  
*Cytunwyd mewn egwyddor ar feysydd y Fframwaith Sgiliau Ieithyddol arfaethedig sy'n cynnwys y broses ddynodi, a'u rhoi ar waith mewn achosion penodol. Caiff gweddill y fframwaith ei adolygu pan fydd y safonau'n hysbys. Bydd angen mwy o waith dilynol o ran rhoi'r broses ddynodi ar waith ymhellach ynghyd â hyfforddiant yn 2014-15.*
- Dadansoddi proffil y gweithlu a'r archwiliad sgiliau iaith ymhellach i fynd i'r afael â DPIG5 ar sgiliau'r iaith Gymraeg yn y gweithlu gan ddefnyddio'r data sydd ar gael i nodi diffygion posib mewn darpariaeth.

*Gwnaed gwaith fel y nodwyd yn Adran 9 ac Atodiad 6 - bydd angen mwy o waith dilynol yn 2014-15.*

- Cefnogi rhoi'r cynllun Mwy na Geiriau ar waith yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys Cynnig Actif fel model i'w ddefnyddio mewn meysydd gwasanaeth eraill o bosib.  
*Mae blwyddyn gyntaf rhoi'r cynllun ar waith wedi'i chefnogi - gweler Atodiad 4 am adroddiad y Cynllun Gweithredu - bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2014-15.*
- Rhoi adolygiad o'r iaith Gymraeg ar waith yn y broses AEC.  
*Mae'r broses AEC ddiwygiedig wedi'i threialu a'i chwblhau - gweler Atodiad 5.*
- Mwy o waith ar y cynllun gweithredu o ran canlyniadau a nodi meysydd arfer da  
*Bydd angen mwy o waith dilynol yn y maes hwn yn 2014-15.*
- Gwaith ar y safonau pan gânt eu cyhoeddi gan Weinidog Llywodraeth Cymru
- *Ymateb i'r Ymchwiliad i Safonau wedi'i gwblhau ac ar gyfer 2014-15, bydd angen gwneud gwaith i fodloni'r Safonau pan benderfynir arnynt.*
- Gwaith wedi'i amlinellu i fonitro ansawdd y gwasanaethau Gymraeg  
*Gweler c) isod.*

ii) mae'r blaenoriaethau ar gyfer eleni yn parhau fel y nodwyd uchod ac yn ogystal:

- gwella'r gefnogaeth i'r Gymraeg sydd ar gael ar Staffnet.
- Yr angen i ddatblygu pecyn o gefnogaeth ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg i gyflwyno gwasanaethau'n ddwyieithog.

iii) Risg a her allweddol yw lleihau adnoddau a'r cyfyngiadau ariannol a wynebier gan awdurdodau lleol nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.

## **b).Enghreifftiau o arfer da perthnasol**

Fel y nodwyd y llynedd, mae adrannau yn yr awdurdod yn gynyddol ymwybodol o'r angen i gynnwys agweddau'r iaith Gymraeg yn eu rhaglenni cyflwyno gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau am gyngor yn ymwneud â sut i fynd ati i wneud hyn yn y modd mwyaf priodol. Gan fod materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu trafod mewn fforymau cydraddoldeb ehangach, gall profiadau, problemau ac atebion blaengar gael eu rhannu ar draws y rhan fwyaf o'r cyngor.

Mae meysydd arfer da a datblygol mewn meysydd gwasanaeth yn cynnwys, er enghraifft

- Diwylliant a Thwristiaeth:
  - Partneriaeth gwasanaeth 5x60 â'r Urdd
  - Arddangosfa Fforwm Iaith Abertawe a gynhaliwyd yn y Llyfrgell Ganolog ym mis Mawrth
  - Dathlu canmlwyddiant Seren Gomer yn y Llyfrgell
  - Darpariaeth lyfrgell i blant ifanc a theuluoedd mewn partneriaeth â TWF a Menter Iaith Abertawe
- Tai a Diogelu'r Cyhoedd:
  - hyrwyddo digwyddiadau cyfnewid yn y Ganolfan Ddinesig gyda dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.
  - monitro ceisiadau am wasanaeth iaith Gymraeg wyneb yn wyneb a thros y ffôn bob chwarter
- Addysg:
  - Mae perfformiad yn y Gymraeg Ail Iaith yn gwella ar draws pob cyfnod allweddol



- Gwasanaethau Cymdeithasol:
  - rhoi blwyddyn gyntaf Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau ar waith

**c). tystiolaeth o'r ymdrechion i fonitro safon y gwasanaethau iaith Gymraeg a/neu arolygon defnyddwyr gwasanaethau.**

1. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb wedi trafod darpariaeth gyda sawl maes gwasanaeth (Cam Gweithredu 8b).

2. Fel rhan o'r gwaith ar Mwy na Geiriau:

- Caiff yr holiadur ar farn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ei ddatblygu i'w ddefnyddio yn ystod 2013/14 a'i wneud ar gael i staff rheng flaen ei ddefnyddio  
- cynhaliwyd cyfarfod cynnwys cychwynnol gyda grŵp o saith aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i gael eu barn am y gwasanaeth y mae dinasyddion sy'n siarad Cymraeg yn ei dderbyn, lefel y gefnogaeth a ddarperir i staff a'r rhwystrau i gyflwyno'r Cynnig Gweithredol. Gwneir gwaith i ystyried y materion a nodwyd gan staff gan gynnwys cyfarfod dilynol yn ystod ail flwyddyn rhoi'r cynllun ar waith.

3. Sefydlu fforwm mewn partneriaeth â Menter Iaith Abertawe ar gyfer siaradwyr Cymraeg gyda chyswllt â'r Aelod Hyrwyddo ac adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hwn yn dechrau bellach yn 2104-15.

## ATODIADAU

Atodiad 1 - Y Diweddaraaf ar y Cynllun Gweithredu	21
Atodiad 2 – Proffil yr Iaith Gymraeg	69
Atodiad 3 - Meysydd allweddol y gwaith a wnaed gan Fenter Iaith Abertawe	73
Atodiad 4 – Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau	74
Atodiad 5 – Y broses Asesu Effaith Cydraddoldeb ddiwygiedig	88
Atodiad 6 – Arolwg Staff – ystadegau am yr Iaith Gymraeg	90

## Atodiad 1 - Y Diweddaraaf am y Cynllun Gweithredu

A1.1. Cynllun Gweithredu - Egwyddorion Cyffredinol						
Egwyddorion sylfaenol y cynllun gweithredu hwn yw, tra bo'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn gyfredol:						
						Y DIWEDDARAF AR GYFER 2013-14
A1.1.1	Bydd darparu gwasanaethau Cymraeg ym mhob maes o waith yr awdurdod yn cael ei gynnal ar y lefelau presennol o leiaf.	Mae'r Tîm Mynediad i Wasanaethau'n darparu cyngor ac arweiniad ym mhob un o feysydd gwaith yr awdurdod. Mae'r weithdrefn Asesu Effaith Cydraddoldeb (sy'n archwilio mentrau i leihau effeithiau negyddol ar grwpiau) yn ymdrin yn benodol â defnyddio'r Gymraeg fel nodwedd ac felly'n amlygu hyn fel ystyriaeth ym mhob achos.	Mae lefel y gwasanaeth ar draws yr awdurdod wedi'i chynnal a'i gwella yn ystod y cyfnod hwn. Ystyrir lefelau staff sy'n siarad Cymraeg fel mater o arfer bellach wrth recriwtio staff rheng flaen. Mae'r broses Asesu Effaith Cydraddoldeb yn sicrhau yr ystyrir materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn ystod unrhyw ddatblygiadau sylweddol. Cyhoedduswyd o ran e.e. y safonau arfaethedig, yn sicrhau y rhoddir sylw i ofynion y Gymraeg.			
A1.1.2	Bydd y meysydd gweithredu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd yn hyrwyddo argaeledd y gwasanaethau Cymraeg.	Mae'r cynllun yn parhau i gael ei hyrwyddo ymhlith staff drwy'r Taflenni Gwybodaeth Tîm a'r mewnrwyd ac i gwsmeriaid drwy gylchgrawn Tŷ Agored. Caiff cynnydd ei fonitro drwy archwiliad blynyddol o dderbynfeydd.  Hyrwyddwyd yn y daflen Gwybodaeth Tîm ym mis Rhagfyr 2011. Cylchgrawn Tŷ Agored 2011 Rhifyn 2. Caiff cydymffurfio ei fonitro yn ystod	Mae'r pwyntiau blaenorol megis darparu bathodynau iaith Gwaith a chortynnau gwddf, dalwyr ID, posterï, arwyddion desg etc. yn parhau ar gael a chânt eu hyrwyddo'n fewnol yn rheolaidd. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae darparu Cynnig Gweithredol yn unol â fframwaith MnaG yn cael ei ddatblygu'n unol â'r cynllun gweithredu cyffredinol. Mae darparu gwybodaeth ar gyfer y Gymraeg (e.e. geirio safonol ar gyfer negeseuon, arwyddion) sydd ar gael drwy Staffnet hefyd yn			

		<p>yr archwiliad blynyddol o dderbynfeydd yng ngwanwyn 2012. Mae gan y timau canlynol bellach gyfeiriadau e-bost Cymraeg: Tîm Rhenti, Opsiynau Tai, Cyngor ar Dai, Tenantiaethau Wedi'u Dodrefnu, Uned Cefnogi Tenantiaid, Adfywio Trefol, Uned Adfywio Cymunedau, Cymunedau'n Gyntaf, Rheolwr y Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid a'r Swyddog Cyfranogiad.</p> <p>Mae'r rhestr o siaradwyr Cymraeg yn Llawlyfr Gwybodaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid, y Llyfryn Sefydlu a'r fewnwyd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Fe'i diweddarwyd diwethaf ym mis Rhagfyr 2011.</p>	<p>cael ei ddatblygu.</p> <p>Dylai'r holl wybodaeth a ddatblygir yn yr awdurdod i aelodau'r cyhoedd fod yn ddwyieithog - canran fach yn unig sy'n peidio â chyflawni'r targed hwn, y sonnir am rai ohonynt yn benodol yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.</p> <p>Polisi dwyieithog ar waith ar gyfer yr holl arwyddion newydd neu'r rhai i'w newid, boed ar gyfer manau cyhoeddus neu fewnol.</p>
A1.1.3	<p>Caiff gwaith partneriaeth ei ddefnyddio (yn fewnol neu'n allanol) ble bynnag y bo'n bosibl i godi proffil yr iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni.</p>	<p>Lluniwyd cytundebau â Menter Iaith Abertawe er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg mewn partneriaeth, yn arbennig mewn perthynas â'r gwasanaethau plant ac ieuencid.</p>	<p>Mae'r angen am bartneriaethau mewnol i fodloni ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei fodloni ar y cyfan.</p> <p>Croesawn yr alwad gan Gomisiynydd y Gymraeg am arweiniad pellach wrth roi partneriaethau amlasiantaeth ar waith a'u gweithredu. Lle bynnag y bo modd - ac yn enwedig wrth weithredu fel asiantaeth arweiniol - mae'r awdurdod yn amlygu'r angen i sicrhau ymateb cyson a chynhwysfawr i anghenion siaradwyr Cymraeg lle mae partneriaethau o'r fath wedi'u sefydlu a phan fo'u cylchoedd gorchwyl wedi'u llunio.</p> <p>Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Menter Iaith Abertawe wedi parhau ar gyfer 2012-13 i gynorthwyo'r awdurdod mewn agweddau</p>

			amrywiol ar ei ddarpariaeth Gymraeg, i weithredu fel cyfaill beirniadol a darparu cyswllt â rhannau o'r gymuned Gymraeg ei hiaith yn ystod ymarferion cynnwys ac ymgynghori, yn ogystal ag yn fwy ffurfiol.
A1.1.4	Bydd staff yn derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i egluro hanes ieithyddol a diwylliannol a statws presennol yr iaith Gymraeg yn ardal yr awdurdod.	Mae cwrs e-Ddysgu ar-lein Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i ddatblygu a'i dreialu. Mae mân ddiwygiadau wedi'u cynnwys yn dilyn adborth cychwynnol, ac mae'r cwrs hwn bellach ar gael i'w ryddhau'n ehangach a bydd ar gael i'r holl staff sy'n gallu cyrchu'r rhyngwyd.	Fel y nodwyd yn flaenorol, er mwyn ehangu'r amrywiaeth o bobl sy'n gallu manteisio ar y cwrs, nid oes angen cofrestru ar gyfer e-hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ac felly, nid yw'r cyfanswm a gofnodir o'r sawl sy'n dilyn y cwrs yn adlewyrchu'r nifer go iawn. Hyrwyddir y cwrs fel rhan o gyrsiau sefydlu corfforaethol ac adrannol i staff newydd yn ogystal ag ar fewnwyd y staff.
A1.1.5	Bydd staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u rôl yn fewnol ac wrth ymdrin â chwsmeriaid.	Mae argaeledd cynyddol Canllawiau Defnyddiol a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â busnes ar Staffnet ac mae eu hyrwyddo ar draws y meysydd gwasanaeth yn parhau i godi proffil yr iaith. Mae defnydd ehangach o ddulliau hybu'r Gymraeg megis bathodynnau "Iaith Gwaith" a hysbysiadau desgiau derbynfeydd mewn meysydd sy'n cynnwys Tai a'r Ganolfan Gyswllt wedi hybu mwy o ddefnydd o'r iaith.	Mae dosbarthu deunyddiau iaith Gwaith wedi annog y defnydd o'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol rhwng aelodau o staff a chyda defnyddwyr gwasanaeth.  Bydd data o'r Arolwg Staff yn caniatáu mwy o ddadansoddi i nodi ac annog mwy o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i hyrwyddo a defnyddio'r sgiliau hyn yn ystod eu dyletswyddau arferol.
A1.1.6	Bydd dosbarthiadau ffurfiol ac anffurfiol ar gael i aelodau staff gynyddu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r iaith Gymraeg.	Bydd arolwg proffil y gweithlu arfaethedig yn nodi'r sylfaen aelodau staff fwyaf addas i dargedu hyfforddiant. Mae cwrs e-Ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg bellach ar gael at ddefnydd cyffredinol yn yr awdurdod,	Sonnir am y cwrs e-Ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg uchod.  Cynhaliwyd Cwrs Graenus cychwynnol i gynyddu hyder aelodau o staff sydd wedi dysgu Cymraeg neu nad ydynt wedi defnyddio'r iaith ers tro, a chafodd groeso mawr. Roedd y cwrs hwn yn

		<p>ar ôl cael ei brofi a'i dreialu. Gwnaed gwaith cychwynnol ar ddatblygu cwrs defnyddio Cymraeg sylfaenol (adnabod/sillafu/yn ganu) ar gyfer aelodau staff mewn swyddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Llyfrgelloedd yn ymchwilio i bosibilrwydd cwrs Cymraeg ar-lein a fyddai ar gael i aelodau o'r llyfrgell.</p>	<p>canolbwyntio ar adran y Gwasanaethau Cymdeithasol (yn unol â Chynnig Gweithredol Fframwaith MnaG).</p> <p>Mae staff mewn adrannau eraill wedi mynegi diddordeb mewn cwrs o'r fath, a bwriedir cynnal cwrs arall a datblygu rhaglen ddilynol i gynnal y diddordeb a chaiff cynnydd y rhai sy'n ei dilyn ei ddatblygu.</p> <p>Bwriedir datblygu cwrs "cwrdd a chyfarch" gyda sgiliau sylfaenol o hyd.</p> <p>Penderfynir ar unrhyw gyrsiau newydd pan fydd canlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gael.</p>			
A1.1.7	Cesglir gwybodaeth am weithredu'r cynllun i amlygu meysydd arfer da yn ogystal â meysydd y gellir eu gwella.	<p>Roedd rhannu gwybodaeth â Gweithgor Corfforaethol Gwasanaethau Cwsmeriaid a'i is-grŵp Cymraeg wedi darparu modd o amlygu'r ddwy agwedd. Mae'r adolygiad blynyddol wedi amlygu'r angen am grŵp tasg a gorffen penodol i fynd i'r afael â'r cam gweithredu hwn a chaiff ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn nesaf.</p>	<p>Mae'r Adolygiad Blynyddol a'r Adroddiad Monitro cysylltiedig yn rhoi cyfle i asesu perfformiad adrannau unigol a rhoi cyhoeddusrwydd i arfer da a meysydd i'w gwella.</p> <p>Mae hefyd yn caniatáu i uwch-reolwyr adlewyrchu ar gyflwr presennol y cynnydd tuag at roi gwasanaeth dwyieithog llawn ar waith ar draws yr awdurdod.</p>			
Cyfeirir yn y cynllun hwn at Ddangosyddion yr Iaith Gymraeg (DIG1 - DIG6) (fel a ddiffiniwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg). Gellir gweld y dangosyddion yn Atodiad 4.						
<b>A1.2. Camau Gweithredu Corfforaethol</b>						
<b>Camau Gweithredu Corfforaethol</b>						

<b>Sylwer bod pob eitem yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn</b>					
	<b>Gweithredu Angenrheidiol</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Canlyniad a ddisgwylir</b>	<b>Statws</b>	<b>Y diweddaraf ar gyfer 2013-2014</b>
A1.2.1	Rhoi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith ym mhob maes yn y cyngor.	Pob Cyfarwyddiaeth; Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i roi ar waith yn unol â'r ddeddfwriaeth ac arfer gorau ac yn unol â'r cyngor a'r arweiniad	<p>Mae'r Tîm Mynediad i Wasanaethau'n parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad i bob cyfarwyddiaeth ar roi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith.</p> <p>Mae cynllun gweithredu'r Cynllun wedi golygu mesur mwy gwrthrychol o gynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd.</p>	<p>Mae'r Tîm Mynediad i Wasanaethau, y mae Swyddog yr Iaith Gymraeg yn rhan ohono, yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad i bob cyfarwyddiaeth ar roi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith ac mae'r gwaith yn para i brif ffrydio'r Gymraeg ar draws gwaith yr awdurdod.</p> <p>Mae gwybodaeth benodol ar faterion ac arferion y Gymraeg ar gael ar y Mewnwyd.</p> <p>Yn gynyddol, gallai adrannau ymgynghori â'r tîm yn gynt mewn datblygiadau - gan helpu i sicrhau bod materion y Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn mentrau yn well.</p>
A1.2.2	Adolygu gweithrediad y cynllun bob blwyddyn a chyflenwi data ar gyfer adroddiad monitro blynyddol.	Pob gwasanaeth; Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Adroddiadau Blynyddol yn unol ag amserlen gyhoeddedig swyddfa Comisiynydd y Gymraeg	<p>Mae gwybodaeth o feysydd gwasanaeth perthnasol bellach wedi'i chasglu a'i choladu ar gyfer yr adolygiad hwn.</p> <p>Bydd camau gweithredu'r CIG yn cael eu hintegreiddio i'r fframwaith rheoli perfformiad presennol i'w gwblhau a'r arolwg Penaethiaid Gwasanaeth blynyddol fel rhan o'r adolygiad ar</p>	<p>Cafodd yr adroddiad blynyddol ei ystyried a'i gytuno gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet a'i gyhoeddi'n unol â'r amserlen a gytunwyd â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cynhaliwyd cyfarfod adolygu i drafod y meysydd yr oedd y Comisiynydd wedi gofyn am fwy o wybodaeth amdanynt.</p> <p>Yn ogystal, mynychwyd nifer o gyfarfodydd am y Safonau mewn</p>

				gyfer 2012/13. Bydd grŵp tasg a gorffen traws awdurdod wedi'i gadeirio gan Bennaeth Perfformiad a Phrosiectau Strategol y cael ei sefydlu i fonitro ac adolygu'r cynllun gweithredu yn ystod 2012/13.	perthynas â'r Gymraeg arfaethedig a hysbyswyd adrannau am ddyfodol tebygol gofynion yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod rhwng Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Dirprwy Gomisiynydd yn Swyddfa'r Comisiynydd yng Nghaerdydd.
A1.2.3	Datblygu, rhoi ar waith ac adolygu'r Fframwaith Sgiliau leithyddol i fodloni DIG2, DIG4 a DIG5	Adnoddau; Adnoddau Dynol; Meysydd Gwasanaeth; Staff unigol a'u rheolwyr	Gwell darlun o'r sgiliau iaith allweddol sydd ar gael ar draws yr awdurdod.	Mae Fframwaith Sgiliau leithyddol wedi'i gynhyrchu ar ffurf ddrafft. Bydd archwiliad proffil y gweithlu y bwriedir ei gynnal bellach yng nghanol mis Medi yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â sgiliau iaith Gymraeg, ac adroddir am y rhain ar system ISIS. Caiff y fframwaith ei adolygu yn dilyn canlyniadau'r arolwg, ond yn y cyfamser, mewn meysydd perthnasol, e.e. ystyrir dynodiad a'i adlewyrchu mewn polisïau AD.  Mae adrannau gan gynnwys Diwylliant a Thwristiaeth, wedi bod yn diweddarau eu gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg.	Er bod rhai meysydd o'r Fframwaith Safonau wedi'u rhoi ar waith, fel y nodwyd yn flaenorol, yn enwedig i'w defnyddio ym maes recriwtio, mae fersiwn derfynol y Fframwaith yn aros am gyhoeddi'r Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg fel y gall gyfeirio'n effeithiol at y gofynion newydd hyn.  Bydd gwaith mabwysiadu'r Fframwaith yn cael ei ddatblygu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf fel modd o fanylu'r mesurau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfio.
A1.2.4	Hyrwyddo a hybu cynnwys Cymraeg	Pob maes gwasanaeth perthnasol; Adnoddau -	Proffil uwch a mwy o ddefnydd o gynnwys Cymraeg mewn digwyddiadau a	Tai: Mae'r rhan fwyaf o ddeunydd hyrwyddo ar gyfer digwyddiadau etc. yn ddwyieithog e.e. y	Mae lefelau gwasanaeth wedi'u cynnal gan Ddiwylliant a Thwristiaeth, y mae eu llyfrynnau bellach yn cynnwys mwy o gynnwys Cymraeg, gan gynnwys



	mewn digwyddiadau , seremonïau a thrafodion eraill.	Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	gynhelir neu a drefnir gan yr awdurdod.	<p>Gystadleuaeth Arddio, taflen Pob Ceiniog yn Cyfri, a baner bont Prosiect Gobaith</p> <p>Mae Diwylliant a Thwristiaeth ar hyn o bryd yn cynhyrchu'r holl ddeunydd marchnata ar gyfer digwyddiadau yn ddwyieithog ac yn cyflwyno mwy o Gymraeg mewn digwyddiadau. Er enghraifft, cyflwyniadau dwyieithog mewn digwyddiadau a thrwy lwyfannu/cynnal digwyddiadau Cymraeg (e.e. dathliadau Dydd Gŵyl Ddewi ac Eisteddfod yr Urdd).</p>	<p>amodau a thelerau a manylion cadw lle. Lle y bo'n briodol, cefnogir cynyrchiadau Cymraeg yn Gymraeg e.e. Sioe Igam Ogam. Cefnogir Menter Iaith Abertawe i gynnal a hyrwyddo digwyddiadau eraill yn Gymraeg.</p> <p>Roedd y posteri hyrwyddo ar gyfer y Swyddfeydd Tai Rhanbarthol a'r sgrîn arddangos electronig yn y Ganolfan Ddinesig ar gyfer y digwyddiadau Homeswapper a gynhaliwyd ym mis Medi 2013 a mis Ebrill 2014 yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg a oedd yn gwisgo bathodynau/cortynnau gwddf Siarad Cymraeg ar gael drwy gydol y digwyddiadau. Dangoswyd baneri gwybodaeth ar gyfer noson gyflwyno'r gystadleuaeth arddio flynyddol ym mis Medi 2013 a chânt eu defnyddio mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r Gwasanaethau Cofrestru'n cynnig seremonïau Priodas/Partneriaeth Sifil yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.</p>
A1.2.5	Hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg y cyngor a'i roi ar waith ym mhob partneriaeth.	Rheolwyr prosiectau; Meysydd Gwasanaeth	Y Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i gynnwys fel rhan anhepgor o ymuno ag unrhyw bartneriaeth neu ei sefydlu.	Tai: Ceir arweiniad manwl i staff o ran hyrwyddo a rhoi Cynllun Iaith Gymraeg y cyngor ar waith yn yr holl bartneriaethau yn Llawlyfr Gwybodaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid yr Adran Dai sydd ar	Gweler A1.1.3. Mae Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol ar gyfer y Gymraeg yn y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael lle amlwg ym mhrosiect rhanbarthol Bae'r Gorllewin. Mae Pwll Cenedlaethol Cymru (un o

				<p>gael i'r holl staff, ac fe'i hyrwyddir yn rheolaidd yn y Daflen Gwybodaeth Tîm (TGT). I'w hyrwyddo mewn erthygl yn y TIG, mis Mai 2012.</p> <p>Mae gan Ddiwylliant a Thwristiaeth Uned Busnes a Phartneriaeth sy'n monitro'r partneriaethau gweithredu hamdden megis yr LC. Mae Diwylliant a Thwristiaeth wedi cyngori partneriaid i wneud 'pob ymdrech resymol' i gyflawni ymrwymiad y cyngor i'r Cynllun Iaith Gymraeg. Dangosodd gwiriad ansawdd diweddar fod yr LC yn cydymffurfio â chydymffurfio 'rhesymol' megis sicrhau bod yr holl wybodaeth ac arwyddion parhaol yn ddwyieithog a bod gwybodaeth dros dro yn cael ei chynnig yn Gymraeg. Bydd yr uned hon yn mynd i'r afael â'r agwedd hon ar draws yr holl safleoedd partneriaeth yn 2012-13.</p>	<p>partneriaid DaTh) yn cael ei annog i fabwysiadu'r CIG ac wedi cael cynnig i ddefnyddio gwasanaethau cefnogi Cymraeg y cyngor.</p> <p>Mae Archwiliad Mynediad i Wasanaethau'r Adrannau Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn monitro hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg y cyngor yn y cytundebau lefel gwasanaeth sydd gennym â'n partneriaid.</p>
A1.2.6	Monitro'r ceisiadau am wasanaethau Cymraeg ar y ffôn ac wyneb yn wyneb a'r ymatebion y	Pob maes gwasanaeth ; Adnoddau - y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Cadw cofnod o nifer y ceisiadau am wasanaethau Cymraeg a'r ymateb a dderbyniwyd.	<p>Tai:</p> <p>Mae gweithdrefnau monitro chwarterol wedi'u rhoi ar waith i gofnodi hyn yn fanwl. Mae ffigurau'n nodi math a lefel y dasg yr ymgwymerwyd â hi ac er bod y canlyniadau cychwynnol (ar gyfer</p>	<p>Yn yr adrannau Tai a Diogelu'r Cyhoedd, mae mentrau adrannol wedi parhau.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau cychwynnol ar ddatblygu un system gofnodi, penderfynwyd gohirio hyn nes bod</p>

	maent yn eu derbyn.			<p>mis Gorffennaf 2011 i fis Mawrth 2012) yn dangos lefel gymharol isel o ddefnydd, mae'r ymarfer wedi cynyddu proffil y Gymraeg ac wedi hybu ei defnyddio yn yr amgylchedd gwaith.</p> <p>Rydym yn ymchwilio i'r posibiladau o ddatblygu system gofnodi unigol a fydd ar gael ar draws y cyngor a chânt eu cyflwyno i'r grŵp tasg a gorffen.</p>	<p>adnoddau ar gael.</p> <p>Mae monitro ceisiadau am wasanaethau Cymraeg wyneb yn wyneb a thros y ffôn bob chwarter yn parhau ac mae bellach yn cynnwys siaradwyr Cymraeg Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd. Mae rhestrau o siaradwyr Cymraeg ar gael yn y Llawlyfr Gwybodaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid, Llyfryn Sefydlu'r Adran Tai a thudalennau'r mewnrwyd ac fe'u diweddarwyd ym mis Ionawr 2014. Mae ffigurau monitro siaradwyr Cymraeg ar gyfer yr adrannau Tai a Diogelu'r Cyhoedd ar gael ar dudalen "Ffeithiau a Ffigurau" y mewnrwyd.</p>
A1.2.7	Ymchwilio i'r peiriannau ateb sydd ar gael (neu rifau cyswllt Cymraeg ar wahân) i ganiatáu mynediad uniongyrchol (neu fotwm) i negeseuon wedi'u recordio yn Gymraeg.	Pob maes gwasanaeth ; Adnoddau - y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Mynediad gwell a chynt i wybodaeth i gleientiaid Cymraeg eu hiaith	<p>Mae Diwylliant a Thwristiaeth wedi datblygu cyfleuster llinell ddigwyddiadau sy'n cysylltu â system ffôn y Ganolfan Croeso. Mae'r cyfleuster hwn yn caniatáu i gwsmer ddefnyddio cyfleuster awtomataidd i archebu llyfryn neu i gael gwybodaeth am brif ddigwyddiadau'r cyngor. Mae hyn hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r wefan dwristiaeth i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth effeithiol y tu allan i oriau. Mae pob opsiwn yn gwbl ddwyieithog, wrth gyfeirio ac wrth gyflwyno gwybodaeth.</p>	<p>Mae system ffon y Ganolfan Croeso bellach wedi'i diweddarau fel bod negeseuon ar gael yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Mae menter i ddiweddarau'r holl systemau ffôn i ganiatáu darpariaeth debyg yn cael ei datblygu ar draws y cyngor.</p>
A1.2.8	Monitro'r	Pob maes	Cynnydd blynyddol o	Rhoddir cyhoeddusrwydd i	Bydd rhesymoli data'r wefan gyhoeddus,

	<p>gwe-dudalennau cyhoeddus i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae canran gynyddol ar gael yn ddwyieithog</li> <li>- Tudalennau nad ydynt ar gael yn Gymraeg yn cael eu harddangos gyda dyddiad targed ynglŷn â phryd y caiff fersiwn ddwyieithog ei hychwanegu i fodloni gofynion DIG3.</li> <li>Datblygir cynllun gwaith manwl drwy Weithgor Corfforaethol y Gwasanaetha</li> </ul>	<p>gwasanaeth ; Adnoddau - y Tîm Mynediad i Wasanaethau</p>	<p>ganran y gwedudalennau sydd ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Dyddiadau am argaeledd cynnwys Cymraeg wedi'u cyhoeddi'n llwyddiannus.</p>	<p>ofynion dwyieithog gwedudalennau i'r cyhoedd mewn cyfarfodydd grŵp Golygyddion y We.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys y safonau disgwylidig o gynnwys tudalennau sy'n aros i gael eu cyfieithu a'r rhai lle nad yw'n ymarferol i'r holl gynnwys fod yn ddwyieithog.</p> <p>Mae'r system yn golygu ei bod yn anodd canfod ffigurau penodol o ran canrannau'r tudalennau sydd ar gael yn ddwyieithog, ond mae'r rhan fwyaf o adrannau'n adrodd bod tudalennau sydd wedi'u diweddarau o'r newydd yn ddwyieithog ble bynnag y bo modd.</p> <p>Mae aildrefnu mewnol wedi cael effaith ar weithgareddau Gweithgor Corfforaethol Gwasanaethau Cwsmeriaid felly caiff y cynllun gwaith ei ystyried a'i ddatblygu yn ystod 2012/13.</p> <p>Yn yr adran DaTh, mae hyn wedi'i integreiddio i'r Strategaeth Marchnata/Cyfathrebu.</p>	<p>ynghyd â chyflwyno system gwe-gynnwys newydd yn fuan yn cael gwared â llawer o'r hen gynnwys uniaith Saesneg.</p> <p>Mae'r cyflwyniad wedi ystyried y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg tebygol.</p> <p>Dylai gweithdrefnau ac arferion newydd sicrhau bod ein polisi cynnwys dwyieithog yn cael ei gymhwyso'n fwy cyson.</p>
--	---	---	--	---	---

	u Cwsmeriaid i gynnwys gwaelodlin gyfredol a meysydd blaenoriaeth i'w datblygu.				
A1.2.9	Ymchwilio i fwy o waith partneriaeth corfforaethol a mentrau ar y cyd wrth hysbysebu, hyrwyddo, etc.	Adnoddau Cyfarwyddiaethau – y Tîm Mynediad i Wasanaethau		Bydd cyfleoedd penodol ar gyfer gwaith partneriaeth corfforaethol a mentrau ar y cyd yn cael eu datblygu yn y grwpiau Tasg a Gorffen a Chyfathrebu Corfforaethol yn ystod 2012/13.	Prin fu'r cyfleoedd yn y maes hwn, ond mae digwyddiadau sy'n hyrwyddo gwasanaethau'r cyngor a rhannu gwybodaeth wedi golygu llawer mwy o gyfranogiad trawsadrannol. Mae hysbysebu'r digwyddiadau hyn a'r llenyddiaeth ar gael yn ddwyieithog. Mae gwybodaeth benodol am Gynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod yn cael ei darparu yng nghyd-destun yr agenda cydraddoldeb ehangach.
A1.2.10	Datblygu gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff statudol eraill o ran darpariaeth ddwyieithog, gweithwyr, etc.	Adnoddau Cyfarwyddiaethau - Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Nodi'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwaith partneriaeth.	Mae'r awdurdod wedi darparu mewnbwn i fenter Llywodraeth Cymru ar gyfleusterau cyfieithu canolog/ar y cyd - cynhelir ein Huned Gyfieithu ar y cyd â CBS Castell-nedd Port Talbot.  Cynhelir cysylltiadau anffurfiol drwy Fforwm Iaith Gymraeg Abertawe a Menter Iaith Abertawe.	Mae Rhwydwaith yn parhau'n fforwm gwerthfawr ar gyfer trafodaeth gyffredinol ar faterion y Gymraeg, yn enwedig mewn ymateb i fesur y Gymraeg a'r safonau sydd ar ddod.  Yn ogystal â gwaith parhaus gyda phartneriaid rhanbarthol lleol (PABM, Prifysgol Abertawe, Heddlu De Cymru), rydym wedi trafod polisi'r iaith Gymraeg a strategaethau rhoi ar waith cyfredol ac arfaethedig gydag awdurdodau lleol eraill er mwyn bwrw amcan o'r ymateb safonedig.

A1.2.1 1	Datblygu gwybodaeth ar fewnwyd y cyngor sy'n addas ar gyfer e-ddysgu o ran sgiliau iaith Gymraeg etc.	Pob maes gwasanaeth ; Adnoddau - y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Adnoddau Cymraeg ar gael i staff ar y fewnwyd.	<p>Mae prif dudalen mewnwyd yr awdurdod yn cynnwys dolen "Iaith Gymraeg" i dudalennau sy'n ymdrin â defnyddio'r Gymraeg yng ngwaith y cyngor.</p> <p>Cedwir gwybodaeth gyffredinol (megis cyfeiriadau) gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr, gan ganiatáu defnyddio cyfleuster chwilio syml wrth hysbysebu cyfarfodydd etc.</p> <p>Ceir cyngor ar fformatio dogfennau safonol i'w gwneud yn fwy generig ac felly'n haws eu diwygio</p> <p>Mae'r adran hefyd yn cynnwys dolenni (mewnol ac allanol) i dudalennau a gwefannau eraill â chysylltiad penodol â'r Gymraeg, boed yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys manylion am ddarparwyr cyrsiau Cymraeg a dolen uniongyrchol i gwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein yr awdurdod.</p>	<p>Ychwanegwyd at yr wybodaeth sydd ar gael mewn ymateb i geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd.</p> <p>Rydym yn ystyried ychwanegu at yr wybodaeth drwy gynnwys pethau megis rhestr safonol o hysbysiadau ac arwyddion cyffredin ("Ddim yn Gweithio", "Ciwich yma", etc.) i ganiatáu i adrannau ddarparu gwybodaeth ddwyieithog ar fyr rybudd heb orfod cysylltu ag Uned Gyfieithu'r Awdurdod.</p>
-------------	---	---	--	---	--

### A1.3. Camau Gweithredu ar gyfer y Gwasanaethau Corfforaethol

#### Gwasanaethau Corfforaethol

Sylwer bod pob eitem yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn

	/Gweithredu Angenrheidiol	Cyfrifoldeb	Canlyniad a ddisgwylir	Statws	Y diweddaraf 2013-2014
A1.3.1	Datblygu cynllun cyfathrebu a hyrwyddo priodol i hybu argaeledd gwasanaethau Cymraeg/dwyieithog mewn meysydd gwasanaeth.	Cyfathrebu  Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Bydd cynllun cyfathrebu corfforaethol newydd yn ategu'r angen am gyfathrebu dwyieithog.  Staff yn gwybod y diweddaraf am y Cynllun Iaith Gymraeg yn ôl y galw.	Defnyddir cyfathrebu mewnol i hysbysu staff am ofynion dwyieithog wrth gynhyrchu deunyddiau etc.  Mae ymdrechion wedi canolbwyntio ar sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r angen am ddarparu gwasanaethau Cymraeg drwy Staffnet, canllawiau defnyddiol a chydgyssylltu â meysydd gwasanaeth. Caiff dulliau addas o hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael a draws yr awdurdod eu hystyried dros y flwyddyn nesaf.	Mae mater cynllunio ac adnabod 'brand' yr awdurdod yn cael ei ddatblygu drwy weithgor y Gwasanaethau Cwsmeriaid. Mae gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg yn rhan annatod o hyn. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y tîm (a'r SIG yn arbennig) gefnogaeth sylweddol i AD er mwyn cyflwyno'r arolwg proffil staff  Mae gwaith cychwynnol wedi dechrau i nodi system rheoli cynnwys y we newydd a bydd yr angen am ryngwyneb dwyieithog yn rhan o'r fanyleb ofynnol.
A1.3.2	Monitro cyfathrebu allanol gan y cyngor i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cynllun.	Cyfathrebu	Mwy o broffil a chyhoeddusrwydd am y cynllun Cyfathrebu Corfforaethol o fewn yr awdurdod.  Cefnogaeth ddwyieithog	Caiff cyfathrebu allanol ei fonitro bob dydd, a chodir materion gyda Swyddog y Gymraeg.	Mae gweithdrefnau'n parhau fel y llynedd.

			gorfforaethol gryfach.		
A1.3.3	Nodi a hyfforddi pobl briodol fel siaradwyr mewn meysydd gwasanaeth i'r cyfryngau Cymraeg.	Cyfathrebu, Pob Maes Gwasanaeth	Unigolion priodol wedi'u nodi o fewn meysydd gwasanaeth i gyflawni'r rôl.  Cyfathrebu i ymchwilio i gyfleoedd hyfforddiant i'r aelodau staff hyn.	Mae'r staff hynny y nodwyd eu bod yn "siaradwyr Cymraeg y cyfryngau" gan eu gwasanaethau yn cael eu defnyddio pan fydd angen cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.	Darperir cyfweledigion sy'n siarad Cymraeg os ydynt ar gael. Mae hyn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus gyda sylw'r wasg ddarledu i ddiwyddiadau yn Abertawe yn ogystal â chysylltiadau Abertawe a digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae cofrestr o staff sydd wedi'u hawdurdodi i siarad ar ran y cyngor yn cael ei datblygu ymhellach. Mae newidiadau i staffio a strwythur y cyngor wedi amlygu'r angen i adolygu a ffurfioli adnodd "siaradwyr Cymraeg y cyfryngau" yn y cyngor.
A1.3.4	Parhau i ddefnyddio cyfathrebu mewnol i hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg, gwella sgiliau iaith Gymraeg, fframwaith sgiliau, etc.	Cyfathrebu'r Tîm Mynediad i Wasanaethau.	Codi proffil y Gymraeg a'r Cynllun Iaith Gymraeg yn yr awdurdod.	Defnyddir cyfathrebu mewnol i hyrwyddo gofynion y Gymraeg a chyfleoedd ar ei chyfer. Mae'r rhain yn cynnwys straeon newyddion, e-byst a'r defnydd o sesiynau briffio corfforaethol.  Mae'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael ar fewnrwyd y cyngor wedi'u hamlygu.  Cyflwyniad ar y Cynllun a'r Cynllun Gweithredu diwygiedig yng nghyfarfod y prif reolwyr ym mis Gorffennaf 2011.	Drwy gydol y cyfnod adrodd, cafwyd sawl neges am y cyngor a'r iaith Gymraeg. Er bod y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â'r safonau arfaethedig, achubwyd ar y cyfle i gyfeirio at ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol ac amlygu newidiadau posib i'n harferion gwaith a allai godi o ganlyniad i hyn.  Mae cylchlythyrau staff, er enghraifft, yn yr adrannau Diwylliant, Twristiaeth, Hamdden a Chwaraeon, Tai a Diogelu'r Cyhoedd, a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi manylu ar anghenion darparu gwasanaethau gan hyrwyddo cyrsiau ac adnoddau eraill sydd ar gael, gan gynnwys adran



					Gymraeg y mewnwyd.
A1.3.5	Parhau i ddefnyddio cyfathrebu mewnol ac allanol i hyrwyddo argaeledd cyfleusterau ac agweddau Cymraeg yn ystod digwyddiadau a ddatblygir gan yr awdurdod.	Cyfathrebu  Meysydd gwasanaeth perthnasol	Parhau i hyrwyddo ac amlygu'r defnydd o ddeunyddiau, gweithgareddau, gweithdai ac ati Cymraeg a dwyieithog yn ystod digwyddiadau a mentrau pwysig.	Hyrwyddir y cyfleoedd hyn i'r rhai sy'n mynd i ddigwyddiadau.	Rydym yn ymdrechu i gynnwys eitemau yn yr iaith Gymraeg mewn digwyddiadau rydym yn eu trefnu a chefnogi'r Fenter Iaith wrth gyflwyno digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddulliau cyfathrebu a gynhyrchir gan yr awdurdod i hyrwyddo digwyddiadau yn yr ardal yn rhai dwyieithog.  Bydd peth o'r hysbysebu sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer marchnadoedd penodol y tu allan i Gymru (e.e. cartrefi timau sy'n chwarae yn erbyn yr Elyrch yn yr Uwch-gynghrair) yn bennaf yn Saesneg, ond yn aml, cynhwysir rhyw gyfeiriad at agweddau iaith Gymraeg yr ardal.
A1.3.6	Ymchwilio i'r angen am fwy o arweiniad ar ddyluniad a fformat deunyddiau dwyieithog mewn partneriaeth â Design Print.	Cyfathrebu	Ymagwedd ddwyieithog at ddeunydd argraffedig wedi'i hymgorffori ymhellach yn gorfforaethol.  Llai o ddeunyddiau'n cael eu cynhyrchu heb gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg	Mae DesignPrint yn gweithio'n agos ag adrannau i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu bodloni fesul pob darn o waith.  Ystyrir gwahanol ddulliau/cynlluniau i fodloni gofynion dylunio dwyieithog ar ddechrau'r broses ddylunio.	Mae DesignPrint wedi cynnal brîff i gadw llygad ar geisiadau mewnol am waith i atgoffa adrannau o'r gofyniad am gynhyrchu a dosbarthu deunydd dwyieithog.  Wrth i strategaeth ddylunio gorfforaethol ddatblygu, bydd y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg yn rhan annatod o'r broses hon.
A1.3.7	Atgoffa	Cyfathrebu	Y Cynllun Iaith	Mae system archebu DesignPrint	Yn gynyddol, mae adrannau'n cysylltu â

	meysydd gwasanaethau i gleientiaid o ddarpariaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg os oes angen a chysylltu â Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor.		<p>Gymraeg wedi'i wreiddio'n ddyfnach yn gorfforaethol - yn enwedig gyda deunydd wedi'i argraffu.</p> <p>Llai o ddeunyddiau'n cael eu cynhyrchu heb gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Meysydd sy'n broblem wedi'u nodi a'u trosglwyddo i'r Swyddog Iaith Gymraeg i fynd i'r afael â hwy.</p>	<p>yn cynnwys gofyniad am y Gymraeg.</p> <p>Canlyniad hwn yw ystyried agweddau ar y Gymraeg yn gynt wrth ddylunio a chynhyrchu, gan arwain at fwy o gydymffurfio.</p>	<p>Swyddog yr Iaith Gymraeg ar gam cynnar datblygu mentrau unigol a chanddynt agwedd Gymraeg o bosib.</p> <p>Yn rhannol, mae hyn o ganlyniad i'r ffaith fod darpariaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg yn dod yn fwy prif ffrwd, ond mae defnyddio a deall y broses AEC yn ehangach ar draws yr awdurdod hefyd yn amlygu meysydd pryder posib</p> <p>Yn ogystal, mae ymagwedd ragweithiol gan Swyddog yr Iaith Gymraeg at newyddion datblygiadau sydd ar ddod yn annog rhoi ystyriaeth i'r iaith wrth ddylunio a rhoi ar waith.</p>
A1.3.8	Defnyddio Grŵp Iaith Gymraeg Gweithgor Corfforaethol Gwasanaethau Cwsmeriaid i nodi a hybu arfer da.	Cyfathrebu	Arfer da (i gynnwys problemau a datrysiadau) i fod yn eitem safonol ar agendâu cyfarfodydd.	Mae swyddogaethau'r Grŵp Iaith Gymraeg wedi dychwelyd i'r prif weithgor lle mae eitem safonol ar yr agenda'n sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau'n cael eu hyrwyddo i gynulleidfa ehangach. Mae materion yr iaith hefyd yn cael eu cynnwys mewn gweithgoreu cydraddoldeb ac amrywiaeth adrannau neu gyfarwyddiaethau.	Mae'r grŵp yn cael ei aildrefnu yng nghyd-destun ehangach Safon Abertawe gyda'r Gymraeg yn rhan annatod o'i gylch gwaith.

**A1.4. Camau Gweithredu ar gyfer y Gwasanaethau Corfforaethol****Gwasanaethau Corfforaethol****Sylwer bod pob eitem yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn**

	<b>Gweithredu Angenrheidiol</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Canlyniad a ddisgwylir</b>	<b>Statws</b>	<b>Y diweddaraf ar gyfer 2013-2014</b>
A1.4.1	Datblygu proses adolygu flynyddol ar gyfer y cynllun a'i rhoi ar waith ym mhrosesau perfformio, archwilio a chynllunio busnes/gwasanaeth.	Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Proses wedi'i nodi i fonitro perfformiad yn effeithiol yn ôl y Cynllun Iaith Gymraeg.	Eitemau o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y prosesau cynllunio busnes, a'u monitro a'u hadolygu ochr yn ochr â chymau gweithredu eraill. Adrannau priodol o gynlluniau busnes yn cael eu hadolygu.	Er bod aildrefnu mewnol wedi newid rhai cyfrifoldebau, mae adrodd blynyddol yn parhau gyda'r diweddaraf yn cael ei dderbyn gan adrannau perthnasol.
A1.4.2	Adolygu ac adrodd am roi'r cynllun ar waith yn flynyddol i TRhC, y Cabinet a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.	Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Adroddiadau Blynyddol yn unol ag amserlen gyhoeddus swyddfa Comisiynydd y Gymraeg	Gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad blynyddol yn cael ei chasglu o feysydd gwasanaeth a'i choladu i'w chyhoeddi, yn ôl amserlen swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys adrodd i'r TRhC a'r Cabinet.	Cynhyrchwyd Adroddiad Blynyddol 2012-13 yn ôl yr amserlen a gytunwyd â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
A1.4.3	Cefnogi a	Y Tîm	Ymagwedd gyson at	Gydag un neu ddau eithriad,	Mae mwy o wybodaeth wedi cael ei

	<p>chynghori cyfarwyddiaet hau a meysydd gwasanaeth wrth fonitro'r cynllun, ei roi ar waith a'i adolygu, gan gynnwys datblygu arweiniad priodol.</p>	<p>Mynediad i Wasanaeth au</p>	<p>roi'r cynllun ar waith ym mhob maes gwasanaeth, a chyngor ac arweiniad wedi'u darparu i ddatrys problemau a nodwyd.</p>	<p>cydnabyddir y Tîm Mynediad i Wasanaethau a Swyddog yr Iaith Gymraeg yn bwynt cyswllt prif ffrwd ar gyfer cyngor a gwybodaeth ar faterion y Gymraeg.</p>	<p>hychwanegu at adran Gymraeg mewnrwyd y cyngor.</p> <p>Rhoddir cyngor ad-hoc o hyd yn ogystal â gwybodaeth fwy ffurfiol ar y safonau arfaethedig.</p> <p>Mae rhoi'r wefan gyhoeddus newydd ar waith ar ddigwydd a dylai unioni rhai o'r problemau hirsefydlog o ran arddangos y Gymraeg.</p> <p>Mae ymwneud ag adrannau wrth ymateb i'r safonau arfaethedig a'r Ymchwiliad i Safonau wedi cynyddu proffil yr iaith ymhellach. Mae gwaith ar fapio'r cynigion yn erbyn ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol i amlygu newidiadau wedi arwain at rai adrannau'n cynnwys safonau mewn mentrau newydd.</p>
A1.4.4	<p>Nodi a diffinio lefelau a meini prawf sgiliau iaith i ganiatáu dosbarthu mwy gwrthrychol fel rhan o'r Fframwaith Sgiliau Ieithyddol.</p>	<p>Y Tîm Mynediad i Wasanaeth au</p>	<p>Dull o fesur lefelau sgiliau unigolion yn ôl meini prawf penodol.</p>	<p>Meini prawf wedi'u diffinio i'w defnyddio yn y Fframwaith Sgiliau Ieithyddol i ganiatáu i aelodau unigol o staff i hunanasesu eu sgiliau iaith.</p>	<p>Mae canlyniadau cychwynnol o'r Arolwg Staff - ac yn arbennig, ffigurau am siaradwyr Cymraeg - wedi dangos bod gan y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth staff â sgiliau iaith Gymraeg.</p> <p>Mae "hunanwasanaeth" wedi'i gyflwyno'n ddiweddar i ganiatáu i aelodau o staff ddiweddarau eu manylion (gan gynnwys sgiliau ieithyddol) yn uniongyrchol ar y system.</p> <p>Ymddengys bod y dosbarthiadau a ddefnyddir i fwrw amcan o lefelau sgiliau yn gymharol reddfol, gan arddangos</p>

					ystod o sgiliau canfyddedig. Bydd y data sydd ar gael yn awr yn cynorthwyo wrth dargedu camau gweithredu i wella darparu gwasanaethau Cymraeg.
A1.4.5	Datblygu trefn a phroses i fonitro ceisiadau am wasanaethau Cymraeg dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, a'r ymateb y maent yn ei dderbyn.	Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Dull o gofnodi nifer y ceisiadau a'r ymatebion a dderbynnir am wasanaethau Cymraeg.	Er mwyn gwella argaeledd y ffurflen a mynediad iddi, caiff ei datblygu nawr fel dogfen ar-lein a fydd ar gael ar draws mewnwyd yr awdurdod. Caiff ei datblygu yn y fformat hwn yn ystod 2012/13.	Bydd cyflwyno'r wefan gorfforaethol newydd sydd ar ddigwydd yn caniatáu datblygu'r cam gweithredu hwn. Y safonau arfaethedig ar gyfer cofnodi ceisiadau am ddarparu gwasanaethau Cymraeg fydd y sail ar gyfer hyn.
A1.4.6	Mewn partneriaeth â Menter Iaith Abertawe, datblygu pecyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein.	Tîm Mynediad i Wasanaethau, Hyfforddiant Corfforaethol	Hyfforddiant ar gael drwy fewnwyd y cyngor - yn enwedig i staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid a dechreuwyd newydd ar bob lefel.	Mae pecyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein wedi'i ddatblygu a'i dreialu gydag 13 aelod o staff, ac mae ar gael i'r holl staff â mynediad i'r rhyngwyd (boed trwy fewnwyd yr awdurdod neu ei gyrchu gartref ar gyfrifiadur personol). Sesiwn wedi'i chyflwyno gan Fenter Iaith Abertawe a gweithwyr y Gwasanaeth Ieuenctid.	Mae'r cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i hyrwyddo yn ystod cyrsiau sefydlu corfforaethol ac adrannol. Er, fel y nodwyd yn flaenorol, i sicrhau'r mynediad ehangach, nad oes gofyniad i gofrestru ar gyfer y cwrs, mae nifer y staff sydd wedi gwneud hynny wedi cynyddu i 25 - er bod hwn yn amcangyfrifiad rhy isel o'r cyfanswm.  Mae'r cwrs wedi'i fabwysiadu gan nifer o gyrff allanol hefyd fel adnodd cyffredinol sy'n darparu trosolwg o'r pwnc.
A1.4.7	Adolygu meysydd iaith	Adnoddau Dynol, Tîm	Strwythur ar waith i gadw lefelau sgiliau	Cyrhaeddwyd cytundeb ar y strwythur i gadw'r wybodaeth	

	Gymraeg am ddata gweithiwr i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r lefelau arfaethedig o fewn fframwaith sgiliau ieithyddol i ateb gofynion DIG 5.	Mynediad i Wasanaethau	ieithyddol perthnasol ar gofnodion gweithiwr.	angenrheidiol, ond cafwyd oedi i'r gwaith angenrheidiol i wella system ISIS i gynnwys hyn, yn amodol ar waith uwchraddio sylweddol i system ISIS. Bydd dulliau eraill o gadw'r wybodaeth nes cwblhau'r uwchraddio yn cael eu datblygu yn ystod 2012/13.	WEDI'U CYFLAWNI  Gweler A1.4.4 uchod.  Mae'r canlyniadau cychwynnol ar gael yn Atodiad 6 yr adroddiad hwn.
A1.4.8	Sicrhau bod darpariaethau'r cynllun i drydydd partïon/trefniadau comisiynu wedi'u cynnwys yn adolygiad y Strategaeth Gaffael, gan gynnwys y broses fonitro ac adolygu i fodloni gofynion DIG 1.	Caffael	Y Strategaeth Gaffael yn cynnwys darpariaeth benodol y Cynllun Iaith Gymraeg.	Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor (2010) - Thema 5 Amcan 2 - yn datgan y gofynion bod contractau'n cefnogi Polisi Iaith Gymraeg y cyngor.	Er bod contractau newydd yn cynnwys geiriad cryw, ond cyffredinol, sy'n sôn am ofynion y Gymraeg, yn unol â'r safonau arfaethedig, bydd gwahoddiadau yn y dyfodol i dendro a chontractau'n cyfeirio at elfennau penodol o'r Gymraeg y bydd rhaid eu bodloni.
A1.4.9					Fel y nodwyd yn flaenorol

- A1.4.1 4					A1.4.9 - A1.4.14 naill ai wedi'u hailneilltuo neu heb fod yn berthnasol mwyach
A1.4.1 5	<p>Gweithio gyda'r Tîm Mynediad at Wasanaethau ar ddatblygu'r Fframwaith Sgiliau leithyddol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- arweiniad ar ddynodiad swyddi</li> <li>- arweiniad ar asesu sgiliau dwyieithog o fewn y broses recriwtio a phenodi</li> </ul> <p>[A1.4.17 gynt] Ymchwilio i ddulliau corfforaethol a gwasanaeth ar y cyd o ddenu a</p>	Adnoddau Dynol	<p>Pob swydd wedi'i harchwilio am berthnasedd sgiliau iaith Gymraeg.</p> <p>Sgiliau ar gyfer unrhyw swyddi newydd sy'n delio â'r cyhoedd i gael eu hystyried yn ddymunol a/neu at lefel benodol.</p> <p>Cytuno ar safonau asesu</p>	<p>Gwnaed gwaith cychwynnol, a datblygwyd fframwaith drafft. Caiff y fframwaith ei adolygu yn dilyn canlyniadau arolwg proffil y gweithlu. Caiff meysydd perthnasol y fframwaith megis dynodi ac asesu sgiliau eu hystyried mewn polisïau AD perthnasol, e.e., recriwtio. Ochr yn ochr â'r arolwg dros y flwyddyn nesaf, gwneir gwaith gyda rhai meysydd allweddol yn y maes hwn.</p>	<p>Mae Menter Iaith Abertawe a Fforwm Iaith Abertawe wedi'u defnyddio i ddenu ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg i rai swyddi.</p> <p>Mae mentrau unigol wedi parhau lle mae recriwtio i swyddi rheng flaen wedi bod yn bosib, e.e. yn unol â Fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Canlyniad y rhain yw bod siaradwr Cymraeg wedi'i recriwtio i Ganolfan Alwadau Adran yr Amgylchedd.</p> <p>Wrth i'r safonau arfaethedig gael eu cadarnhau, achubir ar y cyfle i ystyried y rhain wrth recriwtio yn y dyfodol, a chaiff y Strategaeth Sgiliau leithyddol ei datblygu.</p>

	recriwtio gweithwyr dwyieithog i feysydd gwasanaeth penodol				
A1.4.1 6	Sicrhau y croesgyfeirir at y cynllun wrth adolygu polisïau.	Adnoddau Dynol	Darpariaethau'r cynllun wedi'u gwreiddio ar draws pob polisi AD.	Roedd yr adolygiad polisi'n cynnwys y broses Asesu Effaith Cydraddoldeb gorfforaethol a sicrhodd fod materion Cymraeg yn cael eu hystyried.	Mae adolygu polisïau wedi'i gwblhau.  Bydd ystyried agwedd Gymraeg unrhyw swydd sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n dod yn wag yn cael ei fonitro cyn hysbysebu'r swydd.
A1.4.1 7					Wedi'i gynnwys yn A1.4.15
A1.4.1 8	Cynnwys gwaith ar y Fframwaith Sgiliau leithyddol a'i ganlyniadau yn y Prosiect Datblygu'r Gweithlu o fewn Rhaglen y Gweithlu.	Adnoddau Dynol	Agweddau'r Gymraeg wedi'u cynnwys fel rhan annatod o Raglen y Gweithlu.	Mae drafft o'r Fframwaith Sgiliau leithyddol wedi'i lunio ac mae'r gwaith a wnaed yn ystod datblygu'r fframwaith wedi bwydo i arferion recriwtio.	I'w datblygu yn unol â'r Fframwaith Sgiliau leithyddol a'r Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.
A1.4.1 9	Ystyried gofynion hyfforddi a datblygu sy'n codi o'r Fframwaith Sgiliau	Adnoddau Dynol	Adnoddau hyfforddi a datblygu priodol ar gael.	Mae Fframwaith Sgiliau leithyddol drafft wedi'i gynhyrchu. Mae arolwg proffil y gweithlu y bwriedir ei gynnal yng nghanol mis Medi yn cynnwys cwestiynau am sgiliau iaith Gymraeg. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i	Treialwyd Cwrs Gloywi cychwynnol gyda staff (dysgwyr a siaradwyr Cymraeg y mae angen iddynt fagu rhywfaint o hyder) - cyflwynwyd geirfa a sefyllfaoedd sylfaenol yn y gweithle. Croesawyd hyn a byddwn yn ystyried cynnal mwy o gyrsgiau, a hefyd, ddarparu



	leithyddol yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, ac adolygiad y cyngor cyfan o hyfforddi a datblygu - i ateb gofynion DIG 4.			<p>ystyried gofynion hyfforddi a datblygu ac adolygu'r fframwaith. Yn ogystal, gwneir gwaith ochr yn ochr â hyn gyda meysydd gwasanaeth allweddol fel y nodwyd yn A1.4.15.</p> <p>Mae'r cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn y lle cyntaf drwy Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Mewn ymateb i sawl cais adrannol, mae cwrs sylfaenol ar gyfer ynganu, sillafu a rhifedd yn y Gymraeg yn cael ei lunio ar hyn o bryd.</p>	<p>rhai sesiynau ymarfer anffurfiol.</p> <p>Pan fydd dadansoddiad ar gael, dylai cyfres o gyrsiau wedi'u targedu'n fwy gael eu trefnu.</p>
A1.4.20					Ddim yn berthnasol mwyach
A1.4.21	Cynnal lefelau cyfredol gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.	Cyfreithiol	Dim dirywiad wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg	Mae lefel y gwasanaeth Cymraeg a dwyieithog wedi'i chynnal.	<p>Mae darparu gwasanaethau Cymraeg yn parhau.</p> <p>Yn ogystal, gan fod goblygiadau Cydraddoldeb a Chynnwys (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) yn cael eu harchwilio o ran holl adroddiadau'r cyngor, mae'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth yr iaith Gymraeg wedi'i amlygu ymhellach.</p>
A1.4.22	Parhau i fonitro nifer y cwynion a dderbynnir	Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratai	Adroddiad ar berfformiad	Mae ffigurau am gwynion ynglŷn â'r Gymraeg a dderbyniwyd a'u prosesu gan Dîm Cwynion Corfforaethol yr awdurdod yn cael	Mae'r system gorfforaethol newydd wedi'i rhoi ar waith, ac o ganlyniad, dylai holl gwynion Cam 1 gael eu cofnodi bellach, yn ogystal â'r rhai sy'n mynd

	mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg ar wahân i ateb gofynion DIG 6.	dd – Tîm Cwynion		eu crynhoi bob blwyddyn ac mae'r manylion ar gael yn adran *** yr adroddiad blynyddol.	ymhellach i gamau eraill.  Mae'r ffigurau a gyflwynwyd gan y Tîm Cwynion Corfforaethol ar gael yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol.
A1.4.2 3 - A1.4.2 4					Fel y nodwyd yn flaenorol A1.4.23 - A1.4.24 WEDI'U CYFLAWNI
A1.4.2 5  A1.4.9 gynt	Cyflawni archwiliad o'r gweithle/gweithlu i optimeiddio lefelau sgiliau Cymraeg/dwy ieithog cyfredol y staff.	Adnoddau Dynol, Tîm Mynediad i Wasanaethau	Mapio sgiliau Cymraeg sydd ar gael i ddarpariaeth meysydd gwasanaeth.	Mae adrannau unigol yn cadw gwybodaeth am sgiliau Iaith Gymraeg - bydd angen i gofrestr fwy integredig aros nes bod system ISIS wedi'i diweddarau ar ôl cynnal yr arolwg.	Mae cynnydd wedi bod yn gyfyngedig - ond dylai wella gydag argaeledd ystadegau sgiliau ieithyddol. Y camau cychwynnol fyddai mapio yn erbyn meysydd darparu gwasanaethau a mesur lefelau staff (yn erbyn yr hyn sydd eisoes yn bodoli) yn wrthrychol.
A1.4.2 6, A1.4.1 0 gynt	Asesu dynodiad swyddi a datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r angen o fewn y ganolfan gyswllt wrth recriwtio, hyrwyddo'r	Adnoddau Dynol, Cyllid, Tîm Mynediad i Wasanaethau	Cynllunio i gynnal lefel ddigonol o wasanaethau Cymraeg o fewn y Ganolfan Gyswllt.	Archwiliad wedi'i gynnal a siaradwr Cymraeg wedi'i recriwtio yn y Ganolfan Gyswllt. Siaradwyr Cymraeg ar gael o'r adrannau Refeniw a Budd-daliadau i gefnogi'r Ganolfan Gyswllt yn ôl y galw.	Parhaol

	gwasanaeth, etc.				
A1.4.2 7, A1.4.1 1 gynt	Defnyddio StaffNet i hyrwyddo sgiliau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dolenni a gweithgareddau defnyddiol.	Adnoddau Dynol, Tîm Mynediad i Wasanaethau	Erthyglau cyson wedi'u cyhoeddi ar fewnwyd y cyngor yn amlygu gwybodaeth i staff am y Gymraeg.	Yn hytrach na chael eitem reolaidd, mae erthyglau wedi'u cyhoeddi am ddatblygiadau - mewnol ac allanol - sy'n effeithio ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyngor.  Yn ogystal â'r erthyglau, anfonwyd gwybodaeth benodol at benaethiaid gwasanaeth yn ôl y galw. Mae'r wybodaeth hon wedi amlygu agweddau statudol yn hytrach na gwybodaeth benodol y cyngor a gedwir ar dudalennau 'Cymraeg' y fewnwyd.	Mae llawer o'r gweithgaredd hyrwyddo wedi bod yn atodiad i hysbysu staff o safonau arfaethedig, gan achub ar y cyfle i atgyfnerthu/wella darpariaeth y Cynllun Iaith Gymraeg.
A1.4.2 8, A1.4.1 2 gynt	Datblygu tudalennau mewnwyd Cymraeg, gan gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a dolenni, ac ymchwilio i ddarpariaeth debyg i'r fewnwyd (i fodloni gofynion DIG 3).	Adnoddau Dynol, Tîm Mynediad i Wasanaethau	Adran <<IAITH GYMRAEG>> ar gael ag un clic o dudalen flaen mewnwyd y cyngor.  Dichonoldeb gwedudalennau yn manylu ar wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg ar draws yr awdurdod.	Rhoddyd dolen ar waith i dudalennau'r Iaith Gymraeg ar fewnwyd y cyngor sy'n cynnwys "Canllawiau Defnyddiol" a dogfennau "gwybodaeth ddefnyddiol" eraill. Caiff yr wybodaeth hon ei diweddarau a'i hehangu yn unol ag awgrymiadau gan staff.  Mae dolenni ar waith yn awr sy'n amlygu rhai o'r sefydliadau Cymraeg sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod.  Mae rhai dolenni i wasanaethau	Mae gwybodaeth "Iaith Gymraeg" ar fewnwyd yr awdurdod wedi'i hehangu a cheir awgrymiadau a dderbyniwyd gan staff ar unrhyw adnoddau eraill a fyddai'n ddefnyddiol yn eu barn hwy. Mae'r rhain yn cynnwys arwyddion cyffredinol sy'n caniatáu i staff lawrlwytho ac argraffu gwybodaeth megis "Ddim yn gweithio"; "Defnyddiwch y drws arall" "Ciwych Yma"; etc. Mae tudalen sy'n manylu'r amserlen a'r cynnydd ar y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg hefyd wedi'i chyflwyno. Mae trafodaethau'n parhau am gyfleuster ehangach adnoddau Cymraeg (yn y cyngor ac yn allanol) ar

				lleol neu ranbarthol wedi'u cynnwys yn y tudalennau hyn, ond mae datblygiadau'n dibynnu ar y gwaith o gasglu gwybodaeth allanol a chyngor ar ba wasanaethau a allai fod yn addas i'w cynnwys ar wefan y cyngor.	draws ardal yr awdurdod.
A1.4.2 9, A1.4.1 3 gynt	Cyflwyno hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r laith Gymraeg i holl staff y rheng flaen yn y Ganolfan Gyswilt.	Cyllid	Holl staff y rheng flaen yn ymwybodol o faterion y Gymraeg yn Ninas a Sir Abertawe.	Cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein wedi bod ar brawf a bellach ar gael. Bydd angen gwaith gyda'r adrannau sy'n wynebu'r cyhoedd ar gyflwyno, adborth a gwaith dilynol. Cwrs ar elfennau'r Gymraeg gan gynnwys sillafu ac ynganu yn cael ei baratoi (yn annhebygol o fod ar-lein).	Ychydig iawn o gynnydd ar y cam gweithredu hwn.

**A1.5. Camau Gweithredu ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol****Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol****Sylwer bod pob eitem yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn**

	<b>Gweithredu Angenrheidiol</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Canlyniad a ddisgwylir</b>	<b>Statws</b>	<b>Y diweddaraf 2013-2014</b>
A1.5.1	Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cyngor Gofal Cymru, ac Adran Polisi Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi, datblygu, mabwysiadu a hyrwyddo'r pecyn cymorth ymchwilio gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar draws y sector gofal cymdeithasol mewn modd cymesur.	Gwasanaethau Cymdeithasol	Rhoi'r pecyn cymorth arolygiadau ar waith	<p>Mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol DASA wedi cyflawni'r camau gweithredu gofynnol, ond nid yw AGGCC wedi bod mewn sefyllfa eto i gyflwyno'r pecyn cymorth.</p> <p>Er bod y pecyn cymorth i ryw raddau wedi'i ddisodli gan y Fframwaith Strategol newydd, mae'r gwaith a wneir yn dal yn ddefnyddiol mewn cyd-destun lleol.</p> <p>O ganlyniad, bydd y gofyniad am yr eitem weithredu hon yn cael ei fonitro, a gwneir penderfyniad am ei hyfywedd yn ystod y flwyddyn nesaf.</p> <p>Gwaith cychwynnol wedi'i wneud yng nghyd-destun y Fframwaith Strategol drafft a chynllun gweithredu Mwy na Geiriau.</p>	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i ddisodli drwy roi Mwy na Geiriau ar waith. Mae grŵp llywio i fonitro Cynllun Gweithredu MnaG fel arfer yn cwrdd bob deufis i adolygu cynnydd. Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg wedi cefnogi ei roi ar waith. (Gweler Atodiad 5).
A1.5.2	Ceisio'r elfennau hanfodol			Mae rhoi'r pecyn cymorth ar waith yn dibynnu ar ei dderbyn gan	Gweler uchod (A1.5.1)

	angenrheidiol i gyflwyno'r pecyn cymorth:-			AGGCC ac felly caiff y cam gweithredu hwn ei adolygu fel rhan o'r gwaith ar y Fframwaith.	Wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gweithredu MnaG
A1.5.3	Adolygu contractau i ddarparwyr allanol ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg a threfniadau monitro, gan gynnwys gwybodaeth i DIG 1 am wasanaethau gofal.	Gwasanaethau Cymdeithasol,  Caffael	Gwell darpariaeth o wasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg.	Ar hyn o bryd ceir cymal sy'n cynnwys cydraddoldeb mewn contractau a fydd bellach yn cael ei adolygu fel rhan o roi cynllun gweithredu'r Fframwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith.	Cafwyd gwybodaeth gan nifer o ddarparwyr allanol. Caiff hwn ei ddatblygu ymhellach ym Mlwyddyn 2 cynllun gweithredu MnaG.
A1.5.4	Amlygu'r ddarpariaeth o hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar draws y sector.	Gwasanaethau Cymdeithasol,  Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i hwyluso ar draws y sector gofal cymdeithasol.	Mae dulliau cyfathrebu â staff yn cael eu defnyddio o hyd i amlygu anghenion siaradwyr Cymraeg - fel rhan o fframwaith MnaG ac yn fwy cyffredinol.  Llunio a threialu sesiwn elfennau, sillafu ac ynganu sylfaenol yn y Gymraeg gyda'r AGC gyda'r posibilrwydd o'i chyflwyno'n fwy cyffredinol ar draws yr awdurdod.	Yn ystod gwanwyn/haf 2013 roedd cyfres o erthyglau yng nghylchlythyr staff y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu gwybodaeth ac arweiniad ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg. Caiff gwybodaeth am bwysigrwydd y Cynnig Gweithredol a sensitifrwydd iaith ei chynnwys mewn sesiynau sefydlu staff.  Galwyd grŵp o staff sy'n siarad Cymraeg ynghyd i drafod materion ynghylch cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy yn y gweithle.  Ymchwilir i gynnal clipiau fideo o MnaG fel adnodd cyfeirio pan gaiff y wefan

					gorfforaethol newydd ei rhoi ar waith.
A1.5.5	Adolygu taith defnyddwyr gwasanaeth o ran eu dewis iaith, gan gynnwys parhad y ddarpariaeth.	Gwasanaethau Cymdeithasol	Annog cwblhau'r maes dewis iaith (PARIS) yn y cyfnod mewnbynnu data cyntaf.	Er bod nifer gwirioneddol y meysydd dewis iaith a gwblhawyd wedi cynyddu ychydig bach, mae cynnydd yn nifer y cyfeiriadau yn golygu bod hyn yn ganran sy'n llai.	Ystyrir dichonolrwydd mewn nosod ysgogiad ynglŷn â chwblhau'r maes dewis iaith wrth fewnbynnu asesiadau cychwynnol i PARIS. Caiff holiadur ar farn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ei ddatblygu i'w ddefnyddio yn ystod 2013/14 a bydd ar gael i'w ddefnyddio gan staff rheng flaen.
A1.5.6	Wrth i swyddi fod ar gael, ystyried yr opsiynau o recriwtio siaradwr Cymraeg.	Gwasanaethau Cymdeithasol; Adnoddau Dynol	Disgrifiadau swydd a manylebau person ar gyfer staff wedi'u hadolygu.	Yn dilyn adolygu'r fanyleb person i staff mewn swyddi derbynfa/ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid, bydd swyddi'n cynnwys y Gymraeg yn ddymunol.	Mae'r gallu i siarad Cymraeg wedi'i gynnwys fel agwedd ddymunol pan gaiff staff eu recriwtio i dimau cyswllt cyntaf. Mae Tîm Derbyn y Gwasanaethau i Oedolion wedi recriwtio un person a chanddo rhywfaint o allu, er nad yw'n rhugl yn y Gymraeg, ac mae wedi cytuno i gael mwy o hyfforddiant.
A1.5.7	Gwella hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn y Gymraeg.	Gwasanaethau Cymdeithasol,  Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i hwyluso ar draws y sector gofal cymdeithasol.	Bydd cyhoeddusrwydd mwy helaeth am y cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein, a bydd ar gael i aelodau Adran y GC.  Ymchwilir i hyfforddiant penodol wedi'i dargedu i Adran y GC a'r modd o'i gyflwyno;  Llunio a threialu sesiwn elfennau, sillafu ac ynganu sylfaenol yn y Gymraeg gyda'r AGC gyda'r	Yn ystod gwanwyn/haf 2013 roedd cyfres o erthyglau yn y cylchlythyr i staff wedi darparu gwybodaeth ac arweiniad am faterion y Gymraeg, gan gynnwys Fframwaith Mwy na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol. Mae staff sy'n siarad Cymraeg wedi'u hannog i wisgo'r logo 'Iaith Gwaith'. Cynhaliwyd cwrs undydd i staff sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith Gymraeg ym mis Mawrth.

				posibilrwydd o'i chyflwyno'n fwy cyffredinol ar draws yr awdurdod.	
A1.5.8	Profiadau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith ar gael fel enghreifftiau o arfer da neu wael.	Gwasanaethau Cymdeithasol,  Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i hwyluso ar draws y sector gofal cymdeithasol.	Bydd hysbysebu gwybodaeth a ddarperir yn allanol (e.e. clipiau fideo o 'Mwy na Geiriau') yn cael ei ddatblygu;	Eir i'r afael â hyn drwy Gynllun Gweithredu MnaG. Mae clipiau fideo MnaG wedi'u cyfeirio i rai aelodau o staff penodol.  Gweler hefyd A1.5.4
A1.5.9 (NEW YDD)	Sicrhau cynnydd wrth roi Mwy na Geiriau - Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol - ar waith	Gwasanaethau Cymdeithasol,  Y Tîm Mynediad i Wasanaethau	Gwasanaethau Cymraeg ar gael yn fwy eang ac yn cael eu hyrwyddo'n fwy rhagweithiol	Mae Cynllun Gweithredu tair blynedd gyda chymau gweithredu penodol ar gyfer 2013-14, 2014-15 a 2015-16 wedi'i gynnwys yn y fframwaith, ac yn sail i'r adolygiad.	Gweithredir ar Mwy na Geiriau (MnaG) trwy gamau eraill yn y cynllun hwn (gweler A1.5.1 et al)



## A1.6. Camau gweithredu ar gyfer Addysg

### Adran Addysg

Sylwer bod pob eitem yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn

	Gweithredu Angenrheidiol	Cyfrifoldeb	Canlyniad a ddisgwylir	Statws	Y diweddaraf 2013-2014
A1.6.1	Sicrhau cyflwyno'r Cynllun Addysg Gymraeg.	Addysg	Bydd yr Adran Addysg yn diwallu anghenion Cymraeg drwy ei Gynllun Addysg Gymraeg ei hunan.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd y Cynllun Addysg Gymraeg ei ddisodli gan Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) 2012-15 o 1 Ebrill 2012. Hwn fydd y cynllun statudol o fis Ebrill 2013. Ar gael yn: <a href="http://www.abertawe.gov.uk/wes">www.abertawe.gov.uk/wes</a></li> <li>• WESP drafft wedi'i gymeradwyo gan LIC 30/03/12</li> </ul>	Yn ôl rheoliadau yng Nghymru, mae'n ofynnol i bob cyngor lunio Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (WESP). Mae'n rhaid i bob cyngor gyhoeddi ei gynllun cyntaf erbyn 1 Mehefin 2014 a'i fonitro'n flynyddol ar ôl hynny. Rhagnodir cynnwys CSGA gan Lywodraeth Cymru. Yn sgîl ymgynghori, mae'r cyngor wedi cytuno ar WESP newydd ar gyfer 2014-2017 ac mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
A1.6.2	Parhau â'r arfer da a chynnal y gwasanaeth o ran gwasanaethau cefnogi cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ysgolion.	Addysg	Ymateb i alw newidiol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygwyd gwasanaethau i gefnogi'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf ac Ail Iaith yn haf 2011 i fodloni gofynion y Strategaeth Genedlaethol ac i ysgrifennu'r WESP cyntaf.</li> <li>• Gwnaed gwelliannau i gefnogaeth y Gymraeg fel Ail Iaith mewn ysgolion cynradd Saesneg ar gais penaethiaid. Ailffocyswyd y tîm Athrawon Bro i gynnig cefnogaeth glwstwr a'u hailenwi'n Athrawon Datblygiad Ieithyddol. Y nod yn y tymor hir</li> </ul>	Mae perfformiad yn y Gymraeg Ail Iaith yn gwella ar draws pob cyfnod allweddol. Mae'r ysgolion hynny lle cafwyd argymhelliad yn eu hadroddiadau arolygiad i wella agweddau ar y Gymraeg ail iaith yn derbyn cefnogaeth ar gyfer eu cynlluniau gweithredu gan Swyddogion Datblygu Ieithyddol yn y cyfnodau cynradd ac uwchradd. Gwellodd <b>Cyfnod Allweddol 2 L4+</b> ym mhedwaredd flwyddyn yr asesiadau athrawon – o 36.4% i 47.8% i 59.1% i 67.5%. Mae ysgolion yn fwy hyderus

				<p>yw y bydd y tîm hwn yn gweithio ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynigir darparu cyrsiau i athrawon Cymraeg Ail Iaith i ddarparwr allanol.</li> <li>• Cefnogaeth i'r Gymraeg fel Ail Iaith mewn ysgolion uwchradd Saesneg yn cael ei chynnal.</li> <li>• Cefnogaeth i'r Gymraeg Iaith Gyntaf y cael ei chynnal./ Darpariaeth i 'hwyrddyfodiaid' i addysg Gymraeg yn digwydd bellach yn yr ysgolion (nid mewn canolfan).</li> </ul>	<p>wrth asesu ac wedi gwella safoni a chymedroli er mwyn cael gwell cysondeb gyda chefnogaeth Tîm Datblygu Ieithyddol yr awdurdod lleol (Athrawon Bro).</p> <p><b>Cyfnod Allweddol 3</b> - Cafwyd gwelliant da mewn safonau yn ystod y pum mlynedd diwethaf (yn yr 8fed safle yn 2012 ac yn uwch na Chymru, er ychydig yn is na Chymru yn 2013, ac yn y 13eg safle) gan fod ysgolion uwchradd wedi gweithio gyda'i gilydd gyda'r awdurdod a'u hysgolion cynradd clwstwr i wella darpariaeth, safoni asesu ac annog disgyblion i barhau i ymwneud â'r iaith.</p> <p><b>Cyfnod Allweddol 4</b> - Yn gyffredinol mae nifer y disgyblion nad ydynt yn sefyll unrhyw arholiad yn y Gymraeg Ail Iaith wedi disgyn yn gyson o 61.7% yn 2009 i 31.4% yn 2013. Mae'r Swyddog Datblygu Ieithyddol (Cymraeg Ail Iaith Uwchradd) gydag arian WEG wedi bod yn allweddol wrth gydlynw a hyrwyddo'r iaith dan arweiniad PACA a Phenaethiaid Uwchradd. Mae safonau TGAU disgyblion sy'n astudio'r cwrs llawn yn dda ond mae'r ganran o'r garfan sy'n gwneud hynny'n isel. Yn CA4, cyflawnodd 94.6% o'r rhai a gynigiodd am y Gymraeg Ail Iaith TGAU radd C neu fwy yn 2013; roedd canlyniadau yn y 4 blynedd flaenorol o gwmpas 83-90% gyda thuedd ar i fyny.</p>
--	--	--	--	--	---

					<p>Canlyniad Cymru Gyfan yn 2013 oedd 76.8%. Mae'r nifer sy'n astudio'r Cwrs Cymhwysol newydd yn cynyddu. Llwyddodd canran uwch i gyflawni A*-C yn y Cwrs Byr Cymhwysol newydd ond mae angen gwella'r graddau uchaf (A*, A, B) eto. Mae darpariaeth Cyfnod Allweddol 5 yn gwella. Ailsefydlodd Ysgol Gyfun yr Olchfa yn unig gwrs Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch mewn ysgol yn Abertawe yn 2010 ac mae'r nifer sy'n astudio'r pwnc yn cynyddu. Mae PACA wedi bod yn ymchwilio i'r ddarpariaeth allanol i ddisgyblion sy'n symud ymlaen o ysgolion 11-16 oed. Mae Coleg Gŵyr Abertawe'n cynnig Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch ac yn 2013, llwyddodd pob un o'r 9 o fyfyrwyr yn yr arholiad.</p> <p>Mae <b>Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe</b>, sy'n cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg mewn addysg, yn dangos sut mae gwaith partneriaeth effeithiol wedi arwain at ddeilliannau gwell mewn addysg Gymraeg ar draws yr holl gyfnodau allweddol.</p> <p>Mae'r gefnogaeth i'r Gymraeg Ail Iaith wedi arwain at well deilliannau yn CA2 a CA3 a mwy o ddisgyblion yn cymryd Cymraeg Ail Iaith yn CA4. Bydd cysylltiadau newydd â sefydliadau AU yn 2012 yn cryfhau'r bartneriaeth. Mae effeithiolrwydd PACA wedi'i gadarnhau</p>
--	--	--	--	--	--

					gan Gomisiynydd y Gymraeg ac Uned y Gymraeg mewn Addysg. Mae Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG) yn herio ac yn cefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg yn Abertawe.
A1.6.3	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o ofynion yr Uned Gyfieithu er mwyn ateb terfynau amser.	Pob Cyfarwyddi aeth	Yr Uned Gyfieithu yn gallu trefnu eu llwyth gwaith yn well ac ateb y galw ar draws y cyngor.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Uned Gyfieithu'n parhau i ddarparu gwasanaeth o safon.</li> <li>• Mae datblygu'r Uned Gyfieithu i ddarparu gwasanaethau i sefydliadau y tu allan i'r cyngor yn lleol ac yn rhanbarthol yn cael ei archwilio.</li> </ul>	<p>Mae llwyth gwaith parhaus yr Uned Gyfieithu wedi golygu nad yw'r opsiwn i ddarparu gwasanaethau allanol wedi'i ddatblygu eto.</p> <p>Mae'r uned yn parhau i gynnal safon y gwasanaeth. Mae proffil uwch y Gymraeg ar draws yr awdurdod wedi ysgogi mwy o gysylltu cynnar â'r uned a'r defnydd ohoni gan adrannau.</p> <p>Mae gwasanaeth prawf ddarllen yr uned yn cael ei ddefnyddio fwyfwy yn ystod cynllunio a chynhyrchu deunydd dwyieithog.</p>
A1.6.4 - A1.6.6		Wedi'u trosglwyddo			Wedi'u hailrifo fel A1.9.1 – A1.9.3

<b>A1.7. Camau Gweithredu ar gyfer yr Amgylchedd</b>					
<b>Adran yr Amgylchedd</b>					
<b>Sylwer bod pob eitem yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn</b>					
	<b>Gweithredu Angenrheidiol</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Canlyniad a ddisgwylir</b>	<b>Statws</b>	<b>Y diweddaraf 2013-2014</b>
A1.7.1	Ymchwilio i'r posibilrwydd o linell ffôn Gymraeg ar draws meysydd gwasanaeth gwahanol mewn canolfannau cyswllt.	Amgylchedd	Dichonoldeb pwynt cyswllt Cymraeg unigol ar wahân ar gyfer ymholiadau amgylcheddol cwsmeriaid.	Penderfynwyd bod y fenter i uno canolfannau galwadau ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth yn rhy ddrud. Wrth i swyddi gwag godi, byddwn yn mynd ati i recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi trafod galwadau ffôn yng nghanolfan alwadau adran yr Amgylchedd.	<p>Mae'r nod i dargedu siaradwyr Cymraeg wrth recriwtio'n parhau - ond nid oedd swyddi gwag wedi codi yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Penodwyd Ymgynghorydd Gwasanaeth Cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg yng Nghanolfan Alwadau'r Amgylchedd, ond mae bellach wedi derbyn swydd y tu allan i'r awdurdod.</p> <p>Ar hyn o bryd yn gweithio gyda Swyddog Polisi'r Gymraeg i sefydlu cyrsiau ar gyfer staff.</p>
A1.7.2  A1.8.1 1 gynt	Cynnal lefelau gwasanaeth cyfredol.	Cludiant	Dim dirywiad yn lefel y ddarpariaeth Gymraeg.	<p>Ar gyfer arwyddion traffig, rydym yn dilyn gweithdrefnau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Uned Gyfieithu'r cyngor yn darparu gwasanaeth prawf-ddarllen cyn cynhyrchu ar gyfer arwyddion drafft i leihau gwallau argraffu.</p> <p>Rydym yn defnyddio'r Uned Gyfieithu ar gyfer gohebiaeth a</p>	Lefelau'r gwasanaeth wedi'u cynnal

				dderbynnir yn Gymraeg ac i ymateb yn yr un iaith.	
--	--	--	--	---	--

**A1.8. Camau Gweithredu ar gyfer Adfywio a Thai**

**Y Gyfarwyddiaeth Adfywio**

**Sylwer bod pob eitem yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn**

	<b>Gweithredu Angenrheidiol</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>Canlyniad a ddisgwylir</b>	<b>Statws</b>	<b>Y diweddaraf 2013-2014</b>
A1.8.1	Darparu mwy o chwaraeon/chwar ae Cymraeg mewn canolfannau hamdden a lleoliadau eraill drwy gydweithio gyda phartneriaid yn fewnol ac yn allanol.	Diwylliant a Thwristiaeth	Mwy o bobl yn defnyddio darpariaeth Gymraeg.	Mae hyn yn ymateb i'r galw a bydd Diwylliant a Thwristiaeth yn ystyried cynyddu'r ddarpariaeth wrth i'r cyfle godi	<p>Mae'r cynnig ar gyfer gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael o hyd mewn mannau dethol (os oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael).</p> <p>Mae'r gwasanaeth 5x60 yn gweithio bellach gyda'r Urdd gan gynnis/hyrwyddo'r gweithgareddau maent yn eu cynnal ar ôl ysgol drwy'r sir. Mae swyddogion yr Urdd yn dod i gyfarfodydd PIA o bryd i'w gilydd i gael y diweddaraf ac i rwydweithio.</p> <p>Mae cyflwyno'r gwasanaeth mewn ysgolion Cymraeg cynradd ac uwchradd wedi parhau (drwy'r swyddog Pobl Ifanc Actif sy'n siarad Cymraeg a hyfforddwy'r cymunedol) ynghyd â recriwtio a hyfforddi llysgenhadon ifanc aur ac arian o'r ddwy ysgol uwchradd Gymraeg. Rydym yn bwriadu cyflwyno hyfforddiant llysgenhadon efydd drwy'r holl ysgolion cynradd Cymraeg.</p>
A1.8.2	Llyfrgelloedd:	Diwylliant a Thwristiaeth	Defnydd ehangach o gasgliad	- Arddangosfa ddwyieithog sy'n cynnwys yr Eisteddfod, a gynhaliwyd yn y Llyfrgell Ganolog	Mae ein Timau Astudiaethau Lleol a Llinell Llyfrgell yn bwriadu cynhyrchu arddangosfeydd, a phob un yn

	<p>- hyrwyddo'r casgliad cyfeirio Cymraeg</p> <p>- cynyddu'r defnydd o lyfrau Cymraeg drwy eu hyrwyddo ym mhob llyfrgell, gan gynnwys llyfrgelloedd teithiol</p> <p>- targedu darllenwyr hŷn ac iau o ran y ddarpariaeth Gymraeg.</p>		<p>Cymraeg llyfrgelloedd.</p> <p>Niferoedd cynyddol o lyfrau Cymraeg ar gael ym mhob llyfrgell.</p>	<p>am gyfnod o 2 fis i hyrwyddo'r Casgliad Cymreig.</p> <p>- Bwriedir digideiddio mwy o ddeunyddiau'n ymwneud â'r Eisteddfod yn Abertawe yn ystod y 1950au yn ystod 2012 i ychwanegu at y casgliad presennol ar gyfer arddangosfeydd yn y dyfodol.</p> <p>- Cynllunnir arddangosfeydd yn Gymraeg ar draws sawl safle yn ystod 2012.</p> <p>- Llyfr Cymraeg y Flwyddyn a Grŵp Darllen Cymraeg eisoes yn cael eu cynnal ym Mhontarddulais eleni a chynlluniau i ddatblygu ymhellach yn 2011/12. Dechreuodd Grŵp Darllen Cymraeg newydd yn y Llyfrgell Ganolog yn 2012 ynghyd ag Amser Rhigwm Cymraeg i blant bach.</p>	<p>defnyddio deunyddiau dwyieithog.</p> <p>Mae rhestr lyfrau canmlwyddiant Dylan Thomas yn cael ei llunio sy'n cynnwys hyrwyddo teitlau Cymraeg.</p> <p>Yn ystod mis Mawrth, cynhaliodd y Llyfrgell Ganolog arddangosfa a oedd yn para mis gan aelodau o Fforwm Iaith Abertawe i hyrwyddo amrywiaeth o sefydliadau a chyfleoedd Cymraeg sydd ar gael ar draws yr ardal.</p> <p>Seren Gomer - yn 2014 cafwyd dathliad mawr yn y llyfrgell i ddathlu canmlwyddiant Seren Gomer, y papur newydd Cymraeg cyntaf a argraffwyd yn Abertawe ym 1814.</p> <p>Cafwyd arddangosfa ddwyieithog yn y llyfrgell ganolog rhwng mis Ionawr a mis Mai 2104 ynghyd â sgwrs yn Saesneg ar hanes y papur newydd. Ailadroddwyd y sgwrs yn Gymraeg mewn lleoliad arall.</p> <p>Cafwyd llawer o gyhoeddusrwydd i ganmlwyddiant Seren Gomer gan y cyfryngau Cymraeg, gan gynnwys rhaglen 45 munud ar S4C y cafodd rhan helaeth ohoni ei ffilmio yn y llyfrgell. Roedd hyn oll wedi helpu i dynnu sylw at gasgliadau Cymraeg y gwasanaeth llyfrgelloedd.</p>
				<p>- Rydym yn parhau i gefnogi a gweithio gyda'r Cyngor Llyfrau Cymraeg gyda mentrau</p>	<p>Mae'r Llyfrgell Ganolog wedi cynnal sesiynau Scrabble yn Gymraeg ac ar hyn o bryd, mae'n cynnal Amser</p>



				<p>hyrwyddol a phrosiectau gan gynnwys Gwobrau Tir Na Nog i blant a phobl ifanc am ysgrifennu yn Gymraeg neu Saesneg gyda chefnidir Cymraeg.</p> <p>- Mewn partneriaeth, rydym wedi lloïo'n llwyddiannus, ac o ganlyniad, cyhoeddwyd 4 teitl Cymraeg print mawr eleni.</p>	<p>Rhigwm Cymraeg bob wythnos ar y cyd â TWF.</p> <p>Cynhelir amserau rhigwm Cymraeg yn Llyfrgell Pontarddulais gan Fenter Iaith Abertawe. Mae hefyd yn cynnal grŵp darllen Cymraeg.</p> <p>Mae dwy ysgol yn gweithio gydag artist cymunedol lleol i ddod â stori Charlie a Lola'n fyw a chynhyrchu arddangosfeydd celf ar gyfer yr ysgol a'r llyfrgell leol.</p> <p>Mae'r plant yn cael eu cefnogi i lunio'u llyfr eu hunain gan ddefnyddio i-Pads.</p> <p>Mae aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn Llyfrgell Treforys wedi cwblhau sesiwn stori a chanu Pori Drwy Stori Gymraeg yn Llyfrgell Sgeti gydag Ysgol Bryn-y-môr. Mae hefyd wedi gweithio gydag Ysgol Tan y Lan and Ysgol y Cwm ar gyfer amserau stori a chyfnewid llyfrau.</p> <p>Cyflwynwyd sesiynau stori a chân Gymraeg i'r cyhoedd hefyd.</p> <p>[Gweler hefyd A1.8.5]</p>
A1.8.3	Parhau â mewnbwn a chefnogaeth y cyngor i ddigwyddiadau Cymraeg fel Tyrfe Tawe.	Diwylliant a Thwristiaeth	Gwell proffil o'r cyngor yn y gymuned Gymraeg.	<p>- yn amodol ar adnoddau, bydd Diwylliant a Thwristiaeth bob amser yn ceisio cefnogi digwyddiadau Cymraeg ac yn ystod y cyfnod, mae wedi cefnogi</p> <p>- gweithgareddau amrywiol</p>	Theatr y Grand - un sioe Gymraeg yn unig a ychwanegwyd at y rhaglen yn 2013-14 sef sioe i blant ond dim ond 93 ddaeth i'w gweld. Mae sioeau o'r fath yn gwneud colled ac mae wedi dod yn gynyddol anos i'r Theatr barhau i ariannu'r mathau hyn o sioeau. Yn lle

				<p>Eisteddfod yr Urdd gan gynnwys cynnal y gystadleuaeth Gelf a Chrefft yn Neuadd Brangwyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- ein Gŵyl Ddewi flynyddol gyda chynnwys Cymraeg a Saesneg yn y gyngerdd Sant, Caneuon a Dathlu gan ysgolion lleol;</li> <li>- dangos ffilmiau Cymraeg gydag is-deitlau Saesneg (Ryan a Ronnie; Martha, Jac a Sianco);</li> <li>- Cyngherddau clasurol a phoblogaidd gyda chyflwynydd dwyieithog a rhai eitemau yn y Gymraeg.</li> </ul> <p>- Twmpath yn Neuadd Brangwyn</p>	<p>hyn, mae'r Theatr yn mynd ati i chwilio am raglenni masnachol Cymraeg sy'n debygol o fod yn llwyddiannus yn fasnachol, gan olygu y bydd yn fforddiadwy cynnal y sioeau hyn yn y theatr (yn y gorffennol, mae sioeau Cymraeg wedi gwneud colled ac nid yw'n fforddiadwy bellach i barhau i'w cynnal).</p>
A1.8.4	Cynyddu mewnbwn/cyfrangiad Cymraeg (bandiau Cymraeg etc.) mewn digwyddiadau mawr a drefnir gan y cyngor.	Diwylliant a Thwristiaeth	Ystyried cynnwys elfen Gymraeg wrth gynllunio digwyddiadau.	Ble bynnag y bo'n bosibl, bydd Diwylliant a Thwristiaeth yn ceisio cynyddu'r cynnwys Cymraeg fel rhan o ddigwyddiadau. Gofynnir i sefydliadau partner megis y cyfryngau a hyrwyddwyr i ystyried hyn a'i roi ar waith fel rhan o unrhyw weithgaredd ar y cyd.	Mae digwyddiadau arbennig yn parhau i gynnwys y Gymraeg yn ei ddigwyddiadau, yn bennaf drwy ddefnyddio sylwebaeth ddwyieithog mewn digwyddiadau megis y Sioe Awyr Genedlaethol, Cymreigiwch (diwylliant Cymraeg a gweithgareddau dwyieithog) a'r Sioe Tân Gwyllt ac yng nghyngherddau'r Nadolig yng Ngolau Cannwyll Neuadd Brangwyn.
A1.8.5	Cynyddu'r nifer sy'n derbyn darpariaeth Gymraeg mewn	Diwylliant a Thwristiaeth	Mwy o hysbysebion gwell a hynny wedi'u	Mae'r holl ddeunydd hysbysebu a gynhyrchir gan dîm y Gwasanaethau Marchnata, Diwylliant a Thwristiaeth yn	Gwnaed gwelliannau i lyfryn tymhorol Theatr y Grand gyda mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, yn amodol ar gyfyngiadau cyllidebol.

	gwahanol wasanaethau drwy wella hysbysebu a'i dargedu (yn enwedig ar y we) gan gynnwys marchnata Theatr y Grand.		targedu am ddigwyddiad au Cymraeg.	ddwyieithog.  Cynlluniau marchnata gan gynnwys targedu cyfryngau Cymraeg penodol ar gyfer hyrwyddo cynnyrch perthnasol e.e. Gŵyl Ddewi  - Mewn llyfrgelloedd, mae benthyca deunydd Cymraeg i blant wedi cynyddu 4.7% dros y cyfnod.  - Dechreuodd Grŵp Darllen Cymraeg newydd yn y Llyfrgell Ganolog yn 2012 ynghyd ag Amser Rhigwm Cymraeg i blant bach.	Llyfrgelloedd - bwriedir cynnal nifer o arddangosfeydd yn 2013-14 gan ein Timau Astudiaethau Lleol a Llinell Llyfrgelloedd, gan gynnwys Y Rhyfel Byd Cyntaf, Emily Phipps, y swffragét o Abertawe a chanmlwyddiant Dylan Thomas, i ddathlu canmlwyddiant ei eni, a'r cyfan yn cynnwys deunyddiau dwyieithog.  Mae ein swyddogion Dechrau Da/Dechrau'n Deg yn gweithio gydag ysgolion Cymraeg a Saesneg lleol ac yn eu gwahodd i sesiynau stori a chreffft yn eu llyfrgelloedd lleol; mae'r sesiynau hyn yn seiliedig ar y llyfrau a roddwyd am ddim drwy brosiect Pori Drwy Stori. [gweler A1.8.2 hefyd]
A1.8.6	Amserlen o ddisodli arwyddion dros dro â rhai newydd wedi'i rhoi ar waith a'i monitro.	Diwylliant a Thwristiaeth	Amnewid yn unol â'r amserlen fel y cytunwyd arni gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.	Addawodd y tîm Digwyddiadau Arbennig y byddai'n sicrhau bod yr holl arwyddion newydd a brynir yn ddwyieithog ac y byddai'r holl arwyddion uniaith presennol yn cael eu dileu'n raddol dros gyfnod o dair blynedd. Cyflawnwyd hyn ymhell o flaen y targed. Mae'r holl arwyddion newydd ar gyfer digwyddiadau ac arwyddion mewnl ac allanol eraill yn ddwyieithog	Dim newid – Wrth adnewyddu arwyddion, cânt eu disodli gan rai sy'n cydymffurfio â Chynllun Iaith yr awdurdod
A1.8.7	Adolygu trefniadau trydydd parti o ran	Diwylliant a Thwristiaeth		Mae gan Ddiwylliant a Thwristiaeth Uned Busnes a	Gyda Phwll Cenedlaethol Cymru, ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn hyn

	darparu a monitro'r Gymraeg gan gynnwys gwybodaeth ar gyfer DPIG 1 am wasanaethau hamdden.			Phartneriaeth sy'n parhau i fonitro partneriaethau hamdden megis yr LC, Pwll Cenedlaethol Cymru, y Ganolfan Bowls a'r Ganolfan Tennis. Mae Diwylliant a Thwristiaeth wedi cyngori partneriaid i wneud 'pob ymdrech resymol' i gyflawni ymrwymiad y cyngor i'r Cynllun Iaith Gymraeg. Lle bo cyfeiriad penodol at gydymffurfio mewn cytundebau cyfreithiol e.e. Bay Leisure Cyf/LC, mae'r monitro'n dangos eu bod yn parhau i gydymffurfio drwy wneud 'pob ymdrech resymol' megis sicrhau bod yr holl arwyddion a'r wybodaeth barhaol yn ddwyieithog a bod gwybodaeth dros dro ar gael yn Gymraeg ar gais. Ceir opsiwn hefyd i weld gwefan yr LC yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd gwefannau partneriaethau eraill hefyd yn cael eu hannog i fabwysiadu arferion tebyg, ond cânt eu monitro'n ffurfiol ar yr elfen benodol hon dim ond os yw wedi'i chynnwys yn y cytundebau cyfreithiol.	o beth hyd yma. Mae mater cydymffurfio llawn/rhesymol os ydynt yn derbyn dros £400k iddynt wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau monitro a gyflwynir i dîm rheoli Pwll Cenedlaethol Cymru, ac roedd hyn i'w roi gerbron bwrdd rheoli partneriaeth y pwll i drafod goblygiadau cost. Ni chafwyd ymateb hyd yn hyn, ac felly mae'r tîm rheoli wedi'u hatgoffa eto.  Erys yr holl wybodaeth arall fel y mae, ond rydym yn dal i gyd-drafod â'r Ganolfan Bowls ynglŷn â phrydles, ond bydd cymhorthdal yn is na'r lefelau.
A1.8.8	Cynnal a monitro lefelau cyfredol darpariaeth Gymraeg a	Tai	Cynnwys diweddariad blynyddol am ddarpariaeth	Mae'r ddarpariaeth Gymraeg mewn cyswllt wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac mewn dogfennau ysgrifenedig yn parhau i gael ei	Ers cynnwys Diogelu'r Cyhoedd yn yr ymarfer monitro (yn hytrach na'r Gwasanaeth Tai yn unig fel o'r blaen) cafwyd cynnydd mawr yn lefel y

	ddwyieithog.		ddwyieithog yn Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai.	monitro bob chwarter. Caiff y diweddaraf ei gynnwys yn adroddiad blynyddol nesaf y Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai	ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr ardal ddaearyddol y mae'r Gwasanaethau Cofrestru yn ei chynnwys lle ceir lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg. Y modd cyswllt mwyaf cyffredin yn Gymraeg bellach yw dros y ffôn, yna wyneb yn wyneb. Mae'r Gwasanaeth Landlordiaid yn cynnal ymarfer ar hyn o bryd i nodi'r ffurflenni a'r llythyrau safonol a ddefnyddir amlaf er mwyn sefydlu rhaglen gyfieithu. Mae'r holl ddogfennau sy'n cael eu hailargraffu'n yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae ffurflenni cais ar gyfer Tai a Throsglwyddo bellach ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae taflenni cyngor Opsiynau Tai yn y broses o gael eu diweddarau a chânt eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
A1.8.9	Hyrwyddo gwasanaeth iaith Gymraeg mewn derbynfeydd a thrwy gylchgrawn tenantiaid i gynyddu'r defnydd ohono.	Tai;  Mynediad i Wasanaethau	Deunyddiau hyrwyddo ar gael (drwy'r Tîm Mynediad i Wasanaethau) ac wedi'u harddangos; Canran uwch o gwsmeriaid yn gofyn am wasanaeth Cymraeg.	Mae cylchgrawn Tŷ Agored wedi parhau i gynnwys erthyglau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac annog tenantiaid i fanteisio ar y cynnig i dderbyn gwybodaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r archwiliad blynyddol o dderbynfeydd yn monitro ansawdd y deunyddiau hyrwyddol Cymraeg mewn derbynfeydd cyhoeddus.	Darperir cortyn gwddf "Cymraeg" i staff sy'n siarad Cymraeg i'w ddefnyddio gyda bathodyn ID. Parheir i gyhoeddi Tŷ Agored yn ddwyieithog, a cheir arwyddion hyrwyddo i gynnig gwasanaeth dwyieithog mewn derbynfeydd. Mae'r staff yn rhoi cyfarchiad ffôn dwyieithog
A1.8.1	Parhau i hyrwyddo	Tai	Staff tai yn	Hyrwyddwyd y Cynllun Iaith	Mae'r daflen gwybodaeth tîm ar gyfer

0	hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff yn y Llawlyfr Sefydlu ar-lein a Llawlyfr Gwybodaeth Gwasanaethau i Gwsmeriaid.		ymwybodol o hanes/cyd-destun y Gymraeg yn yr ardal.	Gymraeg i staff ym mis Rhagfyr 2011 drwy'r Daflen Gwybodaeth Tîm. Diweddarwyd y rhestr o siaradwyr Cymraeg ddiwethaf ym mis Ionawr 2012 a'i dosbarthu i'r holl staff, a'i chynnwys yn Llawlyfr Gwybodaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid, y llyfryn Sefydlu a'r Fewnrwyd.	mis Mehefin 2013 a mis Mai 2014 yn atgoffa staff o'u cyfrifoldebau o ran y Cynllun Iaith Gymraeg a'r cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae Llyfryn Sefydlu'r Adran Tai yn annog staff i ddilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gronfa e-ddysgu.
A1.8.11					Wedi'u trosglwyddo

## A1.9. Camau Gweithredu ar gyfer Tlodi ac Atal Tlodi

### Cyfarwyddiaeth Pobl

Sylwer bod pob eitem yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei hadolygu bob blwyddyn

	Gweithredu Angenrheidiol	Cyfrifoldeb	Canlyniad a ddisgwylir	Statws	Y diweddaraf 2013-2014
A1.9.1 - A1.6.4	<p>Datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Menter Iaith Abertawe i ddatblygu, mewn partneriaeth, ddarpariaeth Gymraeg a gallu mewnol o fewn gwaith ieuenctid a chwarae dros y tair blynedd nesaf. Fe fydd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>o Staff y Fenter yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y cyd i sicrhau ymagwedd gyson</li> <li>o Cynnwys y Fenter mewn trafodaethau Cynllunio a Pholisi</li> </ul>	Tlodi ac Atal Tlodi	<p>Gwell cysylltiadau rhwng y cyngor a Menter Iaith Abertawe.</p> <p>Mwy o weithio ar y cyd yn ffurfiol - ymagwedd fwy integredig</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi datblygu protocolau clir i gefnogi a datblygu gwaith ieuenctid yn y Gymraeg yn Abertawe.</li> <li>• Mae'r gwasanaeth Ieuenctid wedi datblygu darpariaeth well yn y Gymraeg gan gynnwys CLG 2 flynedd gyda Menter Iaith a fydd yn darparu gwaith ieuenctid â thystiolaeth glir ohono gyda phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg; sefydlu cynrychiolaeth gan bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn y fforwm Ieuenctid newydd yn Abertawe - Llais Pobl Ifanc Abertawe. Darparu hyfforddiant gwaith ieuenctid ar gyfer gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg ledled Abertawe yn y sector statudol a gwirfoddol.</li> <li>• Ymchwilir i fwy o gysylltiadau gwell â sefydliadau allanol megis Menter Iaith Abertawe o dan y WESP newydd.</li> </ul>	<p>Mae Menter Iaith Abertawe (MIA) wedi bod yn cyflwyno'i darpariaeth yn unol â strategaeth weithrediadol gyfredol y Gwasanaethau Ieuenctid ar draws Dinas a Sir Abertawe.</p> <p>Addaswyd y CLG cyfredol a chyflwynwyd y cynllun gwaith i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15. Cytunwyd ar gronfa o £25k i barhau â'r gwaith Cymraeg a dwyieithog.</p> <p>Mae staff MIA bellach yn gallu dangos tystiolaeth glir o'r gwaith a wnaed drwy system rheoli gwybodaeth Cognisoft, sy'n destun sicrhau ansawdd bob mis a phob chwarter.</p>

	Cymryd rhan mewn cynigion ar y cyd (DASA a'r Fenter) i ddatblygu gwasanaeth yn y ddau faes hyn.				
A1.9.2 - A1.6.5	Blaenoriaethu darpariaeth gyfredol mewn rhai meysydd, e.e. er mwyn hybu diwylliant dwyieithog a Chymraeg mewn clybiau ieuenctid penodol. Bydd hyn yn cynnwys gwella, er enghraifft, arwyddion, deunydd darllen sydd ar gael, adnoddau ac ati ble bynnag y maent yn cael eu cynnal yn ogystal ag yng Nghanolldre.	Tlodi ac Atal Tlodi	Proffil uwch i'r iaith Gymraeg ar draws Adfywio Cymunedol – yn enwedig darpariaeth ieuenctid.	<p>Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynrychioli ar y Rhwydwaith Cefnogi Ieuenctid (neu unrhyw strwythurau wedi hyn).</p> <p>Cefnogi recriwtio a dewis Cymry Cymraeg ar gyfer swyddi Gwaith Ieuenctid yn y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Darparwyd cefnogaeth i'r Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn cyflwyno Gwobr Dug Caeredin i grwpiau/bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cael gwybod am ddata perthnasol sy'n ymwneud â siaradwyr Cymraeg ifanc.</p> <p>Mae gan Fenter Iaith Abertawe gyfrifoldeb am sicrhau bod pobl ifanc yn ymwneud â datblygu</p>	<p>Mae staff MIA yn mynychu cyfarfodydd ar draws y rhwydwaith GI yn rheolaidd, gan rannu gwybodaeth a chynnig arweiniad ar gynllunio a chyflwyno cyfleoedd dwyieithog.</p> <p>Mae rheolwr MIA yn rhan o waith partneriaeth a chyfarfodydd sicrhau ansawdd sy'n arwain ac yn llunio'r gwaith.</p> <p>Mae staff y GI yn hysbysu pobl ifanc ac oedolion o'r cyfleoedd recriwtio sydd ar gael drwy'r gwasanaeth.</p> <p>Pan gaiff hysbysebion y Gwasanaeth Ieuenctid eu cyflwyno, mae brawddeg ar y gwaelod yn dweud bod y gwasanaeth yn ceisio datblygu cyfleoedd gwaith ieuenctid dwyieithog ac rydym yn annog ymgeiswyr sy'n gallu cyfathrebu drwy'r Gymraeg i wneud cais.</p>



				cynnwys gwefan Shouttawe trwy gyfrwng y Gymraeg.	
				<p>Mae staff y Fenter Iaith wedi datblygu a chyflwyno rhaglen gwaith ieuencid cynlluniedig i bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yng Ngorseinon, Clydach, Penlan a thrwy Raglenni Haf y Gl.</p> <p>Mae staff y Fenter Iaith mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuencid wedi cyflwyno sesiynau sy'n hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru fel rhan o raglenni gwaith ieuencid rhyngwladol Cyfnewid Ieuencid a Mentrau Ieuencid.</p> <p>Mae gwaith yn parhau gyda'r ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuencid ehangach, e.e. y Prosiect Gwaith Ieuencid Gwledig a'r Prosiect Ymgysylltu, gyda'r bwriad o sefydlu trafodaeth reolaidd a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.</p> <p>Cyflwynwyd y rhaglen gyfnewid 4 Cornel dros y ddwy flynedd diwethaf gyda 12 o bobl ifanc.</p>	Cyfleoedd dwyieithog wedi'u cyflwyno gan MIA a staff y Gwasanaeth Ieuencid drwy ddarpariaeth mewn 3 chanolfan Gl yn Stadwen, Blaenymaes a Gorseinon.
A1.9.3	Adolygu trefniadau trydydd parti o ran	Tlodi ac Atal Tlodi		Mae cyfleoedd ar gael hefyd i ymgynghori â phobl ifanc trwy	Disgwylir y bydd staff MIA yn bresennol mewn sawl cyfarfod ar draws y flwyddyn

<p>- A1.6.6 gynt</p>	<p>y ddarpariaeth Gymraeg a'i monitro gan gynnwys gwybodaeth ar gyfer DFIG1 o ran gwasanaethau ieuenctid a darpariaeth cyn ysgol.</p>			<p>gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r rhaglen cyfranogiad.</p> <p>Mae staff y Fenter Iaith wedi mynychu cyfarfodydd ac wedi cynghori ar faterion y Gymraeg wrth gynllunio'r Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid a'r ddarpariaeth.</p>	<p>i ddiweddarau'r wybodaeth am faterion y Gymraeg ac i gefnogi staff i gynllunio a threfnu eu rhaglenni o gwmpas y datganiad cwricwlwm.</p>
------------------------------	---	--	--	--	--

## Atodiad 2 - Proffil y Gymraeg


### Cymharu siaradwyr Cymraeg Adrannau Etholiadol Abertawe 2001 - 2011

Adran Etholiadol	2001		2011		Newid	
	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran
Bonymaen	649	10.3	582	8.8	-67	-1.5
Casllwchwr Isaf	391	18.2	341	15.0	-50	-3.2
Casllwchwr Uchaf	614	21.6	451	16.8	-163	-4.8
Castell	1,050	8.8	1133	7.3	<b>83</b>	-1.5
Clydach	1,689	23.3	1466	20.3	-223	-3.0
Cwmbwrla	757	9.2	517	6.7	-240	-2.5
De Cilâ	218	9.5	148	6.8	-70	-2.7
Dyfnant	451	9.6	321	7.5	-130	-2.1
Fairwood	332	12.1	287	10.1	-45	-2.0
Glandŵr	490	8.1	369	6.3	-121	-1.8
Gogledd Cilâ	326	9.6	330	9.6	<b>4</b>	<b>0.0</b>
Gorseinon	557	17	529	12.8	-28	-4.2
Gŵyr	376	10.4	356	9.9	-20	-0.5
Llandeilo Ferwallt	323	9.7	268	8.4	-55	-1.3
Llangyfelach	850	19.3	815	16.9	-35	-2.4
Llansamlet	1,739	14.6	1914	13.9	<b>175</b>	-0.7
Mawr	793	44.6	686	38.3	-107	-6.3
Mayals	306	10.8	317	12.1	<b>11</b>	<b>1.3</b>
Mynydd-bach	1,009	11.6	841	9.8	-168	-1.8
Newton	361	11.6	327	10.1	-34	-1.5
Penclawdd	648	17.8	526	14.9	-122	-2.9
Penderi	811	7.4	850	7.4	<b>39</b>	<b>0.0</b>
Penllergaer	444	18.4	422	15.3	-22	-3.1
Pennard	259	9.9	264	10.1	<b>5</b>	<b>0.2</b>
Penyrheol	998	17.3	807	15.0	-191	-2.3
Pontarddulais	1,962	37.2	1910	31.6	-52	-5.6
Pontybrenin	852	21	663	17.0	-189	-4.0
Sgeti	407	6.5	463	6.7	<b>56</b>	<b>0.2</b>
St. Thomas	1,544	11.3	1529	10.9	-15	-0.4
Townhill	574	6.9	478	5.8	-96	-1.1
Treforys	2,428	14.6	1931	11.8	-497	-2.8
Tregŵyr	757	15.5	666	13.2	-91	-2.3
Uplands	1,503	11.3	1638	10.7	<b>135</b>	-0.6
West Cross	597	9.3	511	8.2	-86	-1.1
Y Cocyd	1,443	11.5	1260	9.8	-183	-1.7
Ystumllwynarth	427	10	416	10.3	-11	0.3
<b>Abertawe</b>	<b>28,938</b>	<b>13.0</b>	<b>26332</b>	<b>11.4</b>	<b>2606</b>	<b>-1.6</b>



Cyfrifiad 2011 : Sgiliau Iaith Gymraeg fesul Grŵp Oed (3 + oed)

Oed	Gallu siarad Cymraeg	Un sgil Cymraeg neu fwy	Dim sgiliau	% a chanddynt 1 sgil Cymraeg neu fwy	Cyfanswm
3-4	757	1025	4,217	19.55%	5,242
5-9	3098	4056	8,383	32.61%	12,439
10-14	3451	4863	8,351	36.80%	13,214
15-19	2455	3675	12,374	22.90%	16,049
20-24	1848	2942	17,578	14.34%	20,520
25-29	1329	2287	13,272	14.70%	15,559
30-34	1128	1954	12,435	13.58%	14,389
35-39	951	1978	12,735	13.44%	14,713
40-44	986	2173	13,756	13.64%	15,929
45-49	1027	2257	14,044	13.85%	16,301
50-54	1036	2217	12,939	14.63%	15,156
55-59	1121	2427	11,429	17.52%	13,856
60-64	1320	2767	12,209	18.48%	14,976
65-69	1413	2741	9,307	22.75%	12,048
70-74	1183	2237	7,871	22.13%	10,108
75-79	1056	2010	6,626	23.27%	8,636
80-84	829	1482	4,783	23.66%	6,265
85+	1022	1568	4,187	27.25%	5,755
	26,010	44,659	186,496	-	231,155

## Sgiliau Iaith Gymraeg fesul Grŵp Oed



# Sgrinluniau o ddata rhyngweithiol y cyfrifiad (yr iaith Gymraeg x iechyd/oed/etc.)



### **Atodiad 3 - Meysydd allweddol y gwaith a wnaed gan Fenter Iaith Abertawe**

- Clwb wythnosol i blant 8-11 oed wedi'i ailsefydlu yng Nghanolfan Gymunedol Gogledd Penlan
- Bore coffi wythnosol i rieni ym Mhenlan
- Peilot cyfnod penodol wedi'i gynnal o glwb ar ôl ysgol mewn partneriaeth ag Ysgol Gynradd Gendros.
- Cyfraniadau rheolaidd wedi'u gwneud at y Sgwrs Fawr trwy waith ieuenctid a chysylltiad â chlybiau ac ysgolion i gyfeirio cymunedau ymholi a thrafod materion penodol sy'n ymwneud â phobl ifanc.
- Cynnal amrywiaeth o ddiwyddiadau Cymraeg yn ystod y flwyddyn gan gynnwys gŵyl Tyrfe Tawe
- Hyrwyddo ymgynghoriadau'r cyngor e.e. trwy gronfa ddata o gysylltiadau
- Cefnogi CLG y Gwasanaeth Ieuenctid
- Cefnogi CLG y Gwasanaethau Plant
- Cefnogi gweithgareddau'r gwasanaethau hamdden gan gynnwys dosbarthiadau ffitrwydd i blant a sesiynau canu gyda babi yn y llyfrgell ganolog a llyfrgelloedd eraill
- Hwyluso a chadeirio Fforwm Iaith Gymraeg Abertawe sy'n rhannu gwybodaeth ac arfer da ac yn gwella gwaith partneriaeth.

## Atodiad 4 – Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer MnaG yn cynnwys tair blynedd (2013-2016).

Mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf (isod) yn manylu'r camau gweithredu hynny ar gyfer Blwyddyn Un 2013-2014 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Sylwer bod rhai o'r camau gweithredu y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol - wedi'u nodi fel Dd/B yn y tabl.

### Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GOFAL CYMDEITHASOL

#### 'Mwy na Geiriau...' - Blwyddyn 1

**Amcan strategol 1: Adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol i roi ymagwedd systematig at wasanaethau Cymraeg ar waith fel elfen annatod o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau**

Page 79

Canlyniad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
1. Pobl yn derbyn gofal sy'n sensitif i iaith, oherwydd bod y gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gofal cymdeithasol yn prif ffrydio gwasanaethau Cymraeg i bob agwedd ar gynllunio, comisiynu a chyflwyno.	1.1. Wedi'i gyfeirio gan Gyfarwyddwyr asesiadau o anghenion lechyd Cyhoeddus, bydd Cyngor Gofal Cymru, drwy weithio gyda NLIAH ac Uned y Gymraeg, yn cyhoeddi arweiniad ar sut i ddadansoddi anghenion iaith cymunedau.	Cyfarwyddwr lechyd Cyhoeddus, Cyngor Gofal Cymru, NLIAH ac Uned y Gymraeg.	DD/B	Drwy:  Dystiolaeth gan Arolygon Profiadau defnyddwyr a rhwydweithiau cynnwys/cyfranogi  Tystiolaeth mewn cynlluniau gwasanaeth



Canlyniad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
	1.2 Dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr adran i sefydlu eu proffil cymunedol o ran yr iaith Gymraeg a defnyddio'r wybodaeth yma fel sylfaen ar gyfer cynllunio gwasanaethau cymdeithasol.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr ALI	Llunio mapiau o Abertawe wedi'u tablu yn erbyn sgiliau'r iaith Gymraeg ac oed, wedi'u dosbarthu i'r Grŵp Uwch-reoli a'r Swyddogion Cynllunio. Llunio data cychwynnol ar gyfradd y siaradwyr Gymraeg fesul ward, a sicrhau ei fod ar gael. Mapiau rhyngweithiol manylach wedi'u llunio sy'n caniatáu dadansoddi data'n fanylach. (Gweler yr enghraifft yn Atodiad 2 adroddiad blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg) Yn ystod y flwyddyn nesaf, ymgwymerir â gwaith i bennu sut gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio cynllunio a chomisiynu gwasanaethau.	
2. Systemau TGCh yn cefnogi staff rheng flaen i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a gofalmwyr yn eu hiaith eu hunain.	2.1. Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith sensitifrwydd iaith (materion gofal o safon a chyfrifoldebau cyfreithiol sefydliadau) ymhlith staff TGCh sy'n cefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Rheolwr Gwasanaethau TGCh.	Cyfarfod yn cael ei gynnal gyda Rheolwr Gwasanaethau TGCh i drafod MnaG a materion sy'n codi o ran y Gymraeg a gaiff eu codi â'r fîm.	Drwy:  Tystiolaeth Systemau Cofnodi Defnyddwyr o ddogfennaeth gomisiynu TGCh.  Adborth gan staff ar allu i weithredu'n ddwyieithog.

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y blwch isod

**Amcan Strategol 2: Adeiladu ar arfer gorau cyfredol a chynllunio, comisiynu a darparu gofal yn seiliedig ar y 'Cynnig Gweithredol'**

Canlyniad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
<p>1. Yn unol â'r pwyslais ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru, cynyddu ymwybyddiaeth o'r 'Cynnig Gweithredol' ymhlith staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol.</p>	<p>1.3 Cymryd camau ymarferol i roi gwasanaeth y 'Cynnig Gweithredol' ar waith fesul cam, gan ddechrau gyda'r gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf a'r gwasanaethau gwybodaeth. Cofnodi pan fyddant yn gallu ymateb</p>	<p>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>	<p>i). Trafodaeth gydag Arweinydd Tîm Derbyn y Gwasanaethau i Oedolion ar sut gellir hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol Amlinellu'r archwiliad o sgiliau ieithyddol a gynhaliwyd Hyfforddiant i staff derbynfydd wedi'i nodi fel angen Caiff anghenion iaith eu hystyried wrth recriwtio yn y dyfodol ii). Cyfarfod wedi'i gynnal ynglŷn â chofnodi dewis iaith am fod y ffigurau cyfredol a gofnodir yn isel iawn ar gyfer siaradwyr Cymraeg, gyda llai na 40 ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf (llai na 0.5%, yn sylweddol llai na chanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth) Gweithredu: Mae angen ymagwedd fwy cyson at gofnodi prif iaith pobl ac annog staff wrth gyfeirio pobl at yr Adran i gasglu'r wybodaeth yma'n fwy cyson - gofynnwyd i SMG hyrwyddo cofnodi iaith yn well. Ymchwilir i'r posibilrwydd o gynnwys ysgogiad yn PARIS i gofnodi prif iaith defnyddiwr gwasanaeth.</p>	<p>Drwy:  Systemau sefydledig megis arolygon staff, DS mewnol a rhaglenni datblygu staff.</p>

Canlyniad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
4. Caiff defnyddwyr a gofalwyr eu grymuso os ydyn yn gallu siarad â staff yn eu hiaith gyntaf	4.1 Hyrwyddwyr y Gymraeg yn Adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac adrannau AD awdurdodau lleol i ledaenu arfer da cyfredol, yn enwedig i benaethiaid gwasanaeth.	Hyrwyddwyr y Gymraeg ac adrannau AD yr awdurdod lleol.	Hyrwyddwr wedi'i benodi yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cadeirio'r Grŵp Llywio.	Parhaol
	4.4 Annog staff gofal cymdeithasol a'r gwasanaeth cymdeithasol i wisgo'r logo "Iaith Gwaith" a chynnwys y logo "Iaith Gwaith" ar y gwisgoedd a ddarperir i rai gweithwyr.	Comisiynwyr a darparwyr.	<p>i). Mae erthyglau am <i>Mwy na Geiriau</i> a'r Cynnig Gweithredol wedi'u cynnwys yng nghylchlythyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r erthyglau wedi cynnig eitemau i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg e.e. bathodynnau a chortynnau gwddf.</p> <p>ii). Mae lansio Safon Abertawe wedi atgyfnerthu'r neges o lefel gorfforaethol am bwysigrwydd bod yn gallu ymateb i anghenion iaith Gymraeg dinasyddion Abertawe. Mae hefyd wedi hyrwyddo camau ymarferol megis y cyfarchiad dwyieithog y dylid ei ddefnyddio mewn pwyntiau cyswllt a thros y ffôn, dylai negeseuon "nid wyf yn y swyddfa" fod yn ddwyieithog a dylai cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol fod ar gael yn Gymraeg</p>	

Canlyniad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
			ac yn Saesneg.	

Nodwch wybodaeth ychwanegol yn y blwch isod.

*i). Ymgysylltu â staff sy'n siarad Cymraeg*

Un o'r camau cychwynol y cytunodd y Grŵp Llywio arni oedd cysylltu â staff sy'n siarad Cymraeg i gael eu barn am y gwasanaeth y mae dinasyddion sy'n siarad Cymraeg yn ei dderbyn, lefel y gefnogaeth a ddarperir i staff a'r rhwystrau i gyflwyno'r Cynnig Gweithredol. Trefnwyd cyfarfod cychwynol ac anfonwyd gwahoddiad at grŵp cynrychioladol o staff mewn amrywiaeth o swyddi yn yr adran, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, staff dydd a phreswyl, staff domestig ac arlwy, gyrwyr a Therapyddion Galwedigaethol. Anfonwyd gwahoddiadau at oddeutu deg ar hugain o staff, ac roedd saith yn gallu bod yn bresennol. Ceir cynlluniau ar gyfer digwyddiad dilynol i adeiladu ar hyn, a chysylltu â grŵp ehangach o staff ac ystyried y materion a godwyd.

*ii). Cynnal cofnod o staff a chanddynt sgiliau iaith Gymraeg*

Mae gwaith wedi parhau i greu cofnod blynyddol o bobl a chanddynt sgiliau iaith ar draws yr adran, sydd wedi cynnwys gwybodaeth am nifer y staff sy'n hyfedr yn y Gymraeg, a chofnodi'r math a'r lefel o hyfedredd. Mae'r rhestr bresennol yn nodi bod gan 71 aelod o staff sgiliau iaith Gymraeg, er y mae'n debygol nad yw hyn yn gofnod o'r nifer gwirioneddol, gan fod adolygiadau blaenorol wedi dangos bod rhai aelodau o staff heb gofnodi eu gallu yn y Gymraeg yn bennaf oherwydd diffyg hyder.

**Amcan Strategol 3: Cynyddu gallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg mewn meysydd blaenoriaeth ac ymwybyddiaeth o iaith ymhlith staff**

Canlyniad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
<p>1. Mae defnyddwyr wedi'u grymuso oherwydd bydd cynlluniau'r gweithlu, sydd wedi'u cyfeirio gan ddadansoddiad o anghenion iaith cymunedau a data dibynadwy ar sgiliau iaith Gymraeg staff, yn galluogi sefydliadau i ddiwallu eu hanghenion.</p>	<p>1.1. Methodoleg cynllunio'r gweithlu i gynnwys asesiad o anghenion iaith Gymraeg cymunedau a sgiliau iaith Gymraeg neu'r gweithlu.</p>	<p>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	<p>Trafodaeth gychwynnol gyda Swyddog Prosiectau Datblygu Trefniadaeth ar ymagwedd gorfforaethol at fethodoleg cynllunio'r gweithlu. Angen mwy o waith dilynol o ran methodoleg y gwasanaethau cymdeithasol a chorfforaethol.</p>	<p>Drwy:  Cynlluniau'r gweithlu sefydliadau  Adroddiadau/data Cyngor Gofal Cymru ar gynllunio'r gweithlu</p>
	<p>1.2 Cyngor Gofal Cymru i asesu ansawdd yr wybodaeth am y gweithlu i sicrhau bod y data'n cynnwys gwybodaeth am anghenion iaith cymunedau a sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.</p>	<p>Cyngor Gofal Cymru</p>	<p><b>Dd/B</b></p>	

	1.4 Adroddiad Blynyddol statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru i gynnwys gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg yng nghynlluniau'r gweithlu, a sut mae hyn yn ymateb i anghenion y gymuned.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru	<b>Dd/B</b>	
	1.7 Adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol i adrodd ar sgiliau iaith Gymraeg yn eu gweithlu, fel rhan o gasglu data gan yr ALI, ar gyfer eu perfformiad o ran y Cynllun Iaith Gymraeg.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr ALI	Adroddiad wedi'i lunio fel rhan o'r cynllun iaith Gymraeg corfforaethol ym mis Mehefin 2013: Mae cofnodi sgiliau iaith staff (gan gynnwys Cymraeg) ar gronfa ddata AD wedi bod yn rhan o'r broses recriwtio ers mis Tachwedd 2007, er nad yw sgiliau'n cael eu mesur. Cynhaliwyd arolwg o holl weithwyr yr awdurdod a oedd yn cwmpasu sgiliau ieithyddol (gan gynnwys Cymraeg) a materion Cydraddoldeb eraill, a daeth i ben ar 31 Mawrth 2013. Roedd cymryd rhan yn yr arolwg yn wirfoddol, a chan mai unigolion oedd yn ateb yn ôl eu barn hwy, nid yw'n bosib gwarantu cywirdeb yr wybodaeth. Gofynnwyd i staff raddio eu	

			<p>gallu yn y Gymraeg yn ôl graddfa ddisgrifiadol ar gyfer Darllen, Gwranddo, Siarad ac Ysgrifennu.</p> <p>O'r 8676 o staff a gafodd arolwg ar bapur neu ar-lein, cafwyd atebion gan 1910 (21.6%).</p> <p>Mae system AD yr awdurdod wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar i gadw'r data hwn a chaniatáu i staff gynnal eu manylion sgiliau ieithyddol eu hunain. Lluniwyd dadansoddiad cychwynnol o'r canlyniadau gan yr adran.</p>	
--	--	--	--	--

Nodwch wybodaeth ychwanegol yn y blwch isod

**Amcan Strategol 4: Creu arweinwyr a fydd yn meithrin ethos cefnogol mewn sefydliadau fel y bydd defnyddwyr a gofalwyr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaethau sy'n sensitif i iaith fel rhan naturiol o'u gofal.**

Canlyniad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
<p>1. Bydd arweinyddiaeth ac ymroddiad gweladwy gan arweinwyr gwleidyddol ac uwch-swyddogion i gryfhau gwasanaethau Cymraeg a chreu diwylliant dwyieithog mewn sefydliadau, yn sicrhau gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr sy'n parchu hunaniaeth ddiwylliannol pobl.</p>	<p>1.1. Gofyn i arweinwyr gwleidyddol, Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi datganiad yn nodi:</p> <p>Eu hawyddi weld bod sensitifrwydd i'r iaith Gymraeg yn cael ei adlewyrchu drwy eu sefydliad i sicrhau gofal o safon a gwasanaethau effeithiol</p> <p>Pwysigrwydd ymateb i anghenion iaith Gymraeg y defnyddiwr wrth asesu defnyddwyr a gofalu amdanynt.</p>	<p>Daliwr Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	<p>Mae Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at staff sy'n siarad Cymraeg i'w gwahodd i ddod i ddiwyddiad ymgysylltu, gan gefnogi egwyddorion y Fframwaith Statudol Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu. Gwneir mwy o ddatganiadau gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Aelod y Cabinet i amlinellu'r ymroddiad i gryfhau gwasanaethau Cymraeg a chreu diwylliant dwyieithog i sicrhau cyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer ail flwyddyn rhoi'r cynllun ar waith.</p>	<p>Drwy:</p> <p>Gyfarwyddwr Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>Adroddiadau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yr ALI</p> <p>Datganiadau cyhoeddus mewn cyfarfodydd Bwrdd/y Cyngor ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg</p>



	1.2 Cytuno ar y camau y byddant yn eu cymryd i fodloni eu hunain bod y gwasanaeth maent yn ei ddarparu yn sensitif ac yn briodol.	Deiliaid Portffolio a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol	Gwneir adroddiadau rheolaidd gan y Grŵp Llywio i Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth. Caiff yr adroddiad hwn ei gyfeirnoddi a'i gynnwys yn Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg y cyngor, ac fe'i hystyrir gan Fwrdd Gweithredol y cyngor, y Pwyllgor Cydraddoldeb a'r Cabinet.	
	1.3 Cyfarwyddwyr i roi trefniadau ar waith i fonitro sut mae'r Fframwaith Strategol Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu yn cael ei roi ar waith.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol	Mae Grŵp Llywio wedi'i sefydlu gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r adran i gyfrannu at y Cynllun Gweithredu, adolygu cynnydd a thrafod pa gamau eraill y mae eu hangen. Gwneir adroddiad ar gynnydd i Grŵp Rheoli'r Gyfarwyddiaeth.	
	1.5 Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddynodi uwch-swyddog yn Hyrwyddwr y Gymraeg o fewn yr adran.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol	Mae uwch-swyddog wedi'i ddynodi ac mae'n cadeirio'r Grŵp Llywio. Ceir cydweithio agos â'r Swyddog yr Iaith Gymraeg Corfforaethol.	

Nodwch wybodaeth ychwanegol yn y blwch isod

--

**Amcan Strategol 5: Llunio a darparu rhaglenni addysg, dysgu a datblygu sy'n adlewyrchu cyfrifoldeb gwasanaethau i gynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg.**

Canlyniad	Camau Gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
1. Prif ffrydio'r dimensiwn Cymraeg i hyfforddiant a rhaglenni datblygiad proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol	2.3 Rhaglenni hyfforddi a datblygu staff i gynyddu gallu staff i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a thargedu hyfforddiant ddechrau i gynyddu hyder siaradwyr Cymraeg presennol i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle, a chynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff allweddol, yn enwedig staff rheng flaen a rheolwyr timau.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch-reolwyr yr holl ddarparwyr gofal	<p>Mae'r Cynnig Gweithredol bellach yn cynnwys Rhaglen Sefydlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys cyfeiriad at astudiaethau achos MnaG.</p> <p>Mae arweiniad cychwynnol ar y Cynnig Gweithredol ar gael drwy gylchlythyr y gwasanaethau cymdeithasol ac i bartneriaid comisiynu.</p> <p>Caiff y cwrs e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ei ddiweddarau a'i wella cyn bo hir a bwriedir llunio fersiwn ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>	Drwy:  Adroddiadau Cyngor Gofal Cymru

Page 89

Nodwch wybodaeth ychwanegol yn y blwch isod.

**Amcan Strategol 6:** Strategaethau, polisiau ac arweinyddiaeth Genedlaethol

Canlyniad	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth diwedd blwyddyn Ebrill 2013 – Ebrill 2014	Sut byddwn yn monitro cynnydd
3. Bydd arweinyddiaeth gadarn gan adrannau'r Llywodraeth i gryfhau gwasanaethau Cymraeg yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau o safon well i ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg.	3.1 Bydd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys adran ar sut mae darparu gwasanaethau'n diwallu anghenion defnyddwyr ac yn adrodd ar gynnydd a thargedau gwella.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru	Caiff adran ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol	Drwy:  Bolisïau a strategaethau cyhoeddedig sy'n adlewyrchu egwyddorion "Mwy na Geiriau"
	3.5 Gwerth Cymru i gyhoeddi arweiniad ar gaffael/comisiynu o ran y Gymraeg yn unol ag arweiniad caffael Comisiynydd y Gymraeg.	Gwerth Cymru	<b>Dd/B</b>	
	3.6 Gwaith comisiynu a chontractio wedi'i gyflawni gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau	Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a	<b>Dd/B</b>	

	Cymdeithasol a Phlant ac asiantaethau cenedlaethol i weithredu'n unol â chanllawiau caffael Comisiynydd y Gymraeg	Phlant ac asiantaethau cenedlaethol		
4. Arweinyddiaeth gadarn a gweladwy gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) ar gyfer Fframwaith Strategol yr Iaith Gymraeg.	4.1 ADSS Cymru i ymrwymo i broses rhoi'r Fframwaith Strategol ar waith a dangos arweinyddiaeth gadarn wrth wneud hyn.	ADSS Cymru	<b>Dd/B</b>	Datganiadau cyhoeddus gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'i chyfranogiad i'r rhaglen rhoi ar waith.

Page 91

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y blwch isod



## Atodiad 5 - Proses Asesu Effaith Cydraddoldeb Ddiwygiedig

Ers ei chyflwyno yn yr awdurdod, mae ein proses AEC wedi cynnwys yr Iaith Gymraeg mewn modd tebyg i'r nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ogystal â hyn, mae ffurflen adroddiad yr AEC hefyd yn cynnwys yr adran ganlynol:

### Adran 4 - Effeithiau Eraill:

Ystyriwch sut gallai'r fenter fynd i'r afael â'r materion canlynol.

Gallech seilio hyn ar wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau, data, ymgynghoriad ac ymchwil neu brofiad proffesiynol (e.e. sylwadau a chwynion).

Meithrin perthnasoedd da rhwng grwpiau gwahanol	Datblygu cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol
Dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio	Lleihau eithrio cymdeithasol a thlodi

(Gweler yr arweiniad ar gyfer diffiniadau o'r uchod)

Esboniwch unrhyw effaith bosibl ar bob un o'r uchod.

Pa waith ydych chi eisoes wedi'i wneud i wella unrhyw un o'r uchod?

A yw'r fenter yn debygol o gael effaith ar Gydlyniant Cymunedol (gweler yr arweiniad am fwy o wybodaeth)?

**Sut bydd y fenter yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal?**

**Camau gweithredu (i liniaru effaith andwyol neu i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd mewn gwybodaeth).**

O ran y cwestiwn hwn, mae'r arweiniad ar y ffurflen adrodd (y dylid ei ddarllen wrth gwblhau'r ffurflen), yn nodi'r canlynol:

**Yr iaith Gymraeg** - dylid ystyried unrhyw effeithiau y gallai'r fenter eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg. Yn benodol, y nod yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod pobl yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall.

I gyflawni'n dyletswyddau cyfreithiol, mae angen i ni ganolbwyntio ar ddau brif faes:

Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg  
Lleihau unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith.

Mae ffurflen yr adroddiad yn benagored a'r fformat yn un rhydd, gan alluogi'r person sy'n ei chwblhau i gynnwys cymaint o fanylion â phosib. Fel y nodwyd, byddai'r camau

gweithredu yn manylu'r mesurau penodol a nodwyd i gyflawni'n dyletswyddau cyfreithiol.

## Atodiad 6 – Arolwg Staff – ystadegau am yr Iaith Gymraeg

*SYLWER: Mae'r ffigurau'n seiliedig ar hunanasesu ac adrodd gwirfoddol ac o ganlyniad, bydd cyfraddau ymateb yn amrywio'n helaeth ar draws pob elfen (gradd, lleoliad, maes gwasanaeth). Ni wnaed dadansoddi pellach (e.e.. pwysoli canlyniadau).*

Roedd 152 o'r 1943 aelod o staff a ymatebodd wedi ateb "YDW" i'r cwestiwn "Ydych chi'n siarad Cymraeg?" Mae hyn yn cyfateb i 7.8% o'r cyfanswm.

Darparwyd y canlynol gan yr ymatebion i'r cwestiynau manylach (hyfedredd ym mhob un o'r pedair sgil ieithyddol [0 = Dim sgiliau; 5 cwbl hyfedr])

Lefel	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
1	162	176	202	191
2	120	83	72	41
3	40	51	35	38
4	28	30	38	37
5	86	71	75	47
Cyfanswm	436	411	422	354
	22.44%	21.15%	21.72%	18.22%
Cyfanswm 3/5	154	152	148	122
	7.93%	7.82%	7.62%	6.28%

Mae hyn yn nodi bod y rhai sy'n ateb YDW i'r cwestiwn cyffredinol yn asesu eu hunain ar lefel 3, 4 neu 5 - ond mae hefyd yn dangos bod gan oddeutu 3 gwaith y nifer hwnnw sgiliau Cymraeg sylfaenol y gellid adeiladu arnynt.

Mae'r dadansoddiadau canlynol wedi'u cofnodi:

### ADRANNOL

Adran	Cyfanswm Staff	Canran Ymateb	Cyfanswm ymatebion staff	Siaradwyr Cymraeg	Canran
Cyfarwyddiaeth - Gwasanaethau Corfforaethol	731	28.32%	207	22	10.63%
Cyfarwyddiaeth-Pobl	298	21.14%	63	7	11.11%
Cyfarwyddiaeth-Lleoedd	1394	31.28%	436	44	10.09%
Addysg	1500	37.33%	560	22	3.93%
Adran Weithrediadau	1342	18.18%	244	24	9.84%
Gwasanaethau Cymdeithasol	1867	23.19%	433	33	7.62%
<b>CYFANSWM</b>	<b>7132</b>	<b>27.24%</b>	<b>1943</b>	<b>152</b>	<b>7.82%</b>



UNEDAU GWASANAETH

	Cyfanswm ymatebion staff	Siaradwyr Cymraeg	Canran
<b>Uned Gwasanaeth</b>			
Gwasanaethau i Oedolion	310	26	8.39%
Plant a Theuluoedd	67	*	*
Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid	29	*	*
<b>Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol</b>	<b>98</b>	<b>12</b>	<b>12.24%</b>
Diwylliant, Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth	271	24	8.86%
Cyflwyno a Gwybodaeth	24	*	*
Adroddiadau Cyfarwyddiaethau	56	*	*
Adfywio Economaidd a Chynllunio	40	*	*
Gwella Addysg	50	*	*
Cynhwysiad Addysg	116	*	*
Cynllunio ac Adnoddau Addysg	323	11	3.41%
Gwasanaethau Ariannol	56	*	*
Priffyrdd a Chludiant	121	10	8.26%
Gwasanaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd	125	16	12.80%
Adnoddau Dynol a Datblygiad Trefniadaeth	74	*	*
Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Chaffael	24	*	*
Tlodi ac Atal Tlodi	63	*	*
Ysgolion	71	*	*
Rheoli Gwastraff	25	*	*

GRADDFEYDD

Enw'r raddfa (lle ceir 10 ymateb neu fwy fesul graddfa)	Cyfanswm ymatebion staff	Siaradwyr Cymraeg	Canran
Graddfa_01 LW LW	16	*	*
Graddfa_02 11-11 11A	353	15	4.25%
Graddfa_03 12-13 12A-13A	193	11	5.70%
Graddfa_04 13-16 13A-16A	210	*	*
Graddfa_05 17-20 17A-20A	300	20	6.67%
Graddfa_06 21-25	265	23	8.68%
Graddfa_07 26-30	174	17	9.77%
Graddfa_08 31-35	138	17	12.32%
Graddfa_09 36-40	89	10	11.24%
Graddfa_10 41-45	45	*	*
Graddfa_10A 41-43	10	*	*
Graddfa_11 46-50	28	*	*
Graddfa_12 51-55	23	*	*
Trothwy Athrawon 001-003 P00	38	*	*

LLEOLIAD GWEITHLEOEDD

<b>LLEOLIAD - ymatebion staff yn nodi 242 o leoliadau gwahanol, gyda 57 ohonynt ag un siaradwr Cymraeg neu fwy. Mae'r lleoliadau isod yn cynnwys y rhai lle cofnodwyd 10 neu fwy o ymatebion yn unig</b>			
<b>Lleoliad</b>	<b>Cyfanswm ymatebion staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>Canran</b>
Canolfan Hamdden Treforys	10	*	*
Suresprung	10	*	*
Caeau Chwarae Tircanol	11	*	*
Gwasanaeth Dydd Fforestfach	12	*	*
Cartref i'r Henoed yr Hollies	13	*	*
Cartref i'r Henoed Parkway	13	*	*
Tŷ Llanfair	14	*	*
Canolfan Hamdden Penlan	14	*	*
Canolfan Hamdden Penyrheol	16	*	*
Gwasanaethau Glanhau Cartref i'r Henoed Rose Cross	19	*	*
Cartref i'r Henoed Tŷ St Johns	20	*	*
Home Farm	21	*	*
Canolfan Dysgu Cymunedol Tŷ Bryn	24	*	*
Depo Clydach	24	*	*
Cartref i'r Henoed Tŷ Waunarlwydd	31	*	*
Depo Fforestfach	36	*	*
Canolfan Hyfforddiant Cyflogaeth	40	*	*
Glanfa Pipehouse	49	*	*
Heol y Gors	69	*	*
Canolfan Oldway	121	*	*
Swyddfeydd Dinesig Penllergaer	128	17	13.28%
Neuadd y Ddinas	200	16	8.00%
Canolfan Ddinesig	256	28	10.94%